<p>Chartist Way I would like you to consider give the following points.</p> <p>My main concern is the negative effects it will have on the existing primary schools in the Tredegar area. These schools are among the best providers of primary education in Wales. Most are categorised as Green and none are in Special Measures. Pupils will be lost to the new school and thus there will be issues of a drop in funding for the existing schools. This of course will be particularly relevant for Glanhowy primary in which the new school's catchment will be located. The worst case scenario would be the loss of a primary school in Tredegar. There is also the knock-on effect for Tredegar Comprehensive School as in the long-term pupils would travel to the nearest Welsh secondary school which is in the Torfaen authority. There is also the issues of redundancies being made in all the schools in Tredegar as total numbers of pupils fall.</p> <p>I am aware that consultation has taken place and that traditionally the responses to such exercises can be limited. However, was it made clear in the consultations what the full impact of the new school could have on the quality of education in Tredegar.</p> <p>Other sites in the western section of the borough also have more to offer. There is plenty of space at the Learning Campus at Ebbw Vale and this site already has the necessary transport infrastructure. Why does green space need to be taken away in the Sirhowy area? It does seem strange that three educational establishments have been demolished which could have been used. If the sites have been earmarked for other developments why can't this be changed?</p> <p>The target set for an increase in Welsh speakers is indeed commendable but by your own admission too ambitious. We already have a Welsh medium primary in the borough. It seems odd that Newport with a population of 145,000 has three Welsh Medium primary schools while Blaenau Gwent with a population of 69,713 needs two. Newport also has a Welsh Medium Comprehensive school within its authority which we don't.</p> <p>Immigration may be happening in some areas of south-east Wales, however very little in our area. It remains to be important in the more southerly places like Pontypool, Newbridge and Crosskeys. The</p>	<p>schools. However, this is being mitigated by the proposed seedling/growth model. This option means a slow and steady implementation. There are no plans by the council to carrying out any school reorganisation proposals.</p> <p>The revenue costs associated with each learner would be in the region of £2,500 per pupil.</p> <p>The Council is not planning any school re-organisation proposal for Tredegar, but work together to provide English and Welsh Medium education opportunities.</p> <p>Demand surveys over the past few years suggest that parents from the Tredegar/Sirhowy and Ebbw Fawr North valleys feel that the travelling distance to Ysgol Gymraeg Bro Helyg (the only Welsh medium primary school in the County Borough Council) is to great but would consider sending their child(ren) to a Welsh-medium primary school if it was situated closer.</p> <p>The Land off Chartist Way is identified as residential opportunities in the Councils Local Development Plan, there is also a small parcel of land referred to leisure purposes. No element of the proposed site is classified as Green Space.</p> <p>Newport, are also perusing additionality to their Welsh medium provision, this is to support the Welsh language provision and development of its Secondary school provision which is growing along with primary provision.</p>
---	--

argument that there will be an increase for education through the medium of Welsh due to migration because of the dropping of tolls on the bridge is thus weak.

The below 2 comments were more of a statement:

- Waste of money already enough schools
- No one speaks Welsh here

Pwyllgor: **Pwyllgor Gweithredol**
Dyddiad y cyfarfod: **Dydd Llun 22 Chwefror 2021**
Pwnc yr Adroddiad: **Ysgol Gynradd Gymraeg: Adroddiad Alldro yr Ymgynghoriad**
Deiliad y Portffolio: **Portffolio Addysg a Dysgu, Cyng Joanne Collins**
Cyflwynir yr Adroddiad gan: **Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg – Lynn Phillips**

Tîm Rheoli Cyfarwyddiaeth	Tîm Arweinydd-iaeth Gorfforaethol	Deiliad Portffolio/ Cadeirydd	Pwyllgor Archwilio	Pwyllgor Gwasanaeth Democratioedd	Pwyllgor Craffu	Pwyllgor Gweithredol	Cyngor	Arall (noder)
04.2.2021	11.2.21	16.02.21				22.2.21		

1. Diben yr Adroddiad

- 1.1 Diben yr adroddiad yw rhoi trosolwg manwl o'r ymgynghoriad statudol yn gysylltiedig gyda'r cynnig i adeiladu ysgol gynradd Gymraeg newydd gyda 210 lle a darpariaeth gofal plant ar yr un safle yn Nhredegar/Cwm Sirhywi. Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o:
- fethodoleg yr ymgynghoriad;
 - proses yr ymgynghoriad; a
 - chanlyniadau'r ymgynghoriad yn cynnwys y themâu allweddol a ddaw i'r amlwg o'r ymatebion a gafwyd.

- 1.2 Gofynnir am benderfyniad gan y Pwyllgor Gweithredol yn unol â'r cynnig i symud ymlaen i ganlyniad ymgynghoriad Hysbysiad Statudol.

2. Cwmpas a Chefndir

2.1 Proses a Methodoleg yr Ymgynghoriad

- 2.2 Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru – ail rifyn (2018) yn ei gwneud yn ofynnol bod yn **rhaid** cyhoeddi cynigion ar gyfer elfennau dilynlol ad-drefnu ysgolion:
1. agor ysgol a gynhelir (gan gynnwys ysgol arbennig);
 2. cau ysgol a gynhelir (gan gynnwys ysgol arbennig);
 3. gwneud newid a reoleiddir i ysgol a gynhelir; a,
 4. newid categori ysgol a gynhelir.

- 2.3 Bydd y cynnig i greu ysgol gynradd Gymraeg newydd yn golygu agor ysgol a gynhelir. Mae Adran 48 Deddf 2013 yn ei gwneud yn ofynnol bod yn **rhaid** yn gyntaf gynnal ymgynghoriad cyn y cyhoeddir cynigion trefniadaeth ysgolion dan adrannau 41-45.

- 2.4 Adolygydd Strategaeth Ymgynghori a methodoleg gysylltiedig Blaenau Gwent yn 2017, pan wnaed y penderfyniad i symud o gyfarfodydd ffurfiol i sesiynau galw heibio anffurfiol a mwy atyniadol. Y rhesymeg am y dull gweithredu yma oedd ysgogi sgwrs ymgynghorol ar sail un-i-un a grŵp llai er mwyn casglu ystod ehangach o sylwadau drwy ddull mwy atyniadol a chynhwysol.

- 2.5 Fodd bynnag, oherwydd effaith pandemig COVID-19, bu'n rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ynghyd ag awdurdodau eraill ledled Cymru addasu drwy gynnal ymgynghoriad ffurfiol drwy ddulliau rhithiol. I sicrhau'r cyfleoedd mwyaf posibl ar gyfer ymgysylltu er mwyn i ymgynghoreion ddysgu mwy am a deall y cynnig, cyniiodd Addysg gyfres o gyfarfodydd rhithiol a sesiynau ymgysylltu ar gyfer grwpiau sefydledig ac unigolion ar gais. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn ofyniad ffurfiol. Cafodd sesiynau ymgynghori eu cynllunio a'u cydlynu gan Addysg yn defnyddio Microsoft Teams. Ym mhob sesiwn:
- rhoddwyd cyflwyniad, yn rhoi trosolwg o'r cynnig; a
 - roedd swyddogion o Addysg, Datblygu Sefydliaidol a lle'n bosibl, Pennaeth Ysgol Gymraeg Bro Helyg, yn bresennol i ateb y cwestiynau a godwyd.
- 2.6 Cafodd yr ymgynghoriad ei ddechrau a'i gynnal drwy ddogfen ymgynghori ffurfiol ac arolwg ar-lein i gyd-fynd â hi (gweler **Atodiad 1** ar gyfer y ddogfen ymgynghori), oedd yn cydymffurfio'n llawn gyda'r gofynion statudol a nodir o fewn y cod a nodir isod.
- 2.7 Diben yr ymgynghoriad oedd cael barn a sylwadau ymgynghoreion yng nghyswilt y cynnig, er mwyn llywio proses gwneud penderfyniad a chamau nesaf y Cyngor.
- 2.8 Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru, mae'n rhaid i'r Awdurdod yn awr gyhoeddi adroddiad ymgynghori (o leiaf 2 wythnos cyn cyhoeddi'r hysbysiad statudol) sydd yn:
- crynhoi'r materion a godwyd gan ymgynghoreion;
 - ymateb i'r rhain ar ffurf esboniad, diwygiad i'r cynnig neu wrthod y pryderon, gan nodi'r rhesymau i gefnogi hynny;
 - nodi ymateb Estyn i'r ymgynghoriad yn llawn; ac
 - ymateb i ymateb Estyn ar ffurf esboniad, diwygiad i'r cynnig neu wrthod y pryderon, gan nodi rhesymau i gefnogi hynny.
- 2.9 Dechreuodd yr ymgynghoriad ffurfiol ddydd Iau 17 Rhagfyr 2020 pan gyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori ffurfiol ar wefan y Cyngor. Daeth y broses i ben wedyn ddydd Gwener 29 Ionawr 2021 am 5.00pm. Gofynnwyd i ymgynghoreion roi eu barn, sylwadau ac adborth drwy un neu fwy o'r dulliau dilynol:
- llenwi arolwg ar-lein; a/neu
 - drwy e-bost i gyfeiriad e-bost Ysgolion 21ain Ganrif.
- 2.10 Rhoddwyd rhifau cyswilt hefyd ar gyfer y tîm Trawsnewid Addysg i sicrhau fod ymgynghoreion oedd angen cefnogaeth a/neu gymorth i ymateb yn medru cael mynediad i help a gwybodaeth i'w galluogi i wneud hynny.
- 2.11 Fe wnaeth y Cyngor dargedu ymgynghoreion yn ôl cyfarwyddyd Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (gweler **Atodiad 2** i gael rhestr o'r ymgynghoreion statudol a gafodd y dogfennau angenrheidiol). Dosbarthwyd llythyrau electronig:
- drwy ysgolion Blaenau Gwent i staff, rhieni a disgyblion;

- i Gyrff Llywodraethu drwy'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg; ac
 - ymgyngoreion eraill fel y manylir yn Atodiad 2.
- 2.12 Derbyniwyd cyfanswm o 198 ymateb ffurfiol yn electronig. Cyflwynwyd yr ymatebion drwy un o'r dilynol: llythyr, e-bost neu arolwg.
- 2.13 **Trosolwg o Ymgysylltu â'r Cyhoedd**
Oherwydd cyfyngiadau Haen 4 COVID-19, ni fedrid ymgysylltu'n uniongyrchol â'r cyhoedd yn y cymunedau yr effeithir arnynt. Fodd bynnag, roedd y ddogfen ymgynggori yn dweud pe byddai unigolion neu grwpiau'n dymuno cysylltu gyda swyddogion i drafod y cynigion y gellid ac y byddid yn trefnu sesiwn rithiol. Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau am sesiwn benodol gan y cyhoedd a/nac ymgyngoreion allweddol eraill. Nid oedd ychwaith unrhyw alwadau ffôn yn ymwneud â'r ymgyngchoriad. Fodd bynnag, cynlluniodd Addysg 8 cyfarfod gydag ymgyngoreion allweddol (yn cynnwys rhai yr oedd y cynnig yn effeithio'n uniongyrchol arnynt) a fynychwyd gan gyfanswm o 83 o ymgyngoreion (gweler **Atodiad 3** am fwy o wybodaeth). Fel canlyniad i'r cyfarfodydd hyn gofynnwyd cyfres o gwestiynau a gafodd eu hateb gan swyddogion y Cyngor. Mae trosolwg manwl o'r cwestiynau ac ymatebion hyn ar gael yn **Atodiad 4**.
- 2.14 **Trosolwg o Ymatebion Ysgrifenedig**
Derbyniodd y Cyngor 8 ymateb e-bost, 5 yn Saesneg a 3 yn ddwyieithog. Mae'r cofnod gohebiaeth wedi'i golygu ar gael yn **Atodiad 5**.
- 2.15 Yn wahanol i ymgynghoriedau blaenorol, ni dderbyniwyd unrhyw ddeisebau Derbyniodd y Cyngor 190 ymateb i'r arolwg, 16 ohonynt yn y Gymraeg, gyda'r gweddill yn Saesneg. Mae dadansoddiad o'r ymatebion cysylltiedig yn **Atodiad 6**; fodd bynnag mae'r data islaw'n rhoi crynodeb o'r canlyniadau h.y. cefnogi'n llawn, cefnogi'n rhannol neu ddim yn cefnogi:
 - Cefnogi'r cynnig yn llawn - 177 (93%)
 - Cefnogi'r cynnig yn rhannol - 2 (1%)
 - Dim yn cefnogi'r cynnig - 11 (6%)
- 2.16 Rhoddodd 98 (52%) o gyfranogwyr sylwadau ychwanegol yn ymwneud â'r cynnig. Dewisodd 92 (48% o'r cyfranogwyr beidio rhoi sylwadau, ond yn hytrach fynegi eu dewis. O'r 177 ymatebydd a gefnogai'r cynnig, dywedodd:
 - 76 eu bod yn breswylwyr lleol
 - 35 eu bod yn rhieni
 - 43 eu bod yn staff ysgol (addysgu a heb fod yn addysgu)
 - 3 eu bod yn llywodraethwyr
 - 9 fod ganddynt ddiddordeb
- 2.17 O'r 11 ymatebydd nad oedd yn cefnogi'r cynnig, dywedodd:
 - 6 eu bod yn breswylwyr lleol
 - 5 eu bod yn rhieni

2.18 O'r 2 ymatebydd oedd yn cefnogi'r cynnig yn rhannol, dywedodd

- 1 eu bod yn byw'n lleol
- 1 eu bod yn rhiant

2.19 **Ymgysylltu ar y Cyfryngau Cymdeithasol**

Galloedd y tîm Cyfathrebu Corfforaethol sefydlu cysylltiadau ac ymwneud ar y cyfryngau cymdeithasol gyda negeseuon am yr ymgynghoriad.

- Rhoddodd y Cyngor hysbysiadau am yr ymgynghoriad drwy gydol y cyfnod ymgynghori, ar Facebook a Twitter
- Cafodd y negeseuon Facebook yn rhoi manylion y ddogfen a phrosesau ymgynghori gyfanswm o 178 cysylltiad (h.y. rhannu a hoffi) ynghyd â chyfres o sylwadau y gellir eu gweld ar dudalen Facebook y Cyngor
- Roedd tua 50 cysylltiad yn dilyn y negeseuon Twitter (h.y. rhannu a hoffi)
- Cyrhaeddodd y negeseuon ar yr ymgynghoriad drwy Twitter gyfanswm o dros 20,000 o bobl
- Cyrhaeddodd y negeseuon ar yr ymgynghoriad drwy Facebook gyfanswm o dros 7,500 o bobl.

2.20 **Dadansoddiad Thematig**

Defnyddiodd y tîm Trawsnewid Addysg fethodoleg dadansoddiad thematig i asesu barn yr ymgynghoreion. Mae'r dull hwn yn un o'r rhai a ddefnyddir amlaf mewn ymchwil ansoddol er mwyn dynodi patrymau sy'n dod i'r amlwg drwy set data h.y. themâu allweddol tebyg i iaith. Mae'r themâu a'r patrymau a ddaeth i'r amlwg yn bwysig i'r cwestiynau a ofynnwyd, wrth amlygu effaith y cynnig, a fydd yn ei dro yn cefnogi'r Pwyllgor Gweithredol i wneud penderfyniad gwybodus ar sut i symud ymlaen. Mae'r broses yn un ddehongliadol; fodd bynnag, caiff risgiau dehongli eu lliniaru i raddau helaeth drwy gyflwyno'r holl ymatebion a gafwyd (gweler **Atodiadau 5 a 6** am drosolwg llawn o'r ymatebion).

2.21 Rhoddir manylion islaw am y prif themâu sy'n dod i'r amlwg o ddadansoddiad o'r ymatebion ysgrifenedig yn cynnwys negeseuon e-bost ac arolygon, ynghyd ag amlder pob un o'r themâu a nodir uchod (o'r themâu mwyaf cyffredin i'r lleiaf cyffredin):

Thema	Amlodr
Newid a Chyfle Cadarnhaol Rhoddodd nifer o ymatebwyr fanylion y newidiadau a chyfleoedd cadarnhaol yn gysylltiedig gyda'r cynnig h.y. cyfleoedd swydd, caffaol iaith, datblygiadau lleol ac yn y blaen.	41
Ychwanegedd a Thwf Nododd yr ymatebwyr yr angen am opsiynau addysg Gymraeg ychwanegol a chyfleoedd twf cysylltiad ar bob cam addysg, ynghyd â phontio.	37
Iaith a Diwylliant Credai ymatebwyr fod gan y cynnig y potensial i gael dylanwad cadarnhaol a hybu'r iaith Gymraeg a'i diwylliant yn lleol.	34
Hygyrchedd Nododd yr ymatebwyr y byddai datblygiad lleol yn cynyddu mynediad i addysg Gymraeg a chyfleoedd dwyieithog.	32
Dewis Teimlid y byddai'r cynnig yn hyrwyddo mwy o ddewis yn nhermau opsiynau a dewis addysg.	12
Effaith Mynegodd ymatebwyr eu barn am a holi am yr effaith bosibl ar ysgolion presennol a'r ardal leol fel canlyniad i'r cynnig.	12
Hyfywedd Dyweddodd nifer fach o ymatebwyr efallai na fyddai'r cynnig yn hyfw o safbwyt tir a chynaliadwyedd.	7

- 2.22 Mewn blynnyddoedd diweddar, mae ymgynghoriadau ar ad-drefnu ysgolion wedi derbyn cyfran uwch o ymatebion negyddol na chadarnhaol. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi y derbyniodd yr ymgynghoriad hwn lefel uwch o gefnogaeth nag o her.
- 2.23 **Ymatebion Plant a Phobl Ifanc**
Cymerodd ysgolion, Gwasanaeth Ieuenciad Blaenau Gwent a'r Urdd ynghyd â thîm Polisi a Phartneriaethau y Cyngor ran yn y broses ymgynghori er mwyn cefnogi'r tîm Trawsnewid Addysg i fesur barn plant a phobl ifanc. Bu'n anodd cydlynu sesiynau penodol oherwydd cyfyngiadau presennol Haen 4 ac argaeedd plant a phobl ifanc i gymryd rhan weithgar.
- 2.24 Gofynnodd Ysgol Gymraeg Bro Helyg am farn disgyblion ar y cynnig, oedd yn cynnwys y sylwadau dilynol gan ddisgyblion o fewn Blynnyddoedd 4, 5 a 6:
- ‘Syniad gwych, braf cael ysgol Gymraeg arall yn agos, mae siarad Cymraeg yn dda ar gyfer y dyfodol.’
 - ‘Da i'r iaith, byddai wedi bod yn nes i fi oherwydd mod i'n byw yn Nhredegar.’

- ‘Mae prinder ysgolion Cymraeg ym Mlaenau Gwent felly byddai’n wych cael un arall.’
- ‘Syniad gwych, ond fe hoffwn i ysgol uwchradd hefyd gan fod Gwynllwyw mor bell.’
- ‘Syniad da oherwydd ein bod eisiau mwy o siaradwyr Cymraeg.’
- ‘Da iawn – mae’n dda i bobl fedru siarad Cymraeg.’
- ‘Dylai hyn fod wedi digwydd oesoedd yn ôl!’
- ‘Syniad gwych oherwydd mai dim ond un ysgol Gymraeg sydd ym Mlaenau Gwent.’
- ‘Syniad da iawn fel nad yw plant yn gorfod teithio mor bell ar y bws.’

2.25 Ymateb Estyn

Cafwyd ymateb gan Estyn yn ystod y cyfnod ymgynghori ac mae ymateb llawn yn seiliedig ar y ddogfen ymgynghori yn **Atodiad 5** (ymateb 5). Crynodeb/casgliad Estyn ar y cynnig yw::

Mae'r cynigiwr wedi ymgynghori'n eang, yn cynnwys gyda phlant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr, staff ysgol, ystod eang o gyfranogion ac aelodau o'r cyhoedd. Mae Estyn o'r farn y bydd y cynnig presennol yn gwella hygyrchedd darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion yn yr ardal.

2.26 Crynodeb o sylwadau yn gwrthwynebu'r cynnig

- Sylwadau'n dweud y byddai'n well gwario'r arian ar yr ysgolion sydd eisoes wedi sefydlu yn yr ardal nag ar yr ysgol newydd yma
- Sylwadau fod digon o ysgolion yn Nhredegard. Byddai hyn yn cael effaith niweidiol ar nifer eu disgyblion ac felly eu cyllidebau.
- Nid oes fawr iawn o Gymraeg yn yr ardal.
- Mae golygfeydd gwych dros Dredegard o'r tir y bwriedir adeiladu'r ysgol gynradd arno, ond bydd adeilad concrit arall eto yn cymryd y gofod gwyrdd hyfryd hwn. Mae'r tagfeydd traffig ar waelod Heol Beaufort yn ofnadwy yn barod ar adegau ysgol, bydd yr ysgol newydd yma o fewn tafliaid carreg o Ysgol Gynradd Glanhywi ac felly caiff y traffig ei ddyblu.
- Gan mai awdurdod lleol bach yw Blaenau Gwent, sylwadau ar fater teuluoedd yn gwneud y daith fer i'r Blaenau i fynychu'r ysgol Gymraeg bresennol.
- Mae llawer o weithfeydd heb eu cofnodi dan y safle a gynigir.
- Nid yw Ysgol Bro Helyg yn llawn. Gallai hyn fynd â niferoedd i ffwrdd o ysgolion eraill ac nid yw'n ymddangos fod galw am yr ysgol. A yw'n ariannol hyfyw cael adeilad ysgol llawn gyda dim ond dau ddosbarth?
- Pryder am yr effeithiau negyddol a gaiff ar yr ysgolion cynradd presennol yn ardal Tredegar. Mae'r ysgolion hyn ymysg darparwyr gorau addysg gynradd yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf yn y categori Gwyrdd ac nid oes dim mewn Mesurau Arbennig.

Mae rhestr lawn o'r cwestiynau a ofynnwyd a'r sylwadau ar gael yn **Atodiad 7.**

3 Opsiynau ar gyfer Argymhelliaid

- 3.1 Mae 2 opsiwn yn gysylltiedig gydag adroddiad all-dro yr ymgynghoriad fel sy'n dilyn:
- **Opsiwn 1** – Y Pwyllgor Gweithredol yn ystyried ac yn derbyn yr adroddiad all-dro, dogfennau cysylltiedig a'r llwybr gweithredu, yn cynnwys symud ymlaen at Hysbysiad Statudol
 - **Opsiwn 2** – Y Pwyllgor Gweithredol yn rhoi sylwadau ar y gwelliannau y gellir eu gwneud yng nghyswilt y ddogfen gysylltiedig a'r llwybr gweithredu a gynigir, gan ystyried y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) a'r amserlen a sefydlwyd.
4. **Tystiolaeth o sut mae'r pwnc hwn yn cefnogi cyflawni'r Cynllun Corfforaethol / Cyfrifoldebau Statudol / Cynllun Llesiant Blaenau Gwent**
- 4.1 Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (2018), mae gofyniad statudol ar gynghorau i ymgynghori ar a chyhoeddi cynigion am ad-drefnu ysgolion. Mae Addysg yn flaenoriaeth strategol o fewn y Cynllun Corfforaethol, gyda thwf, datblygiad a chynaliadwyedd addysg Gymraeg yn elfen allweddol yn hynny.
- 4.2 Mae'r Cynllun Strategol Addysg Gymraeg yn ganolog wrth sicrhau mynediad i'r Gymraeg a pharhau i'w datblygu yn unol â nod Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae addysg hefyd yn cyfrannu'n sylweddol at Gynllun Llesiant Blaenau Gwent gan fod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus weithio tuag at y saith nod llesiant, gyda "Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu" yn un ohonynt. Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg a gweithio at y nodau llesiant. Mae gan y broses ar gyfer cynllunio addysg Gymraeg hefyd sail statudol dan Adran 84 Deddf 2013.
5. **Goblygiadau pob opsiwn**
- 5.1 **Goblygiad ar y gyllideb** Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol cyfalaf yn gysylltiedig gyda'r cynnig hwn ar gyfer y Cyngor, gan fod y £6 miliwn a ddyfarnwyd yn gyllid 100% heb unrhyw ofyniad arian cyfatebol. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru hefyd ddyfarnu £200,000 fel cyllid 100% o'r Grant Cyfalaf Gofal Plant.
- Yn y tymor canol i'r hirdymor, bydd goblygiadau cyllideb refeniw yn gysylltiedig gyda'r cynnig, gan y bydd angen sefydlu'r Gyllideb Ysgol Unigol ym mlwyddyn ariannol 2023/2024 a bydd y cyllid gofynnol yn tyfu'n flynyddol wrth i'r ysgol dyfu i'w chapasiti.
- Mae'r tybiaethau a ddefnyddir yn y modelu yn cynnwys tybiaeth na fyddai unrhyw dwf drwyddi draw yn y boblogaeth disgyblion fel canlyniad i'r cynnig, y byddai angen i'r Gyllideb Ysgol Unigol gynyddu gan £265,000 yn 2023/2024 gyda chynnydd pellach o £189,000 yn 2024/2025 er mwyn

cylido'r ysgol newydd. Byddai gweddill y cyllid seiliedig ar ddisgyblion sydd ei angen yn dod o fewn y Gyllideb Ysgol Unigol bresennol, wrth i ddisgyblion ddewis y gosodiad newydd yn hytrach nag ysgolion eraill (gan ostwng cyllid seiliedig ar ddisgyblion mewn ysgolion presennol).

Yn seiliedig ar y modelu uchod, bydd pwysau cost i'r Cyngor o £265,000 yn 2023/2024 a £189,000 yn 2024/2025, y bydd angen ei ystyried fel rhan o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canol.

Mae'n debyg y bydd effaith ariannol gadarnhaol ar Gludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol a byddai angen cynnal asesiad er mwyn meintioli'r gostyngiad cost tebygol pe gweithredid y cynnig. Cludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol:

- **Gwariant cyfredol** y flwyddyn ar addysg Gymraeg tua:
 - Cynradd - £150,000 (4 Bws ac 1 Tacsi)
 - Uwchradd - £220,000 (6 Bws ac 1 Tacsi)
 - **2 bws i Fro Helyg o ardal Ebwy Fawr a Tredegar** - £67,000 y flwyddyn
- **Gostyngiad posibl mewn camau mewn costau cludiant h.y.** disgyblion Tredegar/Ebwy Fawr i Fro Helyg – cost gyfartalog fesul bws y flwyddyn £33,000

- 5.2 **Risg** Mae risg na fydd y Cyngor yn cyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Strategol Addysg Gymraeg. Ymhellach, mae'r potensial i golli'r £6 miliwn a ddyrannwyd i Flaenau Gwent yn unol â datblygu ysgol gynradd Gymraeg newydd gyda 210 lle, sy'n adeiladu ar y cysyniad/model egin, pe na fyddai'r cynnig a chysyniad yn mynd rhagddynt. Yn ychwanegol, byddai'r Cyngor yn colli'r £200,000 a ddyrannwyd yn unol â'r Grant Cyfalaf Gofal Plant.
- 5.3 **Cyfreithiol** Nid oes unrhyw oblygiadau cyfreithiol unigol yn gysylltiedig â'r cynnig hwn.
- 5.4 **Adnoddau Dynol** Nid oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol ar staffio neu'r gweithlu yn gysylltiedig gyda'r broses ymgynghori. Pe byddai'r cynnig yn mynd rhagddo, fodd bynnag, caiff yr agweddu llywodraethiant ac arweinyddiaeth eu datblygu mewn partneriaeth gyda Datblygu Sefydliadol, Cyllid a'r ysgol yr effeithir yn uniongyrchol arni.

6 Tystiolaeth i Gefnogi

- 6.1 **Gwybodaeth a Data Perfformiad** Gweler y ddogfen ymgynghori (**Atodiad 1**) ar gyfer y data perfformiad data yn gysylltiedig â'r cynnig.
- 6.2 **Canlyniad disgwyliedig i'r cyhoedd** Gall y cyhoedd ddisgwyl proses ymgynghori deg a chyfartal sy'n cydymffurfio'n llawn gyda Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (2018).
- 6.3 **Ymgynghoriad** Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ffocws allweddol yn holl gynigion trefniadaeth ysgolion. Cynhelir ymgynghoriad ar y cynnig yn unol â

Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (2018), a gaiff wedyn ei ddefnyddio fel sail i'r prosesau gwneud penderfyniadau yn y dyfodol.

- 6.4 **Meddwl am yr Hirdymor** Mae'r ymgynghoriad yn rhoi manylion cynnig sydd â'r nod o sicrhau darpariaeth addysg Gymraeg ychwanegol yn unol â datblygiad a chynaliadwyedd hirdymor y system addysg ym Mlaenau Gwent.
- 6.5 **Ffocws ataliol** Mae'r cynnig yn anelu trin y materion cynaliadwyedd yn gysylltiedig â thwf a datblygiad addysg Gymraeg yn y dyfodol.
- 6.6 **Cydweithio/gweithio partneriaeth** Cafodd yr ymgynghoriad ynghyd â datblygiad y cynllun ei ddatblygu ar y cyd gyda'r Fforymau Addysg Gymraeg lleol a rhanbarthol, Cynllunio, Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyllid, Ysgolion, awdurdodau eraill ac yn y blaen.
- 6.7 **Integreiddio** Mae'r cynnig yn anelu i sicrhau integreiddiad rhwng addysg Gymraeg a darpariaeth gofal plant presennol, gan gefnogi twf a chynaliadwyedd.
- 6.8 **Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn unol â'r ymgynghoriad, a benderfynodd nad oes unrhyw effaith negyddol ar y nodweddion gwarchodedig. Mae'r cynnig yn hyrwyddo cyfartal o fewn Blaenau Gwent ar gyfer teuluoedd a dysgwyr Cymraeg, gan gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg.
7. **Trefniadau Monitro** Os yw'r ymgynghoriad yn mynd rhagddo, bydd monitro helaeth yn unol â'r prosesau ymgynghori, ymatebion a chanlyniadau, a fyddai'n cael eu hateb, eu dadansoddi a mynd drwy brosesau gwleidyddol y Cyngor. Yn ychwanego, byddai'r prosiect yn cael ei sefydlu a'i reoli yn unol â Fframwaith Rheoli Prosiect Corfforaethol Blaenau Gwent a methodoleg PRINCE 2.

Dogfennau Cefndir/Dolenni Electronig.

Atodiad 1 Adroddiad yr ymgynghoriad
Atodiad 2 Rhestr yr ymgylngoreion
Atodiad 3 Rhestr o gyfranogwyr a fynychodd y cyfarfod Microsoft Teams
Atodiad 4 Yr holl gwestiynau a ofynnwyd yn y digwyddiadau ymgynghori hyn
Atodiad 5 Gohebiaeth wedi ei golygu
Atodiad 6 Dadansoddiad o'r arolwg ar-lein
Atodiad 7 Sylwadau heb fod yn cefnogi'r cynnig ac ymatebion

This page is intentionally left blank



Cynnig: Sefydlu Ysgol Gynradd Gymraeg newydd yn Nhredegar/Cwm Sirhywi drwy Fodel Egin/Twf

Cynhelir yr ymgynghoriad fel sy'n dilyn:

Dechrau: Dydd Iau 17 Rhagfyr 2020

Gorffenn: Dydd Gwener 29 Ionawr 2021

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn
cydymffurfio gyda chanllawiau Cod
Trefniadaeth Ysgolion (F2) Llywodraeth Cymru.

Ysgolion yr 21ain Ganrif
21st Century Schools



Beth yw diben y Llyfrym hwn?

Cafodd y llyfrym hwn ei baratoi ar gyfer rhieni/gofalwyr, staff ysgolion, llywodraethwyr ysgol a chymuned ehangach Blaenau Gwent. Mae'n rhoi trosolwg o'r broses ymgynghori sy'n gysylltiedig â chynnig y Cyngor i ddatblygu ysgol gynradd Gymraeg newydd gyda 210 lle yn Nhredegard/Cwm Sirhywi. Bydd o ddiddordeb neilltuol i rieni/gofalwyr sy'n ystyried addysg Gymraeg ar gyfer eu plentyn/plant.

Os hoffech yr wybodaeth hon mewn unrhyw fformat arall, cysylltwch os gwelwch yn dda â'r tîm Trawsnewid Addysg naill ai drwy e-bost neu dros y ffôn, fel sy'n dilyn:

- E-bost 21stcenturyschools@blaenau-gwent.gov.uk neu
- Ffôn: (01495) 355470



Nodiadau Esboniadol – defnyddir y termau dilynol drwy'r ddogfen hon:

Rhif Derbyn	Mae pob ysgol a gynhelir yn derbyn disgyblion hyd at eu Rhif Derbyn a Gyhoeddwyd. Y rhif derbyn yw nifer y lleoedd i ddisgyblion sydd ar gael ym mhob grŵp blwyddyn.
Cynllun Datblygu Lleol	Mae'n gosod cynigion pob awdurdod cynllunio ar gyfer datblygiad a defnydd tir yn eu hardal yn y dyfodol.
Lliniaru	Y weithred o ostwng difrifoldeb rhywbeth.
Nifer ar y Gofrestr	Nifer y disgyblion mewn ysgol (heb fod yn cynnwys disgyblion meithrin).
PLASC	Cyfrifiad Blynnyddol Ysgolion Lefel Disgybl. Mae Llywodraeth Cymru yn casglu gwybodaeth gan ysgolion ym mis Ionawr bob blwyddyn. Mae hyn yn cynnwys nifer y disgyblion ym mhob ysgol, eu grŵp oedran, eu cyfeiriad cartref, ethnigrwydd, data ar y Gymraeg, Anghenion Addysgol Arbennig, iaith gyntaf a hawl disgyblion i brydau ysgol am ddim.
Model Twf Egin	Model a ddefnyddir wrth ddatblygu ysgolion newydd, lle caiff grwpiau blwyddyn eu hychwanegu flwyddyn ar flwyddyn.
Lleoedd gwag	Lleoedd gwag neu heb eu llenwi mewn ysgol
Hysbysiad Statudol	Hysbysiad statudol yw cyhoeddiad ffurfiol cynnig a gafodd ei gwblhau. Dim ond os yw'r Cyngor yn penderfynu symud ymlaen gyda chynnig ar ôl ystyried yr holl ymatebion o'r broses ymgynghori y gwneir hyn. Mae hyn yn ofyniad cyfreithiol fel yr amlinellir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018).
Ysgol Gymraeg	Ysgol lle caiff y Gymraeg ei haddysgu fel iaith gyntaf.

Tabl Cynnwys

Tudalen

Adran 1: Cyflwyniad	6
Adran 2: Y Broses Ymgynghori	
• Gyda phwy y byddwn yn ymgynghori?	7
• Cyfnod ymgynghori a sut i gymryd rhan	7
• Ymgynghoriad gyda Phlant a Phobl Ifanc	8
Adran 3: Disgrifiad o'r Cynnig a'r Manteision	
• Pam fod angen newid	8
• Galw am Ofal Plant ac Addysg Cyfrwng Cymraeg	9
• Disgrifiad o'r Cynnig	12
• Y cynnig	12
○ Beth yw model egin?	13
○ Maint dosbarthiadau yr Ysgol Gynradd Gymraeg	13
○ Manteision ac anfanteision model egin	14
○ Manteision ac anfanteision y cynnig o gymharu â'r sefyllfa bresennol	14
○ Risgau a lliniaru	15
○ Cynigion eraill a ystyriwyd ac a wrthodwyd	17
○ Mathau o ddarpariaeth a ystyriwyd	17
○ Modelau llywodraethiant a ystyriwyd	17
○ Safleoedd/lleoliadau a ystyriwyd	17
○ Trefniadau teithio dysgwyr	18
○ Darpariaeth cludiant Ol-16	18
Adran 4: Manylion yr ymgynghoriad	
• Canlyniad yr Ymgynghoriad a'r cam nesaf	18
○ Adroddiad yr Ymgynghoriad	18
○ Hysbysiad Statudol	18
○ Penderfynu ar y cynnig	19
○ Hysbysiad am y penderfyniad	19
○ Amserlen	19
Adran 5: Manylion yr ysgolion yr effeithir arnynt	
• Niferoedd ysgolion ar y gofrestr ac amcanestyniadau disgylion	19
• Data lleoedd disgylion ac amcanestyniadau ysgolion cynradd	19
• Data lleoedd disgylion ac amcanestyniadau ysgol uwchradd	20
• Ysgolion yr effeithir yn anuniongyrchol arnynt	20
○ Tredegar/Cwm Sirhywi	20
○ Ebwy Fawr (Gogledd)	20
Adran 6: Ystyriaethau eraill	
• Effaith y cynnig ar y Gymraeg	21
• Cyllid	21
• Trefniadau derbyn	22
• Sgrinio'r Effaith ar Gydraddoldeb	22
• Asesiadau Effaith ar y Gymuned a'r Gymraeg	22

• Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyner	23
• Ymgysylltu â phlant a phobl ifanc yn yr Ymgynghoriad	23
• Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion	23
• Lleoedd gwag/Materion capaciti	23
• Costau cyfalaf/derbyniadau cyfalaf	23
• Datblygiadau tai	23
• Adnoddau dynol	23
• Partneriaethau	24
	24
Adran 7: Gwerthuso'r Trefniadau Presennol	
• Canlyniadau diweddaraf Estyn	25
• Ansawdd a safonau mewn addysg	26
○ Safonau	26
○ Llesiant ac agweddau at ddysgu	26
○ Addysgu a phrofiadau dysgu	26
○ Gofal, cymorth ac arweiniad	26
○ Arweinyddiaeth a rheolaeth	26
• Effaith y cynnig	27
Adran 8: Trosolwg o'r Cynnig am Ysgol Newydd	
• Niferoedd a threfniadau derbyn a nifer lleoedd meithrin	27
• Ystod oedran	
• Lleoedd disgylion	
• Capasiti	
• Lleoliad	
• Categori ac iaith yr ysgol	
• Rhestr llety	
• Rhestr cyfleusterau a ddarperir dan y Cynnig	28
• Dalgylch ysgol	28
• Trefniadau trosglwyddo	
Adran 9: Ffurflen Ymgynghori	29
Atodiad1: Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	
Atodiad 2: Asesiadau o'r Effaith ar y Gymuned a'r Iaith Gymraeg	

Adran 1: Cyflwyniad



Fel rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r nod o un filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, cyhoeddodd Ysgrifennydd Cyllid y Cabinet ar 16 Ionawr 2018 y byddai £30 miliwn (cyllid 100%, heb unrhyw ofyniad am arian cyfatebol gan Gynghorau) yn cael ei ddyrannu i gefnogi prosiectau cyfalaf neilltuol ar gyfer creu darpariaeth ychwanegol mewn addysg Gymraeg.

Cafodd Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) 2017-20 Blaenau Gwent ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2018 (mae mwy o wybodaeth ar gael drwy ddefnyddio'r ddolen ddilynol):

<https://www.blaenau-gwent.gov.uk/fileadmin/documents/Council/Policies%20-%20Strategies%20-%20Plans/Blaenau%20Gwent%20WESP%202017-20%20Nov%202017%2024th%20English.pdf>.

Mae Blaenau Gwent yn hyrwyddo ac yn gosod targedau a deilliannau allweddol sy'n gydnaws â thwf a datblygiad addysg a gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg a thrwy hynny y Gymraeg yn lleol.

Cyngor Blaenau Gwent yw'r unig gyngor yng Nghymru sydd â dim ond un ysgol gynradd Gymraeg. Felly cafodd achos busnes uchelgeisiol ei ddatblygu yn ceisio sicrhau ychwaneged ar lefel gynradd, yn gysylltiedig â galw cudd am leoedd mewn ysgol gynradd Gymraeg, yn neilltuol yn Nhredegar/Cwm Sirhywi. Ym mis Hydref 2018 derbyniodd y Cyngor gadarnhad y cafodd £6 miliwn ei ddyrannu i gyflenwi darpariaeth cyfrwng Cymraeg ychwanegol. Sicrhaodd Blaenau Gwent hefyd £200,000 drwy Grant Cyfalaf Gofal Plant Llywodraeth Cymru i greu darpariaeth addysg a gofal plant cyfrwng Cymraeg yn ychwanegol o fewn yr ardal.

Mae Ysgol Gymraeg Bro Helyg yn ysgol gynradd Gymraeg gyda 215 lle yn nhref Blaenau yng ngogledd cwm Ebwy Fach. Mae'r ysgol yn gwasanaethu Blaenau Gwent i gyd o ran dalgylch ac yn darparu ar gyfer disgyblion 3-11 oed. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn cynnig ymateb i'r galw cudd am fwy o leoedd gofal plant ac ysgol cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion sy'n byw yn Nhredegar a chymoedd Sirhywi ac Ebwy Fawr (gogledd). Drwy'r cyllid a ddyrannwyd fel y manylir uchod, mae'r Cyngor yn cynnig cynyddu darpariaeth gynradd Gymraeg drwy fodel egin/twf, i ateb y galw cudd a ddisgrifir uchod.

Mae'r Cyngor yn ymroddedig i ddarparu addysg ansawdd uchel i bob plentyn a pherson ifanc sydd wedi ei theilwra i ateb eu hanghenion, datblygu eu potensial, ymestyn uchelgais, hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a chyfrannu at adfywiad economaidd yr ardal. Byddai creu ysgol gynradd Gymraeg yn Nhredegar/Cwm Sirhywi yn galluogi'r Cyngor i ateb y galw cynyddol am leoedd gofal plant ac addysg cyfrwng Cymraeg.

Adran 2: Y Broses Ymgynghori

Bydd y ddogfen ymgynghori a'r broses gysylltiedig yn rhoi cyfle i ymgynghoreion a rhai â diddordeb i ddysgu mwy am, deall a mynegi eu barn ar gynnig y Cyngor, fydd yn llywio'r penderfyniad terfynol ar sut y byddir yn symud ymlaen â'r cynnig. Caiff yr adborth a'r sylwadau a geir drwy'r broses eu casglu, eu dadansoddi a'u hadrodd drwy brosesau gwleidyddol y Cyngor. Bydd Pwyllgor Gweithredol y Cyngor wedyn yn gwneud y penderfyniad terfynol yn seiliedig ar ganlyniad yr ymgynghoriad a'r adborth yn gysylltiedig â hynny.

Gyda phwy y byddwn yn ymgynghori?

Caiff y Ddogfen Ymgynghori ei dosbarthu yn unol â Fersiwn 2 Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (Tachwedd 2018). Mae **Ffigur 1** yn rhoi manylion yr ymgynghoreion a gaiff eu targedu yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol.

Ffigur 1: Grwpiau y bydd y Cyngor yn cysylltu â nhw yn ystod y cyfnod ymgynghori	
Plant a phobl ifanc	Gweinidogion Cymru
Rhieni/gofalwyr	Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Staff ysgolion	Gwasanaeth Addysg Consortiwm De Ddwyrain Cymru (SEWC)
Cyrff Llywodraethu Ysgolion	Comisiynydd y Gymraeg
Trigolion lleol	Rhieni Dros Addysg Gymraeg (RHAG)
Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol	Undebau Llafur
Partneriaid Anghenion Addysgol Arbennig	Gwasanaethau Gwybodaeth i'r Teulu
Tîm Cynhwysiant yr awdurdod lleol	Dechrau'n Deg
Estyn	Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeidd Dydd
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
Cynghorau Cymuned y mae'r cynnig yn effeithio arnynt	Aelodau'r cyhoedd a phartïon eraill sydd â diddordeb

Cyfnod ymgynghori a sut i gymryd rhan

Bydd y cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynnig hwn yn dechrau **ddydd Iau 17 Rhagfyr 2020** ac yn gorffen **ddydd Gwener 29 Ionawr 2021**. Gall ymgynghoreion gyflwyno eu sylwadau ar y cynnig, fodd bynnag, dylid nodi na chaiff ymatebion a dderbynir yn ystod y cyfnod hwn eu cofnodi fel gwrthwynebiad. Pe byddai'r cynnig yn symud ymlaen a bod ymgynghoreion yn dymuno gwneud gwrthwynebiad, bydd angen iddynt wneud hynny mewn ysgrifen yn ystod y cyfnod hysbysiad statudol a amlinellir ar dudalen 18.

Hoffai'r Cyngor i chi ystyried yr wybodaeth a nodir yn y tudalennau dilynol a rhoi eich sylwadau ar y cynnig. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu ymholabau ar yr wybodaeth yn y ddogfen hon, cysylltwch â ni naill drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost islaw neu ein ffonio ar (01495) 355470 os gwelwch yn dda.



21stcenturyschools@blaenau-gwent.gov.uk

Mae hefyd groeso i chi lenwi'r arolwg ar-lein drwy ddefnyddio'r ddolen ddilynol:
<https://wh1.snapsurveys.com/s.asp?k=160804432322>

Dylai pob ymateb i'r ymgynghoriad ddod i law erbyn **5pm ddydd Gwener 29 Ionawr 2021 fan bellaf.**

Mae'r tîm Trawsnewid Addysg wedi cynllunio cyfarfodydd rhithiol gyda staff ysgolion, llywodraethwyr, cynrychiolwyr undebau llafur, disgyblion a phartïon eraill â diddordeb. Caiff tudalen cwestiynau cyffredin ei datblygu a'i diweddar u'n wythnosol drwy gydol y cyfnod ymgynghori.


Oherwydd goblygiadau parhaus pandemig COVID-19, ni fydd y Cyngor yn cynnig sesiynau galw heibio. Os teimlwch fod angen a/neu'n teimlo'n gryf am drafod y cynnig wyneb yn wyneb, cysylltwch â ni drwy gyfeiriad e-bost ysgolion 21ain ganrif fel sy'n dilyn: 21stcenturyschools@blaenau-gwent.gov.uk a gellir trafod cyfarfod rhithiol.

Ymgynghori gyda Phlant a Phobl Ifanc

Bydd cyfle i ddisgyblion Ysgol Gymraeg Bro Helyg, ynghyd â phlant a phobl ifanc eraill, i gymryd rhan yn y broses ymgynghori. Datblygwyd fersiwn gyfeillgar i blant a phobl ifanc sydd ar gael drwy'r wefan a chaiff ei rhannu gyda disgyblion ledled Blanau Gwent, ynghyd â Chynghorau Ysgolion a'r Fforwm leuenctid. Bydd yr holl wybodaeth a gasglwyd o'r ymgynghoriad yn ffurfio rhan o adroddiad alldro yr ymgynghoriad.

Adran 3: Disgrifiad o'r Cynnig a'r Manteision

Pam fod angen newid



Canran isel o siaradwyr Cymraeg sydd ym Mlaenau Gwent, gyda dim ond 7.8% o'r boblogaeth yn medru siarad Cymraeg (Cyfrifiad 2011), mae'r ardal yr ail isaf o blith y 22 Cyngor yng Nghymru. Mae cyfartaledd Blaenau Gwent yn llawer is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 19%.

Fel y manylir yn Adran 1 y ddogfen hon, Blaenau Gwent yw'r unig awdurdod yng Nghymru gyda dim ond un ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg, Ysgol Gymraeg Bro Helyg (ar gyfer disgyblion 3-11 oed) yng Nghwm Ebwy Fach. Nid oes ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg ym Mlaenau Gwent. Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn gweithio mewn partneriaeth gyda Chynghor Bwrdeistref Sirol Torfaen er mwyn sicrhau lleoedd ysgol uwchradd ar gyfer disgyblion Blaenau Gwent yn Ysgol Gyfun Gwynllwyw. Ar hyn o bryd mae 155 o ddisgyblion 11-19 oed Blaenau Gwent yn mynychu Ysgol Gyfun Gwynllwyw. Mae'r cyfraddau trosglwyddo rhwng cynradd ac uwchradd yn 100%, gyda phob disgybl a ddewisodd addysg gynradd Gymraeg yn dewis addysg uwchradd Gymraeg. Mae cyfraddau trosglwyddo wedi parhau'n uchel (rhwng 95% a 100%), ers sefydlu'r ysgol.

Pan agorodd Ysgol Gymraeg Bro Helyg ym mis Medi roedd 36 disgybl (ar draws pob grŵp blwyddyn) yn mynychu o Dredegar/Cwm Sirhywi. Mae'r niferoedd wedi amrywio ers hynny, gan fod ar eu huchaf yn 42 yn 2011/12. Dechreuodd niferoedd ostwng i 22 ac is rhwng 2015 a 2017. Mae niferoedd wedi sefydlogi dros y 2 sesiwn academaidd ddiwethaf. Caiff dysgwyr eu haddysgu mewn 10 grŵp dosbarth a byddai gan ddosbarth nodwediadol 1 athro ac 1 cymhorthyydd addysgu yn y Cyfnod Sylfaen, a rhwng 25-30 disgybl; fod bynnag mae'n rhaid i'r ysgol fod yn hyblyg iawn

i ddiwallu anghenion y plant. Mae Ysgol Gymraeg Bro Helyg yn ffurio rhan o raglen Band B Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, ac felly mae'r ysgol yn y rhaglen ar gyfer ailfodelu ac ailwampio, gan sicrhau darpariaeth gyfartal ym mhob rhan o'r stad ysgolion, tra hefyd yn trin materion addaswydd fydd yn gwella ansawdd addysgu a dysgu.

Mae Pennaeth yr Ysgol a'r Cyngor yn ymroddedig i gydweithio i godi proffil yr ysgol yn unol â thaith gwella'r ysgol. Gyda chynnig cludiant meithrinfa lawn-amser a rhwng y cartref a'r ysgol ar gyfer disgylion meithrin anstatudol, mae cyfanswm nifer disgylion unwaith eto wedi dechrau cynyddu. Fodd bynnag, mae'r nifer o Dredegar/Cwm Sirhywi a rhan ogleddol cwm Ebwy Fach yn parhau'n gymharol isel o gymharu â blynnyddoedd blaenorol. Yn 2020 cafodd tua 10 disgyl o Dredegar/Cwm Sirhywi, ynghyd â 10 disgyl o gwm Ebwy Fawr (gogledd) eu derbyn i'r dosbarth meithrin a'r dosbarth derbyn yn Ysgol Gymraeg Bro Helyg.

Yn ystod sesiynau a digwyddiadau ymgynghori ac ymgysylltu a digwyddiadau a anelwyd i gasglu barn rhieni y mae eu plant yn cael mynediad i ddarpariaeth blynnyddoedd cynnar, mae'r pellter rhwng cartrefi Tredegar a Chwm Sirhywi a'r ysgol yn cael effaith negyddol ar ddewis rhieni wrth ystyried opsiynau addysg ar gyfer eu plentyn/plant. Yn ychwanegol, cafodd cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus rhwng cymoedd eu disgrifio fel 'gwael' ac yn brin ac mae hynny yn cyfyngu gallu rhieni i gael mynediad i Ysgol Gymraeg Bro Helyg, os a phan nad oes ganddynt fynediad i'w cerbydau eu hunain neu gerbydau teuluol.

Galw am Ofal Plant ac Addysg Cyfrwng Cymraeg:

Ar hyn o bryd mae 3 Cylch Meithrin ym Mlaenau Gwent a welodd gynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn darpariaeth Gymraeg dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae cyfraddau trosglwyddo wedi amrywio dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf gyda chynnydd wedi'i nodi yn unol â darpariaeth feithrin lawn-amser.

Mae cynnydd mewn darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg ledled Blaenau Gwent yn unol â'r galw. Bu'r Mudiad Meithrin yn gweithio'n agos gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent dros y 4 blynedd ddiwethaf, gyda datblygu darpariaeth Ti a Fi a hefyd gylch Meithrin yn ardaloedd Tredegar/Sirhywi ac Ebwy Fawr. Fel canlyniad sefydlwyd grŵp Ti a Fi ym mis Mai 2018. Agorodd Cylch Meithrin newydd yn Nhredegar ac mae wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru. Mae'r pwylgor rheoli yn awr yn dymuno reciwtio staff i agor ar gyfer plant yn gynnar yn 2021. Mae'r Mudiad Meithrin hefyd wedi cofrestru diddordeb gyda'r tîm Dechrau'n Deg ym Mlaenau Gwent i ddarparu lleoedd cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant yn yr ardal.

Mae meithrinfa leol Buds to Blossoms, sy'n seiliedig yn Beaufort, wedi cofrestru gyda'r Mudiad Meithrin a bydd yn dechrau darparu sesiwn Cylch Meithrin ar gyfer plant yn eu gofal. Mae hyn yn gynllun peilot drwy broiect Dechrau Sefydlu Dechrau Symud y Mudiad Meithrin, yn defnyddio Croesi'r Bont sef cynllun swyddogol trochi iaith y Mudiad Meithrin. Sefydlwyd y cynllun i helpu datblygu sgiliau Cymraeg ar gyfer staff Cylch, drwy sicrhau eu bod yn cyflwyno patrymau iaith safonol a chyson i'r plant yn eu gofal. Bu ymateb rhagorol i'r cynllun ar draws y rhanbarth. Cafodd y Cynllun ei gymeradwyo a'i gydnabod gan Estyn mewn nifer o adroddiadau Cylch Meithrin yn dilyn archwiliadau mewn gosodiadau.

Mae Cylch Meithrin Gwdihŵ (Brynlithel) yn ymestyn eu gwasanaethau ac yn awr yn medru darparu sesiwn drwy'r dydd rhwng 9am - 3pm. Maent hefyd wedi dechrau'r broses o ddod yn ddarparydd Addysg. Byddai hyn yn golygu y gall plant aros yng Nghylch Meithrin Gwdihŵ (Brynlithel) ar gyfer eu haddysg feithrin, gan olygu fod y gyfradd trosglwyddo i Ysgol Gymraeg Bro Helyg yn debyg o gynyddu yn y Cyfnod Sylfaen, gyda mynediad i'r grŵp dosbarth derbyn. Dywedodd rhieni sy'n

defnyddio'r gosodiad y byddent yn llawer mwy cysurus gyda'u plant/plentyn yn defnyddio cludiant ar oedran dosbarth derbyn nag ar oedran meithrin.

Yn olaf, mae'r tîm Gofal Plant a Chwarae Blynnyddoedd Cynnar wedi sicrhau Grant Cyfalaf Gofal Plant o £1.5 miliwn gan Lywodraeth Cymru i gynyddu gofal plant o fewn ardal gogledd Glynebwy. Felly, mae'r Cyngor yn anelu i greu cyfleuster adeilad newydd gyda hyd at 52 lle o fewn ward Badminton, sydd ar y gweill ar hyn o bryd fel cyfleuster gofal plant cyfrwng Cymraeg.

Dangosodd yr Asesiad Digionolwydd Gofal Plant a gynhaliwyd gyda rhieni fod 1% o'r plant yn dod o gartrefi sy'n bennaf yn siarad Cymraeg gyda 6% arall yn dweud eu bod o gartrefi dwyieithog. Mae lefel uchel o gefnogaeth rhieni ar gyfer dwyieithrwydd gyda 55% o rieni eisiau i'w plant ddod yn ddwyieithog, fodd bynnag dim ond 8% o rieni oedd yn bwriadu anfon eu plentyn i ysgol Gymraeg.

Pan ofynnwyd iddynt 'A oes unrhyw rwystrau sy'n effeithio ar eich gallu i fanteisio o ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg?' atebodd 394 o rieni fel sy'n dilyn:

- Na – 68% (269)
- Dim ar gael yn lleol – 7.8% (31)
- Dim ar gael yn yr oriau sydd eu hangen – 1.2% (5)
- Ystod oedran ddim yn addas – 0.5% (2)
- Cost – 2% (8)
- Arall – 4.3% (17) Gofynnwyd am sylwadau oedd yn cynnwys:
 - 'Dim yn siarad yr iaith fy hunan'
 - 'Arolwg Estyn yn wael iawn'
 - 'Pryderus gan nad wyf yn siarad Cymraeg'
 - 'Plentyn mewn ysgol anghenion arbennig'
 - 'Mae'r unig ddarpariaeth yn ardal yr awdurdod lleol yn tangyflawni'n ddifrifol ac ni fyddwn yn dewis anfon fy mhlentyn i'w sefydliad dysgu'
 - 'Dim eisiau i S ... orfod teithio'
 - 'Dim ysgol gyfun Gymraeg leol. Bu'n rhaid i fy merch hynaf deithio o Frysmawr i Bont-y-pŵl a bydd yn rhaid i fy mhlentyn 6 oed wneud yr un fath'
 - 'Dim llawer o leoedd – ond heb edrych i'r mater yn iawn'
 - 'Anawsterau gyda chludiant'
 - 'Trafferth yn yr ysgol Gymraeg, newydd symud i ysgol Saesneg'

O'r 31 rhiant a ddywedodd nad oes gofal plant ar gael yn lleol, roedd y gwasgariad daearyddol fel sy'n dilyn: - Sirhywi – 8, Ebwy Fawr – 11, Gogledd Ebwy Fach – 3, De Ebwy Fach – 9. Dangosodd yr arolwg fod y farn wedi holti am p'un ai oedd digon o ofal plant cyfrwng Cymraeg gyda 29 rhiant yn cytuno bod a 17 yn anghytuno. Teimlai 51 rhiant fod gofal plant ar gael yn eu dewis iaith, ond nid oedd 10 yn credu hynny. Dangosodd y galw gan rieni y byddai 2 riant yn edrych am ofal plant cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol ac y byddai 21 yn edrych am ofal plant yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Yn 2018 fe wnaeth y Cyngor gynnal Arolwg Galw Darpariaeth Gymraeg yn ystod tymor yr hydref. Dosbarthwyd yr arolwg i 1,460 o rieni plant 0-2 oed. Cafodd 72 arolwg eu llenwi, sef cyfradd ddychwelyd o 4.93%. O'r 72, roedd 21 o Dredegar/Cwm Sirhywi, 23 o Ebwy Fawr a 28 o Gwm Ebwy Fach. Mae'r canlyniadau perthnasol i'r ymgynghoriad hwn fel sy'n dilyn:

- 52% (38) o gyfranogwyr yn dweud nad oeddent yn teimlo fod ganddynt ddigon o wybodaeth am addysg Gymraeg
- 35% (25) yn dweud eu bod wedi ystyried addysg neu ofal plant cyfrwng Cymraeg.
- 28% (20) o gyfranogwyr yn dymuno i'w plentyn fynd i ysgol Gymraeg.

- 82% (59) o gyfranogwyr yn dweud y byddent yn anfon eu plentyn i ysgol Gymraeg os oedd o fewn 2 filltir i'w cartref.

Fe wnaeth y Fforwm Addysg Gymraeg leol greu rhaglen digwyddiad ‘Plant Dwyieithog’ a gynhaliwyd o 2017 ymlaen. Nod y rhaglen oedd hyrwyddo a sicrhau fod rhieni’n hollol ymwybodol am addysg cyfrwng Saesneg a hefyd gyfrwng Cymraeg a’r opsiynau gofal plant oedd ar gael iddynt. Mae’r digwyddiadau hefyd yn sefydlu’r rhwystrau y mae rhieni’n tybio sydd ganddynt gyda gofal plant ac addysg cyfrwng Cymraeg. Datblygwyd holiadur ynghyd â dalenni sylwadau a chynhaliwyd dau ddigwyddiad yn Nhredegard/Sirhywi a chwm Ebwy Fawr. Cafodd holiadur ar-lein hefyd ei hyrwyddo gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, Cymraeg i Blant a’r Mudiad Meithrin. Bu’r adborth yn gadarnhaol iawn gyda’r Mudiad Meithrin yn dweud fod Blaenau Gwent yn arwain y ffordd o ran ymgysylltu gyda theuluoedd a rhieni. Mae adborth gan rieni yn dangos y dilynol:

- Gostyngodd gofal plant cyfrwng Cymraeg o fewn ardal Tredegar/Cwm Sirhywi rhwng 2016 a 2017, a ddylanwadodd ar benderfyniad rhieni i ddewis gofal plant cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, mae’r Mudiad Meithrin yn ddiweddar wedi cynyddu’r opsiynau gofal plant sydd ar gael fel y manylir uchod.
- Nid yw cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus yn cefnogi mynediad ac ymgysylltu effeithlon rhwng rhieni a’r ysgol gynradd Gymraeg bresennol – yn neilltuol ar gyfer rhieni o ardaloedd Tredegar/Sirhywi ac Ebwy Fawr nad ydynt yn gyrru. Felly mynegodd rieni bryderon am gyrraedd eu plentyn mewn argyfwng.
- Roedd rhieni yn bryderus am ba mor hir y mae eu plant yn teithio i’r ysgol i Ysgol Gymraeg Bro Helyg o ardaloedd Tredegar/Sirhywi ac Ebwy Fawr, yn neilltuol yn y cyfnod meithrin a sylfaen.
- Roedd rhieni yn bryderus am i’w plentyn/plant fynychu ysgol gynradd Gymraeg tu allan i’r ardal y maent yn byw ynnddi, o ran sut y gallai hyn ddylanwadu’n negyddol ar rwydwaith cymdeithasol a’u cysylltiad gyda ffrindiau/cyfoedion.
- Teimlai rhieni na fedrai’r Gymraeg eu bod angen mwy o wybodaeth ar sut i gefnogi eu plentyn mewn addysg Gymraeg.
- Teimlai rhieni fod lleoliad Ysgol Gymraeg Bro Helyg yn anfantais ac y dylai fod darpariaeth Gymraeg yn nes atynt.

Yn y digwyddiad yn ardal Tredegar/Sirhywi, dangosodd yr holiaduron a lenwyd y ddilynol:

- 70% (19) o ymatebwyr yn teimlo fod ganddynt ddigon o wybodaeth am ddarpariaeth addysgol.
- 67% (18) o ymatebwyr yn teimlo y byddai eu plentyn yn manteisio o fod yn ddwyieithog.
- 59% (16) o ymatebwyr yn dweud y byddent yn ystyried addysg neu ofal plant cyfrwng Cymraeg.
- 92% (25) o ymatebwyr ond yn siarad Saesneg yn y cartref, gyda dim ond 8% (2) yn siarad Cymraeg.
- 74% (20) o ymatebwyr o ardal Tredegar/Sirhywi yn dweud fod eu pellter o gartref yn dylanwadu ar eu dewis o ysgol.
- 67% (18) o ymatebwyr yn dweud fod opsiynau trafnidiaeth a hwylustod mynediad yn dylanwadu ar eu dewis o ysgol.
- 55% (15) o ymatebwyr yn dweud fod adborth ysgolion am eu dewis ysgol yn ffactor bwysig.
- 48% (13) ymatebwyr yn dweud fod eu penderfyniad ar addysg ar gyfer eu plentyn yn digwydd pan maent yn feichiog neu cyn dod yn feichiog


Mae Cyngor Blaenau Gwent wedi sicrhau cyllid cyfalaf sylweddol er mwyn cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae datblygiadau gofal plant yn y Gymraeg hefyd yn cynyddu, fydd yn creu

galw ychwanegol am addysg yn yr hirdymor ac felly bydd angen i'r stad ysgolion ddatblygu er mwyn darparu ar gyfer hyn. Os nad yw Blaenau Gwent yn anelu i dyfu ein hopsiynau addysg Gymraeg, cwmpas cyfyngedig sydd ar gyfer twf a datblygu'r Gymraeg lleol yn unol â nod Llywodraeth Cymru ar gyfer 1 filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Yn olaf, gyda'r ymgyrch genedlaethol i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, cyleoedd cyflogaeth cysylltiedig ac yn y blaen, mae risg y bydd rhieni yn symud allan o'r fwrdeistref i gael mynediad i addysg Gymraeg os nad ydym yn creu datrysiaid lleol cynaliadwy, addas.

Disgrifiad o'r Cynnig a'r Buddion

Y Cynnig

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn cynnig datblygu Ysgol Gynradd Gymraeg newydd 210 lle yn Nhredegar/Cwm Sirhywi. Mae'r cynnig yn anelu i ddatblygu adeilad yr ysgol ar y safle a ffafir yn Chartist Way (gweler islaw) fel model egin/twf, lle byddai'r cyfleuster gofal plant, meithrinfa a dosbarth derbyn yn dod i rym o fis Medi 2023, gyda thua 28 o leoedd gofal plant, 24 lle meithrin a 24 lle dosbarth derbyn. Byddai'r ysgol yn tyfu bob blwyddyn ar ôl hynny. Bydd yr ysgol wedi sefydlu'n llawn erbyn 2029, gyda phob grŵp blwyddyn o'r dosbarth Meithrini Flwyddyn 6 yn weithredol. Cynigir hefyd y bydd gan yr ysgol ddarpariaeth gofal plant ar yr un safle.



Byddai'r ysgol egin newydd yn cael ei chynllunio a'i hadeiladu'n bwrcasol yn unol â safonau Ysgolion yr 21ain Ganrif. Cynigir y byddai llywodraethiant a strwythur arweinyddiaeth yr ysgol yn estyniad o Ysgol Gymraeg Bro Helyg. Byddai hyn yn golygu y byddai un Corff Llywodraethu a

newidiadau i'r strwythur staffio, h.y. creu Pennaeth Campws/Rôl Arweinyddiaeth a fyddai'n sicrhau arweinyddiaeth hirdymor o'r ysgol egin tra'i bod yn tyfu.

Mae 4 elfen greiddiol yn y cynnig fel sy'n dilyn:

- I. Creu Ysgol Gynradd Gymraeg newydd gyda 210 lle yn Nhredegard/Cwm Sirhywi.
- II. Datblygu Ysgol Gynradd Gymraeg newydd fel model egin/twf lle bydd y cyfleuster gofal plant a'r grwpiau meithrin a dosbarth derbyn yn dod i rym ym mis Medi 2023, gyda grwpiau blwyddyn ychwanegol yn agor ar gyfer cynnydd disgylion bob blwyddyn wedyn. Byddai'r ysgol yn gweithredu'n llawn gyda phob grŵp blwyddyn erbyn mis Medi 2029.
- III. Sicrhau lleoliad addas. Yn seiliedig ar adolygiad ac ymchwiliad dechreuol ar safle, yr opsiwn a ffafir yw Chartist Way yn ardal Sirhywi.
- IV. Datblygu strwythur arweinyddiaeth a rheolaeth wedi alinio gyda'r ysgol gynradd bresennol.

Mae cysylltiad anuniongyrchol gyda Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Blaenau Gwent sy'n anelu i:

- Cyfarch twf yn y galw am addysg Gymraeg
- Gostwng nifer lleoedd gwag ac aneffeithlonrwydd y system
- Ehangu ysgolion a cholegau mewn ardaloedd o alw cynyddol
- Cyfarch cyflwr ac addasrwydd ysgolion
- Gwneud asedau addysg ar gael ar gyfer defnydd y gymuned lle mae galw yn bodoli, i optimeiddio seilwaith ac adnoddau ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus.

Mae gan wasanaeth Trawsnewid Addysg y Cyngor hanes amlwg o lwyddiant mewn cyflwyno cynigion cymhleth ar drefniadaeth ysgolion, ynghyd â chyflenwi rhaglen Ysgolion Band A Ysgolion yr 21ain Ganrif, a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2019 pan ddaeth Band B i rym.

Pe na fyddai dim yn newid, ni fydd y Cyngor yn medru diwallu'r galw cudd gan rieni ar gyfer addysg Gymraeg yn ardal Tredegar a Sirhywi.

Model Egin

Beth yw ysgol egin?

Mae ysgol egin yn fodel y gellir ei ddefnyddio wrth sefydlu ysgol newydd i alluogi defnyddio'r cyfleusterau a'r staff yn effeithiol tra bydd yr ysgol y tyfu i'w photensial llawn. Mae'r ysgol yn agor i ddechrau ar gyfer gofal plant, meithrinfa a dosbarth derbyn gyda grŵp blwyddyn wedyn yn cael ei ychwanegu bob blwyddyn academaidd nes bod y cohort derbyn cyntaf yn cyrraedd Blwyddyn 6.

Maint Dosbarthiadau yr Ysgol Gynradd Gymraeg

Yn ystod y flwyddyn gyntaf y byddai'r ysgol egin ar agor, bydd dau ddosbarth prif ffrwd yn weithredol fel sy'n dilyn:

- **Dosbarth meithrin** lle bydd hyd at **24 lle llawn-amser** ar gael
- **Dosbarth derbyn** gydag uchafswm o **24 lle**.

Yn yr ail flwyddyn byddai'r ysgol egin yn cynnwys:

- **Dosbarth meithrin** lle cynigir hyd at **24 lle llawn-amser**;
- **Dosbarth derbyn** gydag uchafswm o **24 lle**;
- Dosbarth **Blwyddyn 1** gydag uchafswm o **24 lle**;

Yn y drydedd flwyddyn, bydd ysgol egin yn cynnwys:

- **Dosbarth meithrin** lle cynigir hyd at **24 lle rhan-amser**;

- **Dosbarth derbyn** gydag uchafswm o **24** lle;
- **Dosbarth Blwyddyn 1** gydag uchafswm o **24** lle;
- **Dosbarth Blwyddyn 2** gydag uchafswm o **24** lle;

Yn y blynnyddoedd dilynol, bydd gan bob grŵp newydd dosbarth derbyn uchafswm o 24 lle. Cyrhaeddir capasiti llawn yr ysgol ym mis Medi 2028 pan fydd pob grŵp blwyddyn yn gweithredu dan drefniant mynediad dau-ddosbarth.

Mae'r tabl islaw yn dangos enghraiftt o'r model egin ar gyfer twf o ysgol mynediad un dosbarth. Ystyrir mai'r model egin yw'r datrysiaid mwyaf addas ar gyfer ysgolion Cymraeg newydd a chafodd ei dreialu a'i brofi ledled Cymru. Er bod y galw yn cynyddu am addysg Gymraeg, gallai agor ysgol newydd Gymraeg ar unwaith i bob grŵp blwyddyn effeithio a dadsefydlogi ysgolion eraill ar draws y Fwrdeistref Sirol. Fodd bynnag, byddai model egin i raddau helaeth yn lliniaru unrhyw effaith posibl.

	M	D	BI 1	BI 2	BI 3	BI 4	BI 5	BI 6
2023/24	24	24						
2024/25	24	24	24					
2025/26	24	24	24	24				
2026/27	24	24	24	24	24			
2027/28	24	24	24	24	24	24		
2028/29	24	24	24	24	24	24	24	
2029/30	30	30	24	24	24	24	24	24
2030/31	30	30	30	24	24	24	24	24

Manteision ac Anfanteision Model Egin

Beth yw manteision ysgol egin?	Beth yw anfanteision ysgol egin?
<ul style="list-style-type: none"> Byddai capasiti'r ysgol yn tyfu wrth i'r galw gynyddu; Twf sefydlog i gefnogi ysgolion presennol; Gostwng y posibilrwydd o symud llawer iawn o ddisgyblion o ysgolion eraill; Rheoli meintiau dosbarthiadau yn effeithlon i gefnogi staffio a chyllideb yr ysgol; a Gall pobl sy'n byw tu allan i ddalgylch yr ysgol ddal wneud cais am le yn yr ysgol a gallant fod yn llwyddiannus. 	<ul style="list-style-type: none"> Mae'n cymryd nifer o flynyddoedd i gyflenwi twf; Goblygiadau posibl ar gyfer brodyr a chwiorydd gyda newidiadau i ddalgylchoedd; a Goblygiadau posibl ar gyfer teuluoedd yn symud i ardal Tredegar gyda phlant gwahanol oed.

Manteision ac anfanteision y cynnig o gymharu â'r sefyllfa bresennol

Bydd y cynnig yn rhoi cyfile cyfartal i ddisgyblion gael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae eisoes ddewis mawr o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg ac ysgolion Ffydd ar gael i deuluoedd o fewn Blaenau Gwent. Byddai'r cynnig hefyd yn cefnogi'r Cyngor i drin y rhwystrau y mae rhieni yn tybio sydd wrth gael mynediad i addysg Gymraeg a chefnogi teuluoedd i gydnabod manteision bod yn ddwyieithog.

Mae buddion disgwyliedig y cynnig o gymharu gyda'r sefyllfa bresennol (gwneud dim) fel sy'n dilyn:

- Cyfle cyfartal a dewis ar gyfer teuluoedd wrth gael mynediad i ac ystyried opsiwn addysg a gofal plant cyfrwng Cymraeg
- Twf y Gymraeg ac addysg Gymraeg, yn unol â gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer un filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
- Buddsoddiad cyfalaф o £6.2 miliwn i stad ysgolion Blaenau Gwent, gan wella cyflwr, addasrwydd a mynediad i opsiynau addysg yn lleol.
- Cynyddu darpariaeth gofal plant ar gyfer teuluoedd.
- Creu datrysiaid lleol a all gyfarch y galw cudd am leoedd cynradd cyfrwng Cymraeg yn ardaloedd Tredegar/Sirhywi a gogledd Ebwy Fawr.
- Parhad a chynaliadwyedd yn nhermau'r opsiynau addysg ar gyfer disgyblion yn symud o osodiadau cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg i addysg statudol.
- Creu cyfleuster addysg arloesol a hyblyg a all gyfrannu at wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Blaenau Gwent a'r rhanbarth.
- Sicrhau amgylchedd dysgu 21ain Ganrif ychwanegol addas i'r diben ar gyfer disgyblion a staff cyfrwng Cymraeg.
- Gostwng maint dosbarthiadau a chodi safonau addysg, gan hwyluso gwell deilliannau ar gyfer disgyblion.
- Creu cyfleoedd i ddisgyblion cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn nes at eu cartrefi.
- Cynyddu nifer y lleoedd cynradd cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn yr ardal leol, gan gefnogi cynaliadwyedd addysg cyfrwng Cymraeg a'r Gymraeg.
- Byddai'r model egin/twf yn sicrhau nad oes fawr o amharu ar y stad ysgolion bresennol ac yn rhoi digon o amser i'r ysgol dyfu.

Anfanteision y cynnig hwn o gymharu â'r sefyllfa bresennol (gwneud dim) yw:

- Amcangyfrifir y gallai fod amrywiad o tua 2-5% o fewn y cyfanswm poblogaeth disgyblion cynradd ar gyfer ysgolion ac yn ei dro ar gyfer ysgolion uwchradd o fewn Tredegar/Cwm Sirhywi yn dibynnu ar y galw. Fodd bynnag, gydag amrywiadau sefydlog a chadarnhaol mewn cyfraddau genedigaeth, mewnfudo a datblygiadau tai disgwyliedig, mae'r amrywiad yn gyfyngedig ac mae'r effaith ar y stad ysgolion yn debyg o fod yn fach iawn.
- Caiff yr ysgol Gymraeg ei datblygu drwy fodel egin/twf, sy'n golygu mai dim ond i'r grwpiau blwyddyn sydd ar gael o'i chychwyn y caiff disgyblion eu derbyn. Felly bydd cyfleoedd trosglwyddo o fewn y flwyddyn yn gyfyngedig nes bydd yr ysgol wedi datblygu yn llawn.

Risgiau a lliniaru

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion y categori, iaith, ystod oedran a manylion perthnasol eraill mewn perthynas â'r ysgol newydd arfaethedig:

Risg	Lliniaru
Dadsefydlogi'r stad ysgolion bresennol	<p>Nod y cynnig yw datblygu'r ysgol drwy fodel egin/twf, lle byddai darpariaeth gofal plant a grwpiau meithrin a dosbarth yn dod i rym o fis Medi 2023, gyda tua 24 lle gofal plant, 24 lle meithrin a 24 lle dosbarth derbyn ar gael. Byddai'r ysgol yn tyfu wedyn flwyddyn ar flwyddyn. Byddai'r ysgol wedi sefydlu'n llawn erbyn 2029 gyda grwpiau pob blwyddyn o'r dosbarth Meithrin i Flwyddyn 6 yn weithredol. Byddai'r model twf yn sicrhau nad oes fawr ddim tarfu o ran nifer disgyblion ac yn galluogi'r ysgol a'r Cyngor i benderfynu ar a rheoli'r galw am leoedd.</p> <p>Cafodd cyfraddau genedigaeth, symud i fyw i Flaenau Gwent, amcanestyniadau disgyblion a datblygiadau tai i gyd eu hystyried yn unol â'r rhif derbyn a chapasiti'r ysgol newydd. Mae'r data yn dweud wrthym fod y</p>

	<p>stad ysgolion bresennol o ran nifer yr ysgolion, lleoedd disgyblion ac yn y blaen yn gynaliadwy yn y tymor canol – hirdymor, gyda chreu ysgol gynradd Gymraeg ychwanegol.</p> <p>Y cynnig yw alinio'r strwythur rheoli a llywodraethiant gydag Ysgol Gymraeg Bro Helyg. Byddai hyn yn sicrhau y caiff staffio, dyrannu lleoedd disgyblion ac yn y blaen ei reoli i sicrhau nad oes fawr ddim tarfu ar yr ysgol gynradd Gymraeg bresennol.</p> <p>Mae disgyblion ar hyn o bryd yn derbyn addysg uwchradd Gymraeg yn Ysgol Gyfun Gwynlliw. Sicrhawyd lleoedd ar gyfer disgyblion Blaenau Gwent tan o leiaf 2029. Mae cynghorau cyfagos, yn cynnwys Blaenau Gwent, yn cydweithio ar hyn o bryd yn unol â'r cynnig i ymestyn yr ystod oedran yn Ysgol Gyfun Gwynlliw i sicrhau lleoedd ysgol cyfrwng Cymraeg i 2019 a thu hwnt.</p>
Nid yw'r broses ymgynghori yn trin safbwyt a dealltwriaeth rhanddeiliaid o'r prosiect. Felly ni chaiff y prosiect ei gefnogi ac nid yw'n mynd rhagddo.	Ysgrifennwyd y ddogfen ymgynghori gyda chrynodeb manwl o sut y bydd y cynnig yn gweithio a pham fod ei angen. Datblygwyd cynllun ymgysylltu i sicrhau ymgysylltu parhaus gyda disgyblion, rhieni, staff, rhanddeiliaid eraill a'r gymuned ehangach, ar hyd y broses ymgynghori.
Caiff y prosiect ei gyflenwi'n hwyr a/neu dros y gyllideb	Mae'r Cyngor yn brofiadol wrth gyflawni prosiectau adeiladu newydd. Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo bydd y Cyngor yn datblygu: amserlen fanwl yn cynnwys cerrig milltir allweddol (sydd eisoes yn hysbys), grŵp prosiect arbennig yn cynnwys yr holl swyddogion perthnasol a phrofffil ariannol manwl. Byddai'r datblygiad a chyflenwi'r prosiect yn cael ei fonitro'n wythnosol gydag adroddiadau i uwch arweinwyr.
Gwrthodir caniatâd cynllunio ac felly ni chaiff safle ei sicrhau	Cynhaliwyd gwerthusiad manwl o safle er mwyn dynodi lleoliadau addas ar gyfer yr ysgol newydd. Dynodwyd y lleoliad mwyaf addas a chynhelir ymchwiliad pellach o'r safle ynghyd â chynllunio. Bu ymgysylltu cynnar gyda Cynllunio a bydd yn parhau yn dilyn yr ymgynghoriad os cymeradwyir y cynnig.
Gwrthwynebiad i'r cynnig, gan olygu na chaiff y cynnig ei gyflenwi	<p>Cafwyd ymgysylltu cadarnhaol eisoes gyda rhanddeiliaid allweddol h.y. yr ysgolion yr effeithir yn uniongyrchol arnynt a'r rhai yr effeithir yn anuniongyrchol arnynt yn ardal Tredegar/Sirhywi. Bydd y broses ymgynghori ffurfiol yn cynnig cyfle i ysgolion, rhieni, disgyblion a'r gymuned yn ehangach i gael gwerthfawrogiad llawn o'r cyfle cadarnhaol y mae'r cynnig hwn yn ei gyflwyno o fewn Blaenau Gwent.</p> <p>Cafodd nifer o opsiynau eu hystyried yn unol â'r cynnig ac mae'r ddogfen hon yn manylu pam fod angen newid a pham mai'r cynnig a gyflwynwyd ar gyfer ymgynghoriad yw'r opsiwn a ffefrir gan y Cyngor.</p>

Cynigion eraill a ystyriwyd ac a wrthodwyd

Ar wahân i'r cynnig a fanylir uchod, cafodd yr opsiynau dilynol eu hystyried yn unol â datblygu darpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg newydd (wedi'u gwahanu yn ôl math o ddarpariaeth, modelau llywodraethiant a safle/lleoliad):

Mathau o ddarpariaeth a ystyriwyd

- Cyd-leoli'r egin ysgol Gymraeg mewn ysgol cyfrwng Saesneg presennol gyda chapasiti mewnol gwag ar gael i ddarparu ar gyfer ysgol egin a neu adeiladu ysgol

- Cyd-leoli'r egin ysgol cyfrwng Cymraeg mewn ysgol cyfrwng Saesneg bresennol gyda digon o gapasiti allanol i ddarparu ar gyfer yr ysgol egin a neu adeiladu ysgol.

Cafodd yr opsiynau uchod eu gwrthod gan y gallent o bosibl:

- Amharu ar y stad ysgolion bresennol h.y. datblygu ysgol egin ar safle byw, gan effeithio ar gapasiti a rhifau derbyn ysgolion.
- Peidio bod yn gynaliadwy wrth i'r ddarpariaeth dyfu.
- Cael effaith negyddol ar drochi o safbwyt y Gymraeg, gan y byddai opsiynau cyd-leoli yn yr ardal lle mae tystiolaeth o alw cudd ar safleoedd ysgol cyfrwng Saesneg presennol h.y. y Saesneg fyddai'r 'norm' amser chwarae a rhwng sesiynau ysgol
- Golygu costau adeiladu cyfalaf uwch yn yr hirdymor, gan y byddai angen dyblu'r gwaith i ailwampio rhannau mewnol neu allanol ysgol bresennol ac yna o bosib adeiladu ysgol newydd wrth i'r niferoedd/grwpiau blwyddyn dyfu.

Modelau llywodraethiant a ystyriwyd:

- Trin hon fel ysgol newydd gyda phennaeth a chorff llywodraethu newydd, yn amlwg dan adolygiad cyson o'r ystod cyflog wrth i nifer y disgylion gynyddu.
- Trin hon fel ysgol newydd, ond ystyried ffederaleiddio gyda'r ysgol gynradd Gymraeg bresennol.

Gwrthodwyd yr opsiynau uchod gan y gallent o bosibl:

- Gael effaith negyddol ar Ysgol Gymraeg Bro Helyg, gydag aliniad cyfyngedig.
- Cael effaith ariannol negyddol o safbwyt refeniw.

Safleoedd/lleoliadau a gafodd eu hystyried:

Mae Addysg, Cynllunio, Gwasanaethau Technegol a Stadau wedi cynnal gwerthusiad o safleoedd y mae'r Cyngor yn berchen arnynt yn yr ardal er mwyn dynodi safleoedd a allai ddarparu ar gyfer ysgol mynediad un dosbarth yn seiliedig ar ganllawiau Bwletin Adeiladu. Arweiniodd hyn at ddynodi'r safle a ffefrir yn Chartist Way (tudalen 12). Mae'r astudiaeth dichonolrwydd yn dangos sut y gallai'r ysgol ffitio ar libart y llain hon o dir. Mae amlinelliad o'r cynllun ar y dudalen nesaf gan gylchu'r lleoliad arfaethedig. Dylid nodi y gall manylion hyn newid.

Mae'r Cyngor wedi ystyried nifer o safleoedd i ddarparu ar gyfer y datblygiad ac wedi culhau'r chwilio i'r safleoedd dilynol:

- Cae Chwarae Deighton – yr opsiwn a ffefrir leiaf gan y byddai'n tynnu bant o'r ysgol bresennol, mae'n ardal werdd a gallai achosi mwy o dagfeydd traffig.
- Tir ger adeilad Vitec yn Nhredegard - gwrthodwyd yr opsiwn hwn oherwydd bod y tir yn ardal gyda risg uchel o lifogydd a bod y tir hefyd wedi ei ddynodi fel caeau chwarae Ysgol Gyfun Tredegar.

Trefniadau teithio dysgwyr

Mae Polisi'r Cyngor ar Gludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol ac Ôl 16 yn dweud y caiff cludiant am ddim ei ddarparu rhwng y cartref a'r ysgol ar gyfer pob disgybl oedran ysgol statudol sy'n mynchy eu hysgol ddynodedig ac sy'n gymwys dan derfynau pellter y Cyngor. Mae'r terfynau pellter fel sy'n dilyn o fewn Blaenau Gwent:

- Dan 8 oed – yn byw mwy na 1.5 milltir o'r ysgol.
- 8 – 11 oed, yn byw fwy na 2 filltir o'r ysgol.
- 11 – 16 mlwydd oed, yn byw fwy na 2 filltir o'r ysgol..

Darpariaeth cludiant Ôl 16

Polisi presennol Blaenau Gwent yw rhoi grant teithio o £150 i bob disgybl/myfyriwr ôl-16 sy'n gymwys ar sail pellter. Ar gyfer myfyrwyr sy'n mynchy safle campws Coleg Gwent gallant naill ai dderbyn y £150 fel arian neu ei dalu'n uniongyrchol i Goleg Gwent er mwyn rhoi cymhorthdal at docyn tymor. Mae'r tocyn tymor yn galluogi myfyrwyr i deithio'n rhatach i Hafan Dysgu Blaenau Gwent neu unrhyw gampws Coleg arall, gyda'r gost ar hyn o bryd ar £1.00 ar gyfer taith sengl.

Gall myfyrwyr sy'n teithio i'r Uned Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn yr Hafan Dysgu wneud hynny yn rhad ac am ddim drwy ddarparwyd cludiant cymeradwy a gaiff gontact gan y Cyngor. Mae'n rhaid i adran ADY y Cyngor gymeradwyo defnydd cludiant. Mae'r polisi teithio hefyd yn galluogi disgyblion i fynd i addysg ôl-16 mewn naill ai ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg neu ffydd, drwy ganiatáu teithio am ddim ar drafnidiaeth bresennol yn lle'r grant teithio.

Adran 4: Manylion yr Ymgynghoriad

Canlyniad yr Ymgynghoriad a'r Cam Nesaf

Adroddiad yr Ymgynghoriad

Caiff adborth o'r ymgynghoriad ei gasglu, ei ddadansoddi a'i gyflwyno mewn Adroddiad All-dro ymgynghoriad i Bwyllgor Gweithredol y Cyngor ym mis Chwefror 2021. Bydd yr adroddiad ar gael am 2 wythnos ar wefan y Cyngor cyn y gwneir y penderfyniad i symud i gyhoeddi hysbysiad statudol ai peidio. Mae copïau caled ar gael ar gais o'r cyfeiriad e-bost a fanylir uchod.

Hysbysiad Statudol

Os caiff y cynnig hwn ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Gweithredol, bydd y Cyngor wedyn yn mynd allan i hysbysiad statudol ym mis Mawrth 2021. Bydd hyn yn rhedeg am 28 diwrnod, yn ystod y cyfnod hwn gallwch wrthwynebu drwy'r cyfeiriad e-bost a roddir yn y llyfryn ymgynghori. Byddir wedyn yn crynhoi unrhyw faterion a godir gan rai â diddordeb a'i gyflwyno'n ôl i'r Pwyllgor Gweithredol i benderfyniad terfynol gael ei wneud.

Os yw'r cynnig yn symud ymlaen, caiff copi o'r Hysbysiad Statudol ei ddangos ar wefan y Cyngor ac yn Ysgol Gymraeg Bro Helyg. Bydd copïau caled o'r hysbysiad statudol ar gais.


Penderfynu ar y cynnig

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn penderfynu ar y cynnig yn seiliedig ar y gwrthwynebiadau a gesglir ar ôl cyfnod yr Hysbysiad Statudol ym mis Ebrill 2021. Gall hyn arwain at gymeradwyo, gwrrhod neu gymeradwyo'r cynnig gyda diwygiadau.

Hysbysiad am y penderfyniad

Unwaith y cymeradwywyd y penderfyniad, anfonir copi electronig o'r penderfyniad at bawb sydd â diddordeb a'i gyhoeddi ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent o fewn saith diwrnod o'r hysbysiad ym mis Ebrill 2021.

Amserlen y Broses Statudol



Adran 5: Manylion yr ysgolion yr effeithir arnynt

Niferoedd ysgolion ar y gofrestr ac amcanestyniadau disgyblion

Fel y nodwyd yn flaenorol, dim ond un ysgol gynradd Gymraeg sydd ym Mlaenau Gwent a chaiff yr holl ddisgyblion uwchradd eu haddysgu yn Nhorfaen, felly dim ond ar un ysgol ym Mlaenau Gwent y mae'r cynnig yn effeithio'n sylweddol arni sef Ysgol Gymraeg Bro Helyg. Mae gan yr ysgol sgôr cyflwr B a sgôr addasrwydd ac mae yn y categori Melyn. Mae'r ysgol uwchradd y maent yn bwydo iddi yn Nhorfaen. Mae'r tabl islaw'n rhoi manylion pellach am yr ysgolion cynradd ac uwchradd:

Enw a Lieoliad yr Ysgol	Categori	Iaith	Ystod Oed
Ysgol Gymraeg Bro Helyg, Stad Ddiwydiannol Rising Sun, Blaenau, Abertyleri, NP13 3DQ	A gynhelir	Cyfrwng Cymraeg	3-11
Ysgol Gyfun Gwynnllwyd, Heol Folly, Trefddyn Catwg, Pont-y-pŵl NP4 8JD	A gynhelir	Cyfrwng Cymraeg	11-18

Data lleoedd disgyblion ac amcanestyniadau ysgolion cynradd

Capasiti'r ysgol yw 258, ynghyd â chapasiti meithrin o 60. Mae'r niferoedd ar y gofrestr (gwir nifer fel ym mis Medi bob blwyddyn (fel sy'n dilyn)

Tabl 1: Ysgol (capasiti presennol)	Gwir Nifer ar y Gofrestr Medi 2016	Gwir Nifer ar y Gofrestr Medi 2017	Gwir Nifer ar y Gofrestr Medi 2018	Gwir Nifer ar y Gofrestr Medi 2019	Gwir Nifer ar y Gofrestr 2020
Ysgol Gymraeg Bro Helyg (258)	232	225	231	209	215

Mae'r tabl dilynlol yn rhoi amcanestyniadau ar gyfer yr ysgol dros y pum mlynedd nesaf (amcanestyniadau ar gyfer mis Medi bob blwyddyn)

Tabl 2: Capasiti Ysgol	Amcan Medi 2021	Amcan Medi 2022	Amcan Medi 2023	Amcan Medi 2024	Amcan Medi 2025
Ysgol Gymraeg Bro Helyg	266	258	253	259	263
Ysgol egin Cyfrwng Cymraeg	-	-	48	72	94

Data lleoedd disgyblion ac amcanestyniadau ysgol uwchradd

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi ymgynghori ar gynnig i ymestyn ystod oedran Ysgol Gyfun Gwynllwyw i 3-18, gweler y ddolen ddilynol i gael mwy o wybodaeth:

Mae'r nifer ar y gofrestr (gwir fel ym Medi bob blwyddyn) fel sy'n dilyn

Tabl 3: Ysgol (capasiti presennol)	Gwir Nifer ar y Gofrestr Medi 2016	Gwir Nifer ar y Gofrestr Medi 2017	Gwir Nifer ar y Gofrestr Medi 2018	Gwir Nifer ar y Gofrestr Medi 2019	Gwir Nifer ar y Gofrestr Medi 2020
Ysgol Gyfun Gwynllwyw (1107)	939	888	860	819	762

Mae'r tabl dilynol yn rhoi amcanestyniadau ar gyfer yr ysgol dros y pum mlynedd nesaf (amcanestyniadau ar gyfer mis Medi bob blwyddyn).

Tabl 4: Ysgol (capasiti presennol)	Amcan Medi 2021	Amcan Medi 2022	Amcan Medi 2023	Amcan Medi 2024	Amcan Medi 2025
Ysgol Gyfun Gwynllwyw (1107)	778	820	862	875	912

Pe byddai'r cynnig yn cael ei sefydlu, mae hefyd dybiaeth yr effeithid yn uniongyrchol ar Ysgol Gymraeg Bro Helyg, gan y byddai disgyblion sy'n mynd i'r ysgol o ardal Tredegar/Sirhywi ar hyn o bryd yn dewis mynchu'r ysgol ategol yn ardal Tredegar/Sirhywi.

Ysgolion yr effeithir yn uniongyrchol arnynt

Er na effeithir yn uniongyrchol arnynt, gallai fod effaith ar ysgolion cyfrwng Saesneg ac ysgolion ffydd o fewn ardal datblygu'r ysgol (a fanyllir islaw) yn nhermau nifer disgyblion:

Tredegar/ Sirhywi

- Ysgol Gynradd Bryn Bach, Heol Merthyr, Tredegar NP22 3RX
- Ysgol Gynradd Deighton, Stockton Way, Tredegar NP22 3ES
- Ysgol Gynradd Georgetown, Heol Oakfield, Tredegar, NP22 4LP
- Ysgol Gynradd Glanhywi, Coach Bach, Tredegar, NP22 4RW
- Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseff, Ashvale, Dukestown, Tredegar, NP22 4AQ
- Ysgol Gyfun Tredegar, Lôn Stabl, Tredegar, NP22 4BH

Ebw y Fawr (Gogledd)

- Ysgol Gynradd Glyncoed, Badminton Grove, Glynebwy, NP23 5UL
- Ysgol Gynradd Rhos-y-Fedwen, Heol Honeyfield, Rasa, Glynebwy, NP23 5TA
- Ysgol Gynradd Trehelyg, Stryd Brynheulog, Glynebwy, NP23 6NJ
- Ysgol Gynradd yr Holl Seintiau, Heol yr Ysgol, Glynebwy, NP23 6QP

Adran 6: Ystyriaethau eraill

Effaith y cynnig ar y Gymraeg

Byddai'r cynnig hwn yn cynyddu nifer y lleoedd ysgol cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i ddisgyblion yn yr ardal. Nid yw'r Cyngor yn disgwyl unrhyw effaith negyddol ar y Gymraeg o'r cynnig hwn. Caiff y Gymraeg ei haddysgu mewn ysgolion cyfrwng Saesneg ac ysgolion arbennig yn unol â'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos ac yn adeiladol gyda phartneriaid ar ei Fforwm Addysg Gymraeg.

Mae'r Cyngor yn monitro cyfraddau geni, y nifer o ddisgyblion ychwanegol a all ddod o dai newydd a phatrymau faint o ddisgyblion sydd mewn ysgolion cyfrwng Saesneg/Cymraeg. Mae hyn yn galluogi'r Cyngor i gyflwyno cynlluniau addas i ymdopi gydag unrhyw gynnydd mewn galw. Bydd hyn ar amser priodol i sicrhau fod digon o leoedd ar gael.

Mae Adran 84 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i bob Cyngor baratoi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP). Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-20 Blaenau Gwent (gweler y **ddolen islaw** i gael mwy o wybodaeth) wedi alinio'n uniongyrchol â fframweithiau strategol Llywodraeth Cymru a hefyd y Cyngor. Gellir crynhoi'r blaenoriaethau strategol a amlygir yn y drafft ddogfen WESP am y tair blynedd nesaf fel sy'n dilyn:

- Codi proffil a lefelau cyfranogiad addysg Gymraeg ar draws y Fwrdeistref Sirol erbyn 2020, i gyfrannu at y weledigaeth o un filiwn o siaradwyr erbyn 2050.
- Cynyddu'r cynnig darpariaeth blynnyddoedd cynnar i ysgogi galw gan rieni i alluogi twf ar draws y Fwrdeistref Sirol.
- Cynyddu cyfraddau trosglwyddo o ddarpariaeth feithrin Gymraeg i Ysgol Gymraeg Bro Helyg erbyn 50% yn 2020.
- Gweithio'n rhanbarthol gydag awdurdodau lleol De Ddwyrain Cymru i sicrhau lleoedd ar gyfer dysgwyr Blaenau Gwent mewn darpariaeth uwchradd Gymraeg rhwng 2017-2020 a thu hwnt.
- Gwella deiliannau dysgwyr cyfrwng Cymraeg erbyn 2020 fel y gall dysgwyr godi eu huchelgais a gwella eu cyfleoedd bywyd.

Mae'r cynnig cyfrwng Cymraeg yn amserol gan fod Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Blaenau Gwent (WESP) 2017-20 ym mis Mawrth 2018 (gweler y ddolen ddilynol i gael mwy o wybodaeth): https://www.blaenau-gwent.gov.uk/fileadmin/documents/Council/Policies_Strategies_Plans/Blaenau_Gwent_WESP_2017-20_Nov_2017_24th_English.pdf). Mae'r cynllun yn annog cynyddu cyfleoedd addysg Gymraeg ar draws y Fwrdeistref Sirol. Bydd y cynnig hefyd yn cefnogi strategaeth Llywodraeth Cymru ar y Gymraeg 2050: <https://gov.wales/docs/dcells/publications/170711-welsh-language-strategy-eng.pdf>

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu diwygio'r cwricwlwm, gan fuddsoddi'n sylweddol mewn datblygiadau yn ymwneud â'r Gymraeg a allai weld dileu Cymraeg ail iaith fel pwnc, gyda phob disgybl yng Nghymru yn astudio Cymraeg iaith gyntaf.

Cyllid

Mae Blaenau Gwent wedi sicrhau £6.2 miliwn o gyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg gyda 210 lle yn cynnwys darpariaeth feithrin a gofal plant drwy fodel egin/twf.

Fodd bynnag bydd costau refeniw yn gysylltiedig gyda'r cynnig hwn. Cafodd y ffigur islaw ei gyfrif yn seiliedig ar arwynebedd mewnol crynswth yr ysgol arfaethedig, uchafswm amcanestyniad

poblogaeth disgylion o 48 yn ei blwyddyn gyntaf. Amcangyfrifir y bydd gwariant refeniw o tua £232,000 yn 2023/24 (yn cynnwys cynnal a chadw adeilad, gwasanaeth gofalwr, glanhau, cynnal a chadw tiroedd, ynni ac ardroethi ac yn y blaen) ynghyd ag arweinyddiaeth a gweinyddu. Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar sylfaen prisiau 2020/21. Byddai'r costau yn cael eu hariannu o'r Gyllideb Ysgolion Unigol.

Caiff costau cludiant eu hariannu drwy gyllideb Cludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol y Cyngor. Rhagwelir na fyddai costau cludiant yn cynyddu'n sylweddol, gyda gostyngiad mewn costau cludiant i Ysgol Gymraeg Bro Helyg yn gwrthbwysu unrhyw gostau ychwanegol a gaiff eu creu drwy ddatblygu'r ysgol newydd. Mae'n debygol y bydd effaith ariannol gadarnhaol ar Gludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol a byddai angen cynnal asessiad er mwyn meintioli'r buddion gostyngiad cost tebygol pe gweithredid y cynnig.

Trefniadau derbyn

Os yw'r cynnig yn mynd rhagddo, Cyngor Blaenau Gwent fydd yn gweithredu fel Awdurdod Derbyn ar gyfer yr ysgol newydd. Bwriedir i'r ysgol newydd gael 210 o leoedd ysgol gynradd ynghyd â darpariaeth feithrin ar gyfer 24 lle llawn-amser (cyfwerth â 48 rhan-amser). Cynigir y bydd yr ysgol yn dechrau fel "ysgol egin" gyda'r myfyrwyr yn cael eu derbyn i ddechrau i'r dosbarthiadau derbyn a meithrin a fydd yn gwneud cais fel rhan o'r cylch derbyn arferol. Bydd gan y grŵp nifer derbyn o 24 ar gyfer pob grŵp blwyddyn a all dyfu wrth i'r ysgol dyfu.

Fel yr awdurdod derbyn ni all Cyngor Blaenau Gwent gynnig polisi gwarantu lleoedd yn neilltuol o gofio am ofynion deddfwriaeth y Llywodraeth ar ddosbarthiadau babanod sy'n cyfyngu maint dosbarthiadau Cyfnod Sylfaen i ddim mwy na 30 disgyl ym mhob dosbarth. Er nad yw'n statudol, y maint "targeted" ar gyfer dosbarthiadau Cyfnod Allweddol 2 yw 30 hefyd. Os yw ceisiadau am dderbyn i ysgol yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd meinu prawf a gyhoeddodd y cyngor ar gyfer pan mae mwy o geisiadau nag o leoedd yn weithredol.

Sgrinio'r Effaith ar Gydraddoldeb

Cynhaliwyd asesiad manwl o'r effaith ar Gydraddoldeb er mwyn asesu effaith y cynnig a phenderfyniadau ar y nodweddion gwarchodedig. Rhoddir crynodeb o'r effaith o fewn yr asesiad o sgrinio ar Gydraddoldeb sydd ar gael yn **Atodiad 1**.

Asesiadau Effaith ar y Gymuned a'r Gymraeg

Cynhaliwyd asesiad o'r effaith ar y gymuned er mwyn asesu effaith y cynnig ar randdeiliaid a'r gymuned ehangach. Gweler **Atodiad 2** ar gyfer y crynodeb.

Mae'r cynnig yn ymwneud â datblygu darpariaeth addysg a gofal plant cyfrwng Cymraeg ychwanegol; felly disgwyli'r y bydd yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg, mynediad i a darpariaeth addysg a gofal plant cyfrwng Cymraeg, ynghyd â chyfleoedd ymgysylltu â rhieni a'r gymuned.

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC):

Yn ei holl gyfrifoldebau corfforaethol mae'r Cyngor yn sicrhau y bydd bob amser yn ymgysylltu mewn modd cadarnhaol gyda phlant a phobl ifanc. Os gweithredir y cynnig hwn, cedwir saith nod greiddiol y Confensiwn:

Gan gyfeirio'n neilltuol at:

- **Erthygl 28** Mae gennych hawl i addysg.
- **Erthygl 29** Mae gennych hawl i addysg sy'n ceisio datblygu eich personoliaeth a'ch galluoedd i'r graddau mwyaf posibl ac sy'n eich annog i barchu hawliau a gwerthoedd pobl eraill ac i barchu'r amgylchedd.

Ymgysylltu â phlant a phobl ifanc yn yr Ymgynghoriad

Fel rhan o'r broses ymgynghori, bydd y tîm Trawsnewid Addysg mewn partneriaeth gydag ysgolion, y tîm Cynhwysiant a'r Gwasanaeth Ieuenciad yn ymgynghori gyda disgyblion y mae'r cynnig yn effeithio arnynt yn ogystal â gyda Fforwm Ieuenciad ac Uwch Gyngor Ysgolion Blaenau Gwent.

Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion

Mae Cyngor Blaenau Gwent yn ystyried yn gyson ddigonolrwydd lleoedd i ateb y galw lleol ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Lleoedd gwag/materion capasiti

Mae gan Ysgol Gymraeg Bro Helyg gapasiti ar gyfer 215 disgybl. I ateb y galw cyfredol a'r dyfodol mae angen cynyddu capasiti ar gyfer cynllun tymor canol i hirdymor y Cyngor. Os yw'r cynnig i adeiladu ysgol gynradd Gymraeg newydd yn symud ymlaen bydd hyn yn galluogi cynnig mwy o leoedd yn Ysgol Gymraeg Bro Helyg yn unol â datblygu'r cyfleusterau gofal plant a gynigir.

Yn y tymor byr cymharol ychydig o effaith fydd ar ddarpariaeth gynradd (mae tybiaeth y bydd tua 3 plentyn o bob un o ddalgylchoedd yr ysgol yn gwneud cais am fynychu) yn ardaloedd Tredegar/Sirhywi a gogledd Ebwy Fawr. Fodd bynnag, yn y tymor hir gyda'r nifer yn cynyddu flwyddyn ar flwyddyn i fynychu'r ddarpariaeth egin cyfrwng Cymraeg, bydd effaith yn seiliedig ar brosiectau cyfredol.

Tybir mai ar Ysgol Gyfun Tredegar fyddai'r effaith mwyaf os yw 24 disgybl yn dewis addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg fel canlyniad i fynychu'r ysgol egin cyfrwng Cymraeg.

Costau cyfalaf/derbyniadau cyfalaf

Caiff amcangyfrif costau cyfalaf y prosiect eu hariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru ac maent tua £6.2m. Ni ddisgwylir bod unrhyw dderbyniadau cyfalaf yn gysylltiedig gyda'r cynllun, byddai'r cyngor yn ildio derbyniad cyfalaf yng nghyswilt y tir y bydd yn ei ddefnyddio ar gyfer yr adeilad.

Datblygiadau tai

Ar gyfartaledd, yn y 5 mlynedd ddiwethaf, cafodd 90 tŷ eu hadeiladu ym Mlaenau Gwent bob blwyddyn. Disgwylir y bydd y lefel yma o dwf yn parhau. Mae gan y darpar gartrefi hyn naill ai ganiatâd cynllunio yn barod, maent yn ceisio cytundeb cyfreithiol neu maent wedi eu cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol Bydd mwy o blant yn byw mewn tai newydd yn ogystal â mwy o blant yn byw mewn tai sydd eisoes yn bodoli. Felly bydd lleoedd ysgol ychwanegol yn gyffredinol mewn

cynlluniau presennol yn tyfu. Mae **Ffigur 2** yn dangos y nifer o ddatblygiadau tai sydd yn y Cynllun Datblygu Lleol ar hyn o bryd.

	Dynodir y ffigurau dilynol ar gyfer Cwm Tredegar yn yr Astudiaeth Argaedd Tir ar gyfer Tai sy'n edrych ar amserlen 5 mlynedd.					Dynodir y ffigurau dilynol ar gyfer Cwm Ebwy Fawr yn yr Astudiaeth Argaedd Tir ar gyfer Tai sy'n edrych ar amserlen 5 mlynedd.					Dynodir y ffigurau dilynol ar gyfer Cwm Ebwy Fach yn yr Astudiaeth Argaedd Tir ar gyfer Tai sy'n edrych ar amserlen 5 mlynedd.				
	2020	2021	2022	2023	2024	2020	2021	2022	2023	2024	2020	2021	2022	2023	2024
Cymdeithasau Tai:	23	18	0	0		13	13	33	0		0	16	20	0	0
Tai Sector Preifat	8	7	6	6		34	104	92	32		3	53	40	17	12
Cyfanswm	31	25	6	6		47	117	125	32		3	69	60	17	12

I gael mwy o wybodaeth edrychwch ar y dudalen ddilynol ar wefan Blaenau Gwent:

<https://www.blaenau-gwent.gov.uk/en/resident/planning/local-development-plan/ldp-allocations/>

Dengys y data uchod fod 472 o dai yn cael eu cynllunio rhwng 2020 – 2024 gan ddangos neu gynllunio cynnydd yn nifer y disgylion ym mhob grŵp blwyddyn mewn tai presennol. Fodd bynnag, byddai darpariaeth ar gyfer y boblogaeth o fewn yr ysgolion cynradd ac uwchradd prif ffrwd presennol heb fawr neu ddim effaith ar yr ysgolion arbennig.

Adnoddau Dynol

Byddai agor darpariaeth newydd yn sicrhau cyfleoedd i gynyddu'r cohort staff ac yn rhoi cyfleoedd ar gyfer staff sy'n siarad Cymraeg. Mae cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer staff i gael hyfforddiant yn y Gymraeg drwy wahanol lwybrau. Os cytunir ar y cynnig, sefydlir grŵp i edrych ar y gofynion staffio a'r model llywodraethiant yn fwy manwl.

Partneriaethau

Mae rhaglen ymgysylltu 'Y Blaenau Gwent a Garem' yn ymwneud â phobl leol, busnesau a sefydliadau yn cael llais yn sut y gallwn wella Blaenau Gwent ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Yn ei flwyddyn gyntaf mae'r grŵp eisoes wedi cysylltu gyda dros 1,500 o bobl o bob rhan o Flaenau Gwent i ganfod sut hoffent i'r ardal fod yn y dyfodol. Defnyddiwyd eu hadborth i'n helpu i lunio nifer o flaenoriaethau y byddwn yn gweithio arnynt dros yr ychydig flynyddoedd nesaf i'n helpu i greu'r Blaenau Gwent a garem i gyd.

Mae ein Cynllun Llesiant yn amlinellu ein hamcanion ar gyfer gwella llesiant ym Mlaenau Gwent a chyflawni ein dyletswyddau dan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). Datblygwyd y 5 amcan yn y cynllun i adlewyrchu bod Blaenau Gwent eisiau

- **Y dechrau gorau mewn bywyd i bawb**
- **Cymunedau diogel a chyfeillgar**
- **Gofalu am a diogelu'r amgylchedd naturiol**
- **Llunio llwybrau newydd i ffyniant**
- **Annog ffyrdd iach o fyw**

Mae'r amcanion llesiant hyn yn rhai a ystyriwn y gallent yn wir sicrhau newid, y mae mwyaf o frys amdanyst ac y dengys y dystiolaeth eu bod angen grym cyfunol partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gyflenwi a gwella llesiant.

Adran 7: Gwerthuso'r Trefniadau Presennol

Canlyniadau diweddaraf Estyn

Caiff ysgolion eu harolygu fel rhan o raglen genedlaethol. Diben arolwg yw dynodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion fel y gallant wella ansawdd yr addysg a gynigir a chodi'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion (Estyn).

Cynhaliwyd arolwg diweddaraf Estyn yn Ysgol Gymraeg Bro Helyg yn 2020, a dangosir y canlyniadau yn y tabl islaw:

Maes arolygu	Dyfarniad
Safonau	Da
Llesiant ac agweddau at ddysgu	Da
Profiadau addysgu a dysgu	Digonol ac angen gwella
Gofal, cymorth ac arweiniad	Da
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Da

Os caiff ysgol ddyfarniad digonol neu anfoddhaol, bydd Estyn neu'r awdurdod lleol yn ei monitro nes y bernir fod yr ysgol wedi gwneud cynnydd digonol i gael ei thynnu o'r rhestr o ysgolion sydd angen gwelliant. Drwyddi draw, mae'r asesiad hwn yn ganlyniad da ar gyfer yr ysgol gyda dim ond 4 argymhelliaid am welliannau:

- **A1** Sicrhau bod yr addysgu a'r profiadau dysgu yn datblygu annibyniaeth holl ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn gyson
- **A2** Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau TGCh disgyblion ar draws yr ysgol
- **A3** Cryfhau gweithdrefnau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant er mwyn blaenorriaethu a mynd i'r afael â'r meysydd pwysicaf

Rhoddir detholiad o sylwadau o'r arolwg diweddaraf islaw:

- Ychydig iawn ohonynt sy'n medru siarad Cymraeg cyn cychwyn. Fodd bynnag, mae rhan fwyaf y disgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig, yn gwneud cynnydd cadarn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.
- Mae'r berthynas waith sy'n bodoli rhwng y disgyblion a'r staff yn gadarn yn yr ysgol ac yn sylfaen effeithiol ar gyfer cynnal ethos gofalgar a chefnogol. Mae bron bob disgybl yn siarad gyda balchder am eu hysgol.
- Mae'r disgyblion yn chwarae'r rôl flaenllaw yng ngwaith strategol yr ysgol. Mae aelodau'r ystod eang o bwylgorau plant yn cael dylanwad pwrpasol ar wahanol agweddau o'r ysgol.
- Mae arweinwyr wedi sefydlu diwylliant cryf o hunanwerthuso parhaus.

Ansawdd a safonau mewn Addysg

Caiff ansawdd a safonau ysgolion Blaenau Gwent eu monitro gan y Cyngor, yn unol â'r system genedlaethol o gategoreiddio ysgolion a chanllawiau yng nghyswilt ysgolion sy'n achosi consynn. Estyn yw Swyddfa Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru a chafodd ei sefydlu dan Ddeddf Addysg 1992. Caiff safonau ac ansawdd darpariaeth hefyd eu monitro'n gyfnodol drwy Fframwaith Arolygu Estyn ar gyfer arolygu ysgolion.

Ers 2012, mae'r Cyngor wedi comisiynu'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS) i gefnogi gwella ysgolion Blaenau Gwent. Mae EAS yn darparu cymorth gwella ysgolion i'r cynghorau dilynol: Blaenau Gwent, Caerffili, Casnewydd, Sir Fynwy a Thorfaen. Fel rhan o'r cynnig hwn bydd y Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth gyda EAS i sicrhau lefelau uwch o gymorth i'r ysgolion. Bydd hyn yn sicrhau fod cefnogaeth briodol yn ei lle yn ystod y cyfnod pontio.

Safonau: Ni fydd y cynnig yn effeithio ar y safonau yn yr ysgol Gymraeg yr effeithir arnynt. Bydd adeilad yr ysgol gynradd Gymraeg newydd yn derbyn y lefel briodol o her a chefnogaeth yn unol â'r trefniadau yn Ysgol Gymraeg Bro Helyg.

Llesiant ac agweddu at ddysgu: Disgwylir y bydd darparu lleoedd ychwanegol i ddisgyblion yn yr ysgol gynradd egin Gymraeg a gynigir yn galluogi mwy o blant i fynychu'r ysgol yn eu gymuned leol. Bydd creu ysgol gynradd Gymraeg newydd yn cynyddu dewis rhieni ac yn darparu addysg Gymraeg yn nes adref ar gyfer plant sy'n byw yn Nhredegar a chymoedd Sirhywi ac Ebwy Fawr (Gogledd). Mae llesiant disgyblion yn flaenorriaeth ar gyfer Ysgol Gymraeg Bro Helyg a chaiff hynny ei fonitro a'i adrodd. Ni fydd y cynnig yn effeithio ar lesiant ac agweddu at ddysgu yn yr ysgolion eraill yr effeithir arnynt.

Addysgu a phrofiadau dysgu: Bydd yr addysgu yn yr ysgol gynradd Gymraeg newydd yn dilyn y cwricwlwm cenedlaethol gyda'r Gymraeg yn iaith addysgu a dysgu. Ni fydd y cynnig yn effeithio ar brofiadau addysgu a dysgu yn yr ysgol eraill yr effeithir arni.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Mae Ysgol Gymraeg Bro Helyg yn gymuned ofalgar a chymhwysol sy'n darparu gofal a chymorth ansawdd uchel i bob disgybl, bydd hyn yn parhau yn yr ysgol newydd. Mae'r holl staff yn ymroddedig i ddynodi anghenion disgyblion ar gam cynnar a rhoi cefnogaeth werthfawr iddynt. Caiff adeilad yr ysgol gynradd Gymraeg newydd yn Nhredegar/Cwm Sirhywi ei chefnogi gan Ysgol Gymraeg Bro Helyg, y Cyngor a'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg i ddarparu gofal, cymorth ac arweiniad ansawdd uchel. Ni fydd unrhyw newid mewn gofal, cymorth ac arweiniad yn Ysgol Gymraeg Bro Helyg.

Arweinyddiaeth a rheolaeth: Mae gan bennaeth ac arweinwyr yr ysgol weledigaeth glir a chadarn i ddatblygu'r ysgol fel gymuned ddysgu lwyddiannus drwy ddarparu addysg a gofal ansawdd uchel i bob disgybl, bydd hyn yn parhau yn y gosodiad ysgol newydd. Mae'r weledigaeth hon wedi'i seilio'n gadarn ar godi safonau, datblygu balchder at y Gymraeg, a llesiant disgyblion. Mae tîm arweinyddiaeth effeithlon i gefnogi'r gwaith o osod cyfeiriad strategol penderfynol ar gyfer holl waith yr ysgol. Ni fydd unrhyw newid yn sut y bydd ansawdd ac effeithlonwydd arweinwyr a rheolwyr yn perfformio. Ar safle'r ysgol egin Gymraeg arfaethedig, bydd tîm arweinyddiaeth yr ysgol yn derbyn cymorth ac arweiniad gan y Cyngor a'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg i sicrhau bod arfer gorau mewn arweinyddiaeth a rheoli yn parhau ac yn cael eu defnyddio.

Effaith y cynnig

Os caiff y cynnig ei gymeradwyo, caiff yr effaith ar Ysgol Gymraeg Bro Helyg ei liniaru i raddau helaeth gan y bwriedir sefydlu model rhannu llywodraethiant ar draws y ddwy ysgol. Bydd yn

parhau i ddarparu amgylchedd dysgu ansawdd uchel i gefnogi gwell canlyniadau ar gyfer pob dysgwr. Bydd y cynnig yn sicrhau y caiff y safonau, sydd eisoes yn rhagorol, eu trosglwyddo a'u datblygu ymhellach.

Fel y soniwyd yn flaenorol (Tudalen 13) mae gan dwf yr ysgol y potensial i effeithio ar ddarpariaeth gynradd ac uwchradd gymunedol cyfrwng Saesneg, ynghyd ag ysgolion cynradd ffydd. Bydd yr effaith mwyaf ar ysgolion cynradd yn 2029/30, gyda'r golled fwyaf o nifer disgylion – os yn llwyr o fewn y boblogaeth disgylion bresennol/disgwylledig byddai hyn tua 24-30 disgyl ar draws yr ysgolion cynradd a fanylir ar dudalen 20. Mae hefyd effaith bosibl ar gyfer darpariaeth uwchradd o hyd ymlaen, gyda'r un uchafswm lefel o golled.

Adran 8: Trosolwg o'r Cynnig am Ysgol Newydd

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion y categori, iaith ac ystod oedran a manylion perthnasol eraill mewn perthynas â'r ysgol newydd arfaethedig:

Trosolwg o'r Cynnig am Ysgol Newydd	
Nifer derbyn a threfniadau	Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn gweithredu fel yr awdurdod derbyn ar gyfer derbyn disgylion i'r ysgol newydd. Y niferoedd derbyn o 2023 fydd: <ul style="list-style-type: none"> • Meithrin:24 • Dosbarth Derbyn:24 Caiff derbyn ei reoli yn unol â Pholisi Derbyn Ysgolion Blaenau Gwent ar gyfer Addysg Feithrin ac Addysg Statudol (2022/23).
Ystod oedran	3-11 oed (gyda darpariaeth gofal plant ychwanegol)
Capasiti'r ysgol newydd	Darpariaeth egin Tredegar 210 lle
Lleoliad	Opsiwn a ffefrir: Chartist Way, Sirhywi, Tredegar.
Categori ac iaith yr ysgol	Ysgol Gynradd Gymraeg a gynhelir
Rhestr adeiladau ac ystafelloedd	Caiff rhestr fanwl o'r holl adeiladau ac ystafelloedd eu penderfynu yn dilyn yr ymgynghoriad. Fodd bynnag, bydd y cyfleuster yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • Meithrinfa ac ystafelloedd hylendid cysylltiedig ac ystafell tawelu • 5 ystafell ddosbarth safonol Cyfnod Sylfaen • 2 ystafell ddosbarth Cyfnod Allweddol 2 • Gofodau addysgu hyblyg • Neuadd fwyta/gwasanaethau a chegin/man arlwyo • Swyddfeydd y penneth a gweinyddol • Ystafell staff • Strydoedd addysgu • Ystafell dawelu • Ardaloedd chwarae/dysgu dan orchudd • Maes chwarae ac ardal gymdeithasol feddal (glaswellt) • Darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg yn yr un lleoliad

Trefniadau a pholisi cludiant	Caiff cludiant ei gyflwyno yn unol â Pholisi Trafnidiaeth Rhwng y Cartref a'r Ysgol ac Ôl 16 2019 Blaenau Gwent. Gweler Adran 1 i gael mwy o wybodaeth.
Categori ysgol (2019)	Dim yn berthnasol
Canlyniadau Arolwg Estyn	https://www.estyn.gov.wales/provider/6772307 Chwefror 2020
Categori Cyflwr Adeilad	A
Categori Addasrwydd Adeilad	A

Dalgylch ysgol

Bydd Ysgol Gymraeg Bro Helyg a'r ysgol egin a gynigir yn dal i wasanaethu Blaenau Gwent i gyd, gyda ffocws yr ysgol egin ar ddisgyblion o ardal Tredegar, Sirhywi a gogledd Ebwy Fawr.

Trefniadau trosglwyddo

Ni fydd unrhyw newid ar gyfer disgyblion sydd eisoes yn mynchyu Ysgol Gymraeg Bro Helyg. Bydd y cynnig yn effeithio ar ddisgyblon sy'n gwneud cais am le ysgol yn sesiwn academaidd 2023/24. Bydd y Cyngor yn gweithio gydag Ysgol Gymraeg Bro Helyg a phartneriaid Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant i sicrhau fod prosesau cynllunio a throsglwyddo effeithlon yn eu lle.

Adran 9: Ffurflen Ymgynghori

Holiadur Ymgynghori

Rhowch eich sylwadau os gwelwch yn dda ar y cynnig i sefydlu Ysgol Gynradd Gymraeg newydd yn ardal Tredegar/Cwm Sirhywi drwy fodel Egin/Twf. <https://wh1.surveystats.com/s.asp?k=160804432322>

Gallech hefyd ddymuno nodi pa un o'r dilynol sy'n adlewyrchu eich barn:

Rwy'n cefnogi'r cynnig yn llawn	
Rwy'n cefnogi peth o'r cynnig	
Nid wyf yn cefnogi'r cynnig	

Eich sylwadau:

Enw:

Dyddiad: _____

E-bost: _____

Cyfeiriad: _____ Cod Post: _____

Nodwch os gwelwch yn dda os ydych yn:

Cynradd: Athro neu Athrawes/Staff Ysgol heb fod yn Addysgu / Llywodraethwr / Rhiant / Disgybl /Preswylydd Lleol / Arall (noder) _____

Uwchradd: Athro neu Athrawes/Staff Ysgol heb fod yn Addysgu / Llywodraethwr / Rhiant / Disgybl /Preswylydd Lleol / Arall (noder) _____

Diolch am eich amser a'ch cyfraniad at yr ymgynghoriad. Caiff eich barn, sylwadau ac ymatebion eu cofnodi a'u hadrodd i Bwyllgor Gweithredol y Cyngor yn yr Adroddiad Canlyniad Ymgynghoriad.

Datodwch y ffurflen hon a'i dychwelyd drwy anfon E-bost: 21stcenturyschools@blaenau-gwent.gov.uk

Rhaid derbyn pob sylwadau erbyn 5:00pm ddydd Gwener 29 Ionawr 2021 fan bellaf

Atodiad 1 – Sgrinio yr Effaith ar Gydraddoldeb



Ffurflen Sgrinio



Gwybodaeth Gyswilt Maes Gwasanaeth: (Llenwch bob maes os gwelwch yn dda)			
Enw'r Person a Lenwodd y Ffurflen:	Adran/Maes Gwasanaeth:	Rheolwr Gwasanaeth:	Dyddiad:
Sharon Northall	Cyfarwyddiaeth Addysg	Claire Gardner	30/11/2020
Manylion Cyswilt: sharon.northall@blaenau-gwent.gov.uk		Teitl y Polisi Arfaethedig:	N/A
Gwybodaeth Polisi		Sylwadau: Mae'r sgrinio hwn mewn cysylltiad â datblygu Ysgol Gynradd newydd 210 lle yn Nhredegar/Cwm Sirhywi	
Beth yw nodau ac amcanion y polisi: <i>Nid oes unrhyw ddatblygiadau polisi cysylltiedig, foddy bynnag mae'r Cyngor yn ymgynghori ar gynnig i gynyddu darpariaeth Addysg a Gofal Plant cyfrwng Cymraeg o fewn y fwrdeistref.</i>			

Asesiad Effaith y Polisi/Ymarfer ar Nodweddion Gwarchodedig

Nodwedd Gwarchodedig	Effaith Gadarnhaol	Effaith Negyddol	Effaith Niwtral	Rhowch resymau ac unrhyw liniaru sydd ei angen
Oed (plant, pobl ifanc, yr henod)	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar bob oed, drwy gynnig mwy o gyfleoedd iddynt gael eu haddysgu, dysgu a chael mynediad i ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg
Anabledd	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Bydd yr ysgol ar gael yn llawn yn unol â safonau Ysgolion yr 21ain Ganrif.
Rhywedd	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	
Priodas a Phartneriaeth Sifil	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	
Beichiogrwydd a Mamolaeth	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	
Hil	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	

Crefydd a Chredo	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	
Rhyw (gwryw/benyw)	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<i>Cliciwch yma i ychwanegu geiriad</i>
Cyfeiriadedd Rhywiol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<i>Cliciwch yma i ychwanegu geiriad</i>

Dangosyddion Ychwanegol o Risg Cydraddoldeb

Nodwch os cedwch fod gan y polisi/ymarfer hwn risg uchel, canolig neu isel fel sy'n dilyn (1 = Dim Effaith; 2 = Effaith Fach; 3 = Effaith Bosibl; 4 = Effaith Tebygol; 5 = Effaith Anghydraddoldeb)

Plant a/neu bobl ifanc hyd at 18 oed	1	Nodwch yma unrhyw ddulliau y bwriedir iddynt liniaru'r risg iau hyn <i>Cliciwch yma i ychwanegu geiriad</i>
Deinameg cymuned benodol	1	Nodwch unrhyw ddulliau y bwriedir iddynt liniaru'r risg iau hyn. Bydd mwy o opsiynau i rieni eu hystyried yn seiliedig ar ysgol eu plentyn: cyfrwng Saesneg, Ffudd a chyfrwng Cymraeg

Cyflawni'r Amcanion Cydraddoldeb

Nodwch islaw os/sut y bydd eich cynnig yn cyfrannu at yr Amcanion Cydraddoldeb.

Amcan 1 – Gwneud cydraddoldeb yn hollbwysig wrth wneud penderfyniadau a darpariaeth gwasanaeth	Bydd <input checked="" type="checkbox"/>	Na <input type="checkbox"/>	
Amcan 2 – Bod yn gyflwynwr cyfartal, gyda gweithlu sy'n ymwybodol o ac yn deall yr agenda cydraddoldeb	Bydd <input checked="" type="checkbox"/>	Na <input type="checkbox"/>	<i>Cliciwch yma i ychwanegu geiriad</i>
Amcan 3 – Gwneud ein gorau i ymgysylltu, diogelu a chefnogi'r bobl hynny yn ein cymuned sydd fwyaf ei angen	Bydd <input checked="" type="checkbox"/>	Na <input type="checkbox"/>	<i>Cliciwch yma i ychwanegu geiriad</i>
Amcan 4 – Hyrwyddo dealltwriaeth a derbyniad o amrywiaeth o fewn ein cymunedau	Bydd <input checked="" type="checkbox"/>	Na <input type="checkbox"/>	

Tystiolaeth ac Ymgynghoriad

A ydych wedi cynnal unrhyw weithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu gyda grwpiau gwarchodedig i liniaru unrhyw risg iau o wahaniaeth	Do <input type="checkbox"/>	Na <input type="checkbox"/>	<i>Disgrifiwch y gweithgareddau ymgysylltu a wnaed fel rhan o'r broses Cynhelir ymgynghoriad ffurfiol gyda'r holl randdeiliaid perthnasol er mwyn casglu eu barn.</i>
--	-----------------------------	-----------------------------	---

Nodwch unrhyw dystiolaeth ychwanegol a fedrai ddangos yr ystyriwyd yr anghenion i grwpiau gwarchodedig yng nghyswilt y cynnig neilltuol hwn



Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned a'r Iaith Gymraeg

Cynnig i sefydlu Ysgol Gynradd Gymraeg yn Nhredegar/Cwm Sirhywi

Tachwedd 2020

1. Cyflwyniad

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn cynnal ymgynghoriad ffurfiol ar gynnig i sefydlu ysgol gynradd Gymraeg yn Nhredegar/Cwm Sirhywi. Pe byddai'r Cyngor yn dymuno gweithredu'r cynnig ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad ffurfiol, cynhelir Asesiadau o'r Effaith ar y Gymraeg a'r Gymuned.

2. Cyd-destun cenedlaethol

Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru Tachwedd 2018 (f2) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnal Asesiad Effaith ar y Gymuned ac Asesiad Effaith ar y Gymraeg wrth gynnig newidiadau i drefniadaeth ysgolion. Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn nodi fod angen i awdurdodau lleol ystyried yr effaith y gall y cynigion ei gael ar deuluoedd lleol a'r gymuned leol drwy gynnal asesiad effaith ar y gymuned a'r effaith ar y Gymraeg drwy asesiad effaith iaith, os yw unrhyw ysgol yr effeithir arni yn darparu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

3. Cyd-destun lleol

Mae Blaenau Gwent yn ymroddedig i foderneiddio addysg, gan sicrhau fod plant a phobl ifanc yn derbyn addysg o'r radd flaenaf. Mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod pwysigrwydd cael adeiladau modern ac addas i'r diben sy'n diwallu anghenion addysg fodern. Ym mis Ebrill 2017 cyhoeddodd y Gyfarwyddiaeth Addysg y 'Weledigaeth ar gyfer Addysg' i sicrhau cyflawniad a llesiant rhagorol i bob dysgwyr drwy system partneriaeth hunan-wella dan arweiniad yr ysgolion. Mae'r Cyngor yn anelu cyflenwi pum blaenoriaeth, gyda'r bumed blaenoriaeth yn cyfeirio at wella ansawdd ein stad ysgolion.

Effaith ar y gymuned

Fel rhan o ddatblygu'r ddogfen ymgynghori, mae'r tîm Trawsnewid Addysg wedi cynnal Asesiad Effaith ar y Gymuned a fanylir islaw, wrth ystyried y cynnig i adeiladu ysgol gynradd Gymraeg newydd 210 lle yn Nhredegar/Cwm Sirhywi.

a. Nifer disgyblion yn ardal Tredegar/Cwm Sirhywi

Mae 1,913 disgybl o oedran ysgol statudol yn mynchy ysgolion yn Nhredegar/Cwm Sirhywi, gyda 1,247 ohonynt yn ddisgyblion cynradd a 666 yn ddisgyblion uwchradd. Mae 58% (724) o'r boblogaeth oedran ysgolion cynradd yn mynchy eu hysgol dalgylch, mae'r canran ychydig yn uwch o fewn Ysgol Gyfun Tredegar gyda 94% (622) o'r dalgylch yn mynchy. Mae'r 6% arall (44) o ddisgyblion yn byw tu allan i ardal Tredegar/Cwm Sirhywi.

Gan fod y cynnig yn anelu i ddatblygu'r ysgol drwy fodel egin/twf, cafodd cyfrifiadau eu gwneud yn defnyddio data meithrin, dosbarth derbyn a Blwyddyn 1 presennol.

Data Meithrin

Allan o'r 148 o ddisgyblion oed meithrin, mae 62% (92) o ddisgyblion yn mynchy eu hysgol dalgylch, 32% (48) o ddisgyblion yn mynchy ysgol yn Nhredegar heb fod eu hysgol dalgylch gyda'r 6% arall yn byw y tu allan i ardal Tredegar/Cwm Sirhywi (yn bennaf yng Nglynebwyl a/neu allan o'r fwrdeistref).

Data Dosbarth Derbyn

Allan o'r 166 o ddisgyblion oed dosbarth derbyn, mae 59% (99) o ddisgyblion yn mynchu eu hysgol dalgylch, mae 35% (57) o ddisgyblion yn mynchu ysgol yn Nhredegard nad yw eu hysgol dalgylch gyda'r 6% arall (10) o ddisgyblion yn byw tu allan i ardal Tredegar/Cwm Sirhywi (yn bennaf Glynebwya/neu allan o'r fwrdeistref).

Data Blwyddyn 1

Allan o 176 disgybl Blwyddyn 1 mae 56.5% (101) disgybl yn mynchu eu hysgol dalgylch o fewn Tredegar/Sirhywi. Mae 38% (68) o ddisgyblion yn mynchu ysgol yn Nhredegard nad yw eu hysgol dalgylch ac mae gweddill y disgyblion, 5.5% (7) yn byw tu allan i Dredegard/Cwm Sirhywi (yn bennaf Glynebwya/neu allan o'r fwrdeistref).

b. Pa ysgolion y mae'r cynnig hwn yn debygol o effeithio arnynt?

Cynhalwyd gwerthusiad dechreuo i asesu pa ysgolion cynradd y byddai'r cynnig yn effeithio'n uniongyrchol arnynt a pha rai yr effeithid arnynt yn anuniongyrchol yn ardal Tredegar/Sirhywi a gogledd Ebwy Fawr, pe datblygid y cynnig am ysgol newydd. Mae tybiaeth mai'r ysgolion yr effeithid arnynt fyddai:

Effeithio yn uniongyrchol – gan mai dyma'r unig ysgol gynradd Gymraeg ar hyn o bryd:

Ebwy Fach (Gogledd)

- Ysgol Gymraeg Bro Helyg, Stad Ddiwydiannol Rising Sun, Blaenau NP13 1YL

Effeithio yn anuniongyrchol - gyda symud disgyblion posibl fel canlyniad i ddewis rhieni:

Ysgolion cyfrwng Saesneg a Ffydd yn ardal Tredegar/Cwm Sirhywi

- Ysgol Gynradd Bryn Bach, Heol Merthyr, Tredegar NP22 3RX
- Ysgol Gynradd Deighton, Stockton Way, Tredegar NP22 3ES
- Ysgol Gynradd Georgetown, Heol Oakfield, Tredegar, NP22 4LP
- Ysgol Gynradd Glanhywi, Coach Bach, Tredegar, NP22 4RW
- Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseff, Ashvale, Dukestown, Tredegar, NP22 4AQ

Ebwy Fawr (Gogledd)

- Ysgol Gynradd Glyncoed, Badminton Grove, Glynebwya, NP23 5UL
- Ysgol Gynradd Willowtown, Stryd Brynheulog, Glyn Ebwy NP23 6NJ
- Ysgol Gynradd Gatholig yr Holl Seintiau, Heol-yr-Ysgol, Glynebwya, NP23 6QP

Ysgol Uwchradd Gymraeg

- Ysgol Gyfun Gwynllyw, Heol Folly, Trefddyn Catwg, Pont-y-pŵl, Torfaen, NP4 8JD

Mae ystyriaethau eraill yn cynnwys:

- Disgyblion yn symud i'r ardal o awdurdodau cyfagos sy'n ffinio ar Dredegard/Cwm Sirhywi.
- Disgyblion newydd fel canlyniad i ddatblygiadau tai a throsglwyddo o fewn y flwyddyn.

c. Gwybodaeth am y pellter a'r amser teithio yn gysylltiedig â mynchu ysgol arall o'r un categori ieithyddol

Pe na byddai'r cynnig hwn yn symud ymlaen, ar gyfer rhieni plant y mae addysg Gymraeg yn ddewis cyntaf iddynt, mae'n debyg y byddai'r amser teithio i ddisgyblion ar gludiant rhwng y cartref a'r ysgol yn fwy na 50 munud.

Ar gyfer disgyblion sy'n dymuno cymryd rhan mewn gweithgaredd ar ôl ysgol, mae ystyriaethau cludiant a mynediad ychwanegol i rieni os nad oes gan rhieni fynediad i'w cerbyd eu hunain. Yn yr achos hwn byddai angen i rieni ddefnyddio naill ai drafnidiaeth gyhoeddus a/neu wasanaethau tacsi. Nid oes unrhyw gysylltiad trafnidiaeth gyhoeddus uniongyrchol i Ysgol Gymraeg Bro Helyg drwy naill ai Dredegar na Glynebwyl. Felly, byddai'n rhaid i rieni wneud 3 newid fel sy'n dilyn o Dredegar a 2 o Lynebwyl:

- Tredegar i Lynebwyl
- Glynebwyl i Ffynmawr
- Brynmawr i Nantyglo

Byddai wedyn angen i rieni a disgyblion gerdded am o leiaf 15 munud i gael mynediad diogel i'r ysgol o'r safle bws agosaf. Mae'r ddwy daith yn debyg o gymryd mwy na 1 awr bob ffordd, gydag amserau teithio yn amrywiol ac yn anghyson.

Felly mae'n debyg y byddai mynediad a chymryd rhan mewn gweithgaredd yn yr ysgol tu allan i'r oriau yn anos pe na byddai'r cynnig yn mynd rhagddo. Mae llwybrau cerdded a seiclo o nifer o ardaloedd ledled y fwrdeistref yn gyfyngedig.

Mae'r safle a ffefrir, Chartist Way, ar lwybr bws sy'n bodoli eisoes a byddai'n ei wneud yn fwy hygrych ar gyfer rhieni sy'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

Effaith ar y Gymraeg

Cymraeg fyddai categori iaith yr ysgol gynradd egin a gynigir. Yr unig ysgol gynradd Gymraeg arall ym Mlaenau Gwent yw Ysgol Gymraeg Bro Helyg. Byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg drwy greu darpariaeth gofal plant, addysg a chymunedol ychwanegol.

Ysgol	Gweithgareddau ysgol sy'n rhoi cyfleoedd ychwanegol i ddefnyddio'r Gymraeg yn yr ysgol ac unrhyw ysgol amgen arall	A yw'r ysgol yn darparu cyfleoesterau ar gyfer aelodau'r gymuned i ddysgu'r Gymraeg?
Ysgol Gynradd Gymraeg Bro Helyg	<ul style="list-style-type: none">Ysgol: clybiau ar ôl ysgol ar gyfer disgyblion CA2 ar ddyddiau Mawrth, Mercher ac Iau – Celf, Chwaraeon, Drama, Cerddoriaeth, TGChMae'r Urdd yn cynnal clwb ar ddyddiau Llun – gwahanol weithgareddau.Mae'r Fenter Iaith yn cynnal clwb amser cinio ar ddyddiau Gwener – gwahanol weithgareddau gyda chystadlu yn Eisteddfod yr Urdd, Chwaraeon yr Urdd a mynd â phlant i Ganolfan Llangrannog ddwywaith y flwyddyn.	Mae'r ysgol yn cynnal gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned a sesiynau ar gyfer rhieni, teuluoedd a phreswylwyr y gellid eu hymestyn a'u datblygu

	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r ysgol yn cynnal clybiau cerddoriaeth pop Gymraeg a gwahanol ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru e.e. Diwrnod Cerddoriaeth Gymraeg ym mis Chwefror, Dydd Gŵyl Dewi ym mis Mawrth, Caffi Cymraeg bob tymor pan wahoddir rhieni a'r gymuned i fore coffi. Caiff sesiynau TED hefyd eu cynnal lle mae rhieni newydd yn dysgu caneuon a geirfa Gymraeg fydd yn eu helpu i gefnogi eu plant gyda'r iaith e.e. mae'r ysgol wedi cynnal sesiynau coginio, sesiynau darllen a sesiynau gyda themâu eraill yn ystod y flwyddyn. • Yn ystod y sesiynau Caffi Cymraeg a TED, caiff y dysgu ei arwain gan y Criw Cymraeg (disgyblion sy'n arwain ar y Siarter Iaith) • Mae gan yr ysgol gysylltiadau da gyda dysgwyr Cymraeg Tai Calon a hefyd or saf radio BGfm • Y datblygiad diweddaraf yw bod yr ysgol wedi sefydlu cysylltiadau gyda'r Criw Cymraeg o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg lleol (Ystruth, Coed-y-Garn a Blaen-y-Cwm) sy'n ymweld i gynllunio gweithgareddau tebyg i ddisgo Diwrnod Cerddoriaeth Cymraeg a gweld sut mae ein Caffi Cymraeg yn gweithio. Mae ysgolion eraill tebyg i Ysgol Gynradd Deighton wedi ymweld ar gyfer cefnogaeth a gweithgareddau i wella dysgu'r iaith.. 	<p>ymhellach os yw'r cynnig am yr ysgol yn mynd yn ei flaen.</p> <p>Mae Coleg Gwent yn gweithredu fel asiantaeth partner yn cyflwyno cyrsiau i bobl ifanc ac oedolion. Pe byddai'r cynnig yn symud yn ei flaen, byddai hyn yn rhoi cyfle i gynyddu darpariaeth gymunedol ac ymgysylltu drwy'r Coleg.</p>
--	---	--

d. Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-20 (WESP) a Fforwm Addysg Gymraeg Blaenau Gwent, ei asiant cyflenwi

Mae Blaenau Gwent drwy ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-20 (WESP) ynghyd â Fforwm Addysg Gymraeg Blaenau Gwent yn ymroddedig i ehangu'r ddarpariaeth o addysg Gymraeg ledled y Fwrdeistref Sirol. Byddai'r cynnig hwn yn cynyddu cyfleoedd ar gyfer dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae pob ysgol ym Mlaenau Gwent yn addysgu ac yn hyrwyddo'r Gymraeg. Byddai'r cynnig yn cynyddu cyfleoedd i ddysgu a hybu'r iaith a'r diwylliant Cymraeg o fewn yr ardal.

Appendix 2 Consultees

Ffigur 1 yn rhoi manylion yr ymgynghoreion a gaiff eu targedu yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol.

Ffigur 1: Grwpiau y bydd y Cyngor yn cysylltu â nhw yn ystod y cyfnod ymgynghori	
Plant a phobl ifanc	Gweinidogion Cymru
Rhieni/gofalwyr	Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Staff ysgolion	Gwasanaeth Addysg Consortwm De Ddwyrain Cymru (SEWC)
Cyrrf Llywodraethu Ysgolion	Comisiynydd y Gymraeg
Trigolion lleol	Rhieni Dros Addysg Gymraeg (RHG)
Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol	Undebau Llafur
Partneriaid Anghenion Addysgol Arbennig	Gwasanaethau Gwybodaeth i'r Teulu
Tîm Cynhwysiant yr awdurdod lleol	Dechrau'n Deg
Estyn	Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeidd Dydd
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
Cynghorau Cymuned y mae'r cynnig yn effeithio arnynt	Aelodau'r cyhoedd a phartïon eraill sydd â diddordeb

This page is intentionally left blank

CYFARWYDDIAETH ADDYSG BLAENAU GWENT

Ysgol Gynradd Gymraeg 210 lle yn ardal Tredegar/Sirhywi gyda darpariaeth gofal plant

Dyddiad	Grŵp Ymgylcheddau	Nifer yn bresennol
11.1.21	JCC – Undebau Llafur	7
12.1.21	Clwstwr Prifathrawon Ebwy Fawr	8
12.1.21	Clwstwr Prifathrawon Tredegar	7
12.1.21	Ysgol Gymraeg Bro Helyg Staff	22
18.1.21	Grŵp Craffu	11
19.1.21	Llywodraethwyr Ysgol Gymraeg Bro Helyg	9
20.1.21	Fforwm Cymreg mewn Addysg	5
20.1.21	Cyngor Tref Tredegar	14
	Cyfanswm	83

This page is intentionally left blank

CYFARWYDDIAETH ADDYSG BLAENAU GWENT

Digwyddiadau ymgynghori: Ysgol Gymraeg 210 lle yn ardal Tredegar/Sirhywi gyda darpariaeth gofal plant

Cyfarfod JCC - dydd Mawrth 12 Ionawr 2021 9:30am ar Microsoft Teams

	Cwestiwn	Ateb
1	A fydd yr adeilad newydd yn rhan o lwybr caffael Llywodraeth Cymru?	Mae'r Cyngor yn dilyn trefniadau fframwaith SEWSCAP, gan ei bod yn ddyletswydd gofynnol, mae'r tîm yn gweithio'n agos gydag Adfywio, Gwasanaethau Cymunedol a chontractwyr.
2.	A fydd cyfleoedd ar gyfer staff sy'n wynebu colli swyddi i wneud cais am swyddi yn yr ysgol Gymraeg newydd?	Gwnaed yn hollol glir y bydd y Cyngor yn dilyn egwyddorion cyflogaeth. Byddai staff sy'n canfod eu hunain yn y sefyllfa yma ac sydd â'r set sgiliau perthnasol yn cael cynnig cyfweliad. Cyrff llywodraethu yw'r panel cyfweld.

Cyfarfod Clwstwr Prifathrawon Glynebwys - dydd Mawrth 12 Ionawr 2021 9:30am ar Microsoft Teams

	Cwestiwn	Ateb
1	Mae gan rai ysgolion bryderon am ostyngiad yn nifer disgylion oherwydd y cynnig. Beth sy'n cael ei wneud am hyn?	Mae'r Cyngor yn sylweddoli y bydd y cynnig yn dadleoli rhai dysgwyr yn Nhredegardros gyfnod, caiff hyn ei liniaru drwy'r model egin/twf. Mae'r opsiwn hwn yn golygu gweithredu araf a chyson. Nid oes gan y cyngor unrhyw gynlluniau ar gyfer unrhyw gynigion ad-drefnu ysgolion.
2.	A yw Ysgol Gymraeg Bro Helyg yn llawn? Ar gyfer beth y cafodd ei hadeiladu?	I ddechrau cafodd Ysgol Gymraeg Bro Helyg ei hadeiladu ar gyfer ysgol 360 lle ac mae'r capaciti wedi gostwng dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae nifer disgylion Ysgol Gymraeg Bro Helyg yn awr yn cynyddu'n araf a bydd ganddi broblemau digonolwydd gan olygu y bydd y nifer derbyn yn cynyddu yn y dyfodol. Bu hefyd dwf mewn darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg yn y fwrdeistref sirol. Sefydlwyd cylch Ti a Fi yn Nhredegard eto ac mae cynlluniau i agor Cylch Meithrin newydd.
3.	Bydd adeilad yr ysgol newydd ar gyfer 210 lle, pam lai ei hadeiladu mor fawr ag sydd modd.	Byddai'n flaengar adeiladu ysgol fwy. Fodd bynnag, mae'n ddyletswydd ar y cyngor i sicrhau fod galw digonol am ddarpariaeth mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a hefyd gyfrwng Gymraeg drwy gynllunio lleoedd ysgol.
4.	Fe wnaethoch sôn am yr opsiwn a ffefrir ar gyfer y safle, lle fydd yr ysgol ar y safle?	Y cynllun yw codi'r ysgol tuag at waelod y tir ar y chwith wrth i chi ddod oddi ar Heol Sirhywi.
5.	Pa effaith a gaiff y twf mewn darpariaeth gynradd ar ddarpariaeth uwchradd?	Mae pob awdurdod cyfagos yn edrych ar dyfu eu cyfleoedd cynradd Cymraeg drwy'r Grant Cyfrwng Cymraeg. Mae hyn hefyd yn golygu y bydd hefyd angen cynllunio

<u>Cwestiwn</u>	<u>Ateb</u>
	datrysiaid uwchradd. Mae Grŵp Rhanbarthol Cynllunio Lleoedd Ysgolion yn edrych ar hyn gyda Claire Gardner yn gadeirydd ar gyfer rhanbarth Gwent Fwyaf.

Cyfarfod Clwstwr Prifathrawon Tredegar - dydd Mawrth 12 Ionawr ar Microsoft Teams

<u>Cwestiwn</u>	<u>Ateb</u>
1 A gafodd unrhyw waith ei wneud am y galw am yr ysgol Gymraeg?	<p>Cynhaliwyd arolygon galw rhieni ar draws y Fwrdeistref Sirol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Yn ardal Tredegar yr oedd mwyaf o alw heb ei ddiwallu, oherwydd ystyriaethau daearyddol.</p> <p>Fel rhan o'r Fforwm Cymraeg mewn Addysg, sefydlwyd is-grŵp ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu, gan weithio gyda rhieni i ddeall beth y tybiant yw'r rhwystrau i gael mynediad i addysg Gymraeg, ynghyd â dealltwriaeth o'u dewisiadau ac yn y blaen.</p>
2. A yw'r galw a gafodd ei gyfrif yn ateb y capasiti o'r ysgol ar gyfer 210 o ddisgyblion o Dredegar a Glynebwyr?	<p>O'r arolygon a gynhaliwyd, byddai'r ysgol mewn sefyllfa i edrych ar tua hanner y derbyniad dysgwyr gyda golwg ar i'r ysgol dyfu i gapasiti llawn dros gyfnod. Yn y gorffennol, dangosodd tueddiadau y gall gymryd hyd at 10 mlynedd i ysgolion fod yn llawn. Mae'r tîm wedi gweithio gydag awdurdodau lleol i edrych ar eu modelau twf, sy'n un o'r rhesymau pam y dylent edrych ar fodel egin neu dwf. Yn y lle cyntaf, mae'r Cyngor yn edrych ar roi opsiynau hygrych i rieni ac yn ail i edrych ar roi cefnogaeth gynaliadwy.</p> <p>Cynhelir amcanestyniadau disgyblion o fewn y sector cyfrwng Cymraeg ac maent yn gymharol gywir. Mae'r Cyngor yn edrych ar dwf yn unol â'r galw presennol. A bod yn realistig, ystyriwn mai dim ond tua 10-12 o ddisgyblion fydd yn y dosbarth derbyn a meithrin yn y flwyddyn gyntaf ac nid y 24 llawn.</p> <p>O safbwynt trefniadaeth ysgolion, nid yw'r Cyngor yn edrych ar wneud unrhyw newidiadau i'r stad ysgolion heblaw ychwanegu'r ysgol gynradd a gynigir. Caiff y canlyniad ei benderfynu gan yr ymatebion i'r ymgynghoriad.</p>
3. A fydd problem hygrychedd yn symud i ysgol uwchradd ar ôl gadael yr ysgol gynradd?.	Mae trafodaethau dechreul yn mynd rhagddynt gyda Grŵp Rhanbarthol Cynllunio Lleoedd Ysgol Cymru. Wrth symud ymlaen yn ardal Gwent Fwyaf, gallai fod galw am ddarpariaeth uwchradd ychwanegol. Cynhelir sgyrsiau rhanbarthol, pan fydd mwy o ddarpariaeth ar draws y sector cynradd gan weithio'n agos gyda Sir Fynwy, Merthyr

	<u>Cwestiwn</u>	<u>Ateb</u>
		Tudful a Phowys. Mae cyfraddau pontio ar gyfer Ysgol Gyfun Gwynllwyw rhwng 98% - 100% o gynradd i uwchradd.
4.	A fu unrhyw waith ar gyfraddau genedigaethau posibl yn yr ardal?	Cynhelir dwy set o ragolygon bob blwyddyn. Yn y rhain mae data genedigaethau byw lle gweithiant yn agos gyda'r GIG i olrhain a monitro ar gyfer cynllunio lleoedd disgylion. Defnyddir data tueddiadau hefyd. Edrychir ar oblygiadau cynllunio hefyd, yng nghysyllt datblygiadau tai a chyfraniadau A106. Eir ag adroddiadau i'r Pwyllgor Craffu a'r Pwyllgor Gweithredol, lle maent yn edrych ar boblogaeth disgylion a lleoedd gwag.
5.	A gaiff unrhyw ysgolion eu cau yng nghwm Tredegar? Beth am bryderon am yr effaith ar y niferoedd yn eu hysgolion?	Nid oes unrhyw gynlluniau ar gyfer cynigion ad-drefnu ysgolion yn Nhredegard. Mae ymrwymiad yn y cynnig hwn i weithio gydag ysgolion cyfrwng Saesneg ynghyd â chyfrwng Cymraeg. Nid oes unrhyw agenda cudd i gau ysgolion o safbwyt Cod Trefniadaeth Ysgolion.

Staff Ysgol Gymraeg Bro Helyg Staff – dydd Mawrth 15 Ionawr 2021 ar Microsoft Teams

	<u>Cwestiwn</u>	<u>Ateb</u>
1	A fu unrhyw adborth gan y cyhoedd/rhieni Tredegar am Chartist Way?	Mae'r Fforwm Addysg Gymraeg wedi cynnal ymgynghoriadau helaeth ledled yr awdurdod lleol. Mae hefyd Is-grŵp Cyfathrebu ac Ymgysylltu. Cynhaliwyd rhaglen ymgysylltu fanwl gyda rhieni dros yr ychydig flynyddoedd diweddar. Cynhaliwyd digwyddiadau ledled cwm Ebwy Fawr a Thredegar/Cwm Sirhywi. Roedd y rhieni yr ymgynghorwyd â nhw ar y pryd yn gefnogol iawn. Bu gweithio agos gyda sefydliadau partner fel Mudriad Meithrin i edrych ar eu hymgysylltiad gyda barn rhieni. Hefo, llawer iawn o gefnogaeth drwyddi draw.
2	Pwy sydd mewn gwirionedd yn cael y llais olaf ar y cynnig?	Drwy broses wleidyddol, Pwyllgor Gweithredol yr awdurdod lleol fydd yn gwneud y penderfyniad.

Grŵp Craffu - dydd Llun 18 Ionawr ar Microsoft Teams

	<u>Cwestiwn</u>	<u>Ateb</u>
1	A oes unrhyw arwydd o effaith ar ysgolion lleol?	Cynhaliwyd sesiynau tebyg yr wythnos ddiwethaf gyda chlystyrau Prifathrawon Ebwy Fawr a Thredegar, codwyd rhai cwestiynau am yr effaith ar nifer disgylion ond yr ateb yw mai ychydig iawn o effaith fydd. Nid yw'r Cyngor yn ystyried unrhyw gynnig i ad-drefnu ysgolion ar gyfer Tredegar, ond cydweithio i ddarparu cyfleoedd

Cwestiwn	Ateb
	addysg cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg. Mae'r Cyngor yn ymwybodol am yr effaith ar y stad ysgolion ond bydd y cynnig hwn yn fodel twf graddol yn cyrraedd capaciti llawn mewn 10 mlynedd. Blaenau Gwent yw'r unig awdurdod i gael dim ond un ysgol Gymraeg.
2. A fedrwch ddweud mwy wrthym am yr effaith ar amcangyfrifon arbedion cost cludiant rhwng y cartref i'r ysgol?	Ni fydd hyn yn digwydd ar unwaith ond dros gyfnod, pan fydd yr ysgol yn llenwi, fodd bynnag amcangyfrifir y bydd arbediad o tua £60,000 ar gyfer disgylion ysgol gynradd. Nid yw hyn yn rhoi ystyriaeth i niferoedd ysgol uwchradd, fydd yn cynyddu.
3. Beth oedd y rhesymeg am safle Tredegar? Pam nad yw'r Cyngor yn defnyddio safle Bro Helyg?	Mae rhieni wedi rhoi sylwadau drwy'r arolygon galw a'r sesiynau ymgysylltu a gynhaliwyd bod y ffaith fod Ysgol Gymraeg Bro Helyg mor bell yn eu hatal ac yn rhwystri rhag anfon eu plentyn i ysgol Gymraeg. Cynhaliwyd ymchwil i edrych ar ysgolion dwy ffrwd, trochi mewn awdurdodau lleol eraill. Mae galw am ddarpariaeth yn ardal Tredegar/gogledd Ebwy Fawr. Mae gan y Cyngor dystiolaeth a gyhoeddwyd yn y ddogfen ymgynghori. Mae darpariaeth ar garreg y drws yn hygyrch.
4. Deellir y gallai fod arbedion i gostau cludiant ysgol gynradd ac mewn amser fwy o gostau i Ysgol Gyfun Gwynllyw. Fodd bynnag, pam nad ydych chi'n ystyried gwneud yr un ysgol newydd yn Nhredegard yn un 3-16 oed? Os yw'r rhanbarth yn edrych am safle yn ardal Blaenau'r Cymoedd, defnyddiwch Dredegard.	Claire Gardner yw cadeirydd grŵp rhanbarthol Cynllunio Lleoedd Ysgol Cymru addysg Gymraeg yn ardal Gwent Fwyaf. Mae awdurdodau lleol eraill yn edrych ar ddatblygu darpariaeth uwchradd yn ardal Blaenau'r Cymoedd, a chaiff ei ystyried yn y cynllun tymor canol. Ystyriaeth allweddol ar hyn o bryd yw'r nifer sy'n mynd i ddarpariaeth uwchradd ac ni fyddai nifer y disgylion yn yr ysgol gynradd yn golygu fod angen model twf 3-16. Mae datrysiaid rhanbarthol gydag opsiynau yn cael ei greu i liniaru'r effaith ar lefel uwchradd.
5. Yn ail capaciti o 40% sydd yn Ysgol Gymraeg Bro Helyg, felly pam ein bod ni'n cynyddu'r ddarpariaeth?	Roedd capaciti lleoedd gwag 40% 2 flynedd yn ôl. Mae'r nifer yn Ysgol Gymraeg Bro Helyg yn cynyddu, ac mae'r lleoedd gwag wedi gostwng. Daw mwyafrif disgylion yr ysgol o ardaloedd Ebwy Fach a de Ebwy Fawr. Mae'r nifer o ardal Tredegar ac gogledd Ebwy Fawr wedi gostwng felly ni fydd datblygu'r ysgol newydd yn cynyddu capaciti'r ysgol yn Ysgol Gymraeg Bro Helyg.
6. Mae hefyd bryder am y dalgylch gan fod y safle a gynigir mor agos i Glanhywi a gallai'r ysgol golli disgylion gan gael effaith niweidiol.	Mae pwyt allweddol i gael ei wneud, sef twf addysg Gymraeg yn ardal Tredegar/Sirhywi. Mae dystiolaeth i gefnogi'r twf hwn. Cafodd grŵp Ti a Fi ei sefydlu eisoes ac mae Cylch Meithrin yn cael ei ddatblygu fydd yn cynnal y galw am leoedd ysgol.
7. A ddylai addysg uwchradd fod yn rhan o'r cynnig hwn? A allem weithio'n nes gyda Chaerffili ar gyfer yr ysgol uwchradd ym Margoed?	Mae darpariaeth ysgol uwchradd ar gyfer disgylion cyfrwng Cymraeg yn rhan o drefniant rhanbarthol, bydd mwy o alw am leoedd ysgol uwchradd Cymraeg wrth i awdurdodau lleol gynnig mwy o gyfleoedd cynradd. Cynhelir trafodaethau pellach a chânt eu trafod yn rheolaidd yng nghyfarfodydd Consortwm De Ddwyrain Cymru. Mae cyfraddau pontio o Gynradd i Uwchradd yn parhau rhwng 98% a 100%.

	Cwestiwn	Ateb
8.	Eglurhad ar bwynt: a yw hyn yn golygu y gall pobl o'r tu allan i'r ardal, tebyg i Rhymni, wneud cais am le yn yr ysgol?	Yr ateb syml yw ydi, gallai pobl wneud cais os yw'r safle hwn yn nes na safle eu hysgol gynradd Gymraeg eu hunain.
9.	Pe byddai ysgolion yn colli nifer disgylion, faint fyddai cost hynny?	Byddai'r costau refeniw yn gysylltiedig gyda phob dysgwr tua £2,500 y disgylb.
10.	Pwy sy'n talu'r gwahaniaeth refeniw?	Bu'r goblygiadau refeniw yn rhan o'r ymarferiad modelu ariannol fel rhan o Strategaeth Tymor Canol y Cyngor. Byddai'n rhaid sicrhau hyn drwy'r Gyllideb Ysgol Unigol cyn i'r cynnig ymgynghori ddod i ben. Ni all y Cyngor daro'n gyntaf gyda'r cynnig hwn; os bydd ymlaen bydd yn costio tua £350k pan fydd yr ysgol wedi sefydlu'n llawn, a thua £200k yn y flwyddyn gyntaf a ddilynir gan £150k yn yr ail flwyddyn.
11.	Beth os nad yw Pwyllgor Gweithredol a Thîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol y Cyngor yn derbyn y cynnig a'r goblygiadau ariannol?	Cyn y gallwn wario unrhyw gyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru, mae'n rhaid i ni gael sicrwydd i symud ymlaen gyda'r costau refeniw.
12.	Mae cysylltiadau cryf ym Merthyr Tudful gyda gofal plant a blynnyddoedd cynnar. Beth yw cysylltiadau Blaenau Gwent?	Mae un o'r Cylchoedd Meithrin ar safle Ysgol Gymraeg Bro Helyg ac mae ganddynt berthynas waith agos gyda'r ysgol. Mae grwpiau gofal plant cyfrwng Cymraeg eraill tebyg i'r Mudiad Meithrin a Cymraeg i Blant yn bartneriaid allweddol yn y Fforwm Addysg Gymraeg, ac yn gweithio'n agos gyda'r Cyngor i gefnogi darpariaeth cyfleoedd gofal plant a blynnyddoedd cynnar. Mae cynlluniau i ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg fod ar yr un safle â'r ysgol gynradd newydd 210 lle yn ardal Tredegar ynghyd ag ateb y galw yn ardal Ebwy Fawr. Bydd darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg yno.

Cyfarfod Corff Llywodraethu Ysgol Gymraeg Bro Helyg - dydd Mawrth 19 Ionawr 2021 ar Microsoft Teams

	Cwestiwn	Ateb
1	Pa ardaloedd fyddai Bro Helyg yn eu gwasanaethu? Pa ardal fyddai'r ysgol Gymraeg newydd yn eu gwasanaethu?	Byddai angen ystyried dalgylchoedd. Mae'r rhan fwyaf o boblogaeth disgylion yng nghwm Ebwy Fach, a rhagwelir y byddai hyn yn parhau. Byddai gan yr ysgol ddal gylch fyddai'n cynnwys ardal Tredegar/Sirhywi a gogledd cwm Ebwy Fach. Caiff trefniadau manwl eu trafod gyda'r corff llywodraethu maes o law.

Cwestiwn	Ateb
2. A fyddai athrawon a staff seiliedig mewn ysgol ac yn y blaen yn cael mewnbwn am ddyluniad a gofynion yr ysgol?	Mae gan dîm Ysgolion y 21ain Ganrif hanes o lwyddiant mewn cysylltu â staff ysgolion mewn prosiectau diweddar a bydd yn parhau i hyrwyddo hyn fel arfer da. Sefydlir grwpiau gweithredu prosiect i oruchwyllo datblygiadau. Mae'r rhain yn cynnwys y tîm Trawsnewid Addyssg, Gwasanaethau Cymunedol (pensaerniol, cynrychiolwyr ysgol, cyllid a gwahanol randdeiliaid allweddol eraill).
3. Sut mae hyn yn cyd-fynd ag Addyssg Uwchradd yn y dyfodol?	Mae Grŵp Rhanbarthol Cynllunio Lleoedd Ysgol, dan gadeiryddiaeth Blaenau Gwent, sy'n galluogi awdurdodau cyfagos i ganolbwytio ar y galw am addyssg Gymraeg, datblygiad a hyrwyddiad. Yn unol â thwf addyssg gynradd daw gofyniad a thwf darpariaeth uwchradd. Mae'r Grŵp yn edrych ar draws y rhanbarth fel opsiwn possibl, tebyg i ddatblygu ysgol uwchradd o bosibl o fewn corridor Blaenau'r Cymoedd. Mae hyn yn rhoi ystyriaeth i'r cynnig a gymeradwywyd i Ysgol Gyfun Gwynllyw ddod yn ysgol 3-16 yn golygu y byddai llai o leoedd i ddarparu ar gyfer disgyblion o Flaenau Gwent o 2027 ymlaen. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol y bydd angen darpariaeth uwchradd gyda'r twf mewn darpariaeth gynradd Gymraeg, ac maent wedi dweud y mae'n debyg y bydd ffrwd cyllid ar gael yn y dyfodol ar ffurf grant cyfrwng Cymraeg i edrych ar ddarpariaeth uwchradd.
4. Os oes posibilrwydd cyllid gan Lywodraeth Cymru, a fyddai Blaenau Gwent yn edrych ar gael ysgol uwchradd Gymraeg?	Nid oes digon o alw ym Mlaenau Gwent i gael ei hysgol uwchradd ei hun. Byddai'n rhaid i ni gymryd dull gweithredu rhanbarthol a chydweithiol gyda ardal gogledd Sir Fynwy, ardal de Powys, Torfaen a Merthyr Tudful. Wrth edrych ar ddull gweithredu rhanbarthol, byddai Blaenau Gwent mewn lleoliad da o ran Blaenau'r Cymoedd. Byddai hyn yn dibynnu ar argaeedd tir addas a thrafodaethau gydag awdurdodau eraill.
5. Fe wnaethoch sôn am ddysgwyr newydd ac adleoli dysgwyr. Lle mae hyn yn cysylltu gyda chynlluniau'r Awdurdod ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg?	Yn nhermau adleoli, mae APWU wedi amcangyfrif fod y gost ar gyfer pob disgybl oedran cynradd yn £2,500. Bydd ysgolion yn edrych i ddechrau ar gael llai o effaith yn y camau cynnar os yw disgyblion yn dewis addyssg cyfrwng Cymraeg yn hytrach nag addyssg cyfrwng Saesneg. Drwy ymgysylltu gyda'r ysgolion cyfrwng Saesneg, cafodd ei gwneud yn glir fel rhan o'r ymgynghoriad ei fod i gyd am wneud y gorau ar gyfer eu holl ddisgyblion. Mae'r sylfaen dystiolaeth yn awgrymu y gall gymryd hyd at 10 mlynedd i ysgol gynradd

	Cwestiwn	Ateb
		Gymraeg newydd gyrraedd ei chapasiti llawn drwy'r model twf egin. Nid oes unrhyw fwriad i gau unrhyw ysgolion cyfrwng Saesneg drwy'r rhaglen ad-drefnu ysgolion yn ardal Tredegar/cwm Sirhywi.
6.	Sut fyddai hyn yn effeithio ar drefniadau llywodraethiant ysgolion?	Byddai cydweithio agos gydag Ysgol Gymraeg Bro Helyg a'r ysgol newydd fydd yn rhan o'r ymgynghoriad maes o law. Croesewir barn rhanddeiliaid.

Cyfarfod Cyngor Tref Tredegar - 20 Ionawr 2021 ar Microsoft Teams

	Cwestiwn	Ateb
1	Pa ddeunyddiau gaiff eu defnyddio ar gyfer tu allan yr adeilad?	Fel rhan o'r gofynion cynllunio, bydd deunyddiau/dyluniad yn gydnaws gyda'r ardal o amgylch. Mae'n hanfodol cael deunyddiau cydnerth a all wrthsefyll effeithiau'r tywydd. Bydd Adran Gwasanaethau Cymunedol y Cyngor yn sicrhau y caiff hyn ei ystyried yn y broses ddylunio fanwl.
2.	A ymgynghorwyd ar y cynnig gyda phrifathrawon?	Cynhaliwyd ymgynghoriadau gyda phenaethiaid yng nghlystyrau ysgolion Tredegar ac Ebwy Fawr. Rhoddwyd sicrwydd am yr effaith ar y sector cyfrwng Saesneg o fewn ardal Tredegar. Nid oes gan yr awdurdod lleol unrhyw fwriad i ad-drefnu ysgolion o fewn y sector cyfrwng Saesneg a dim bwriad i gau unrhyw ysgolion. Gall fod rhai disgylion yn symud i'r sector cyfrwng Cymraeg os yw'r cynnig yn mynd rhagddo. Mae'r cynnig yn fodel twf ac yn edrych ar efallai 10-12 disgyl ym mhob grŵp blwyddyn. Mae'n debyg y bydd lefel eithaf sylweddol o ddatblygiadau tai yn yr ychydig flynyddoedd nesaf o fewn dalgylch yr ysgol newydd.
3.	Pwy fydd yn gyfrifol os caiff swyddi aelodau staff eu dileu pan fydd y niferoedd yn gostwng yn yr ysgolion cynradd eraill?	Ni fedrir rhoi sicrwydd os caiff swyddi eu dileu ei peidio, er ei bod yn arferol i ysgolion gael trefniadau dileu swyddi yn seiliedig ar nifer disgylion. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda'r ysgolion i rannu costau dileu swyddi. Maent yn edrych ar fodel twf a fydd mae'n debyg yn cymryd 10/12 mlynedd i'w weithredu'n llawn.
4.	A yw'r safle'n addas ar gyfer ei ddatblygu?	Ymchwiliwyd pob opsiwn safle. Y safle a ffefrir oedd yr opsiwn gorau ar gyfer y cynnig hwn. Cynhaliwyd arolwg topograffeg ac mae rhai cyfyngiadau ond llai nag unrhyw un o'r opsiynau eraill a gyflwynwyd
5.	A oedd y prifathrawon yn tybio a chytuno fod bwlc yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn Blaenau Gwent?	Roedd yr arolygon galw a gynhaliwyd yn derbyn fod galw na chaiff ei ddiwallu yn ardal Tredegar. Y brif ystyriaeth oedd pa effaith a gâi hynny ar y sector cyfrwng Saesneg. Rhoddwyd sicrwydd y byddai'r effaith yn fach ac yn hylaw.

Cwestiwn	Ateb
6. Beth yw'r tueddiad presennol o fewn Blaenau Gwent yng nghyswilt nifer disgyblion ysgol gynradd?	Eir ag adroddiad i'r Pwyllgor Craffu yn flynyddol. Mae amcanestyniadau yn seiliedig ar dueddiad dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf gyda chywirdeb o 99%/100% ac mae'n boblogaeth cymharol sefydlog. Rhagwelir cynnydd pellach yn seiliedig ar ddatblygiadau tai. Maent hefyd wedi gweld cynnydd mewn mewnfudiad yn unol â'r prosesau trosglwyddo o fewn y flwyddyn yn gysylltiedig gyda derbyniadau ysgol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Y llynedd, daeth dros 200 o ddisgyblion i'r Fwrdeistref, felly mae hyn yn effaith cadarnhaol ar y boblogaeth disgyblion o fewn Blaenau Gwent.
7. Beth yw capaciti presennol a faint o leoedd gwag sydd ym Mro Helyg?	Y capaciti presennol ar gyfer Ysgol Gymraeg Bro Helyg yw 267 o ddysgwyr ar gyfer yr ysgol lawn. Nid oes lefel sylweddol o leoedd gwag ac mae'r galw am leoedd yn cynyddu. Daw mwyafrif helaeth disgyblion Bro Helyg o gwm Ebwy Fach. Mae'r pellter a'r amser teithio yn rhwystr allweddol i rhieni rhag dewis darpariaeth gynradd Gymraeg. Dynodwyd lefel sylweddol o alw o fewn y ddarpariaeth blynnyddoedd cynnar yn symud drwy'r system. Caiff cyfrifiadau capaciti eu hadolygu yn flynyddol yn unol â nifer disgyblion, amcanestyniadau disgyblion ynghyd a gofynion yr ysgol yn nhermau defnydd. Maent yn derbyn yn llawn nad yw'r arolygon galw yn ddiffael. Mae Llywodraeth Cymru wedi dileu'r gofyniad i gynnal arolygon galw o'r rheoliadau cyfredol ac maent wedi awgrymu, yn lle hynny, ganolbwytio ar hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg.
8. Beth yw hyfwedd ysgolion yn Nhredegard?	Mae'r amcangyfrif refeniw tua £350k ac yn seiliedig ar ddefnydd llawn; byddai hyn yn rhan o Strategaeth Ariannol Tymor Canol y Cyngor. Rhannwyd hyn drwy'r Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol a chafodd y Pwyllgor Gweithredol hefyd wybodaeth. Byddai mwyafrif helaeth y costau yn cael eu dangos fel cais twf yn adnoddau'r Cyngor, yn hytrach na'r dadleoli ar gyllidebau ysgolion presennol.
9. Pam mai Tredegar oedd yr opsiwn a ffafriwyd?	Mae heriau am arolygon galw ar draws Cymru ac nid ydynt yn unigryw i Flaenau Gwent. Mae lefelau defnydd arolygon galw ar draws y rhanbarth yn tueddu i fod yn gymharol fach ond yn ddangosydd cryf fod galw yn bodoli o fewn ardal Tredegar.

Fforwm Cymraeg mewn Addysg - 20 Ionawr 2021 ar Microsoft Teams

	Cwestiwn	Ateb
1.	Mae'n newyddion da o safbwyt Llywodraeth Cymru, gan gefnogi'r strategaeth ar y Gymraeg. A gafodd ysgolion cyfrwng Saesneg eu hysbysu am yr ymgynghoriad?	Fe wnaeth y tîm gwrrd gyda phenaethiaid Clwstwr Tredegar cyn dechrau'r broses ymgynghori. Cafodd groeso cadarnhaol yn gyffredinol gyda'r cyflawnhad, rhesymeg a thystiolaeth galed yn cefnogi datblygu cyfleoedd addysg Gymraeg.
2.	Rhaid canmol gwaith y tîm i gefnogi ac annog y datblygiad. Nid yw'n ymwneud ag addysg cyfrwng Cymraeg yn cael mantais dros ysgolion cyfrwng Saesneg, ond am gydraddoldeb.	Unwaith eto, rhoddwyd sicrwydd i ysgolion cyfrwng Saesneg na chaiff unrhyw ysgolion eu cau.

This page is intentionally left blank

Gohebiaeth wedi'i golygu

Ymateb 1

Bore da,

Hoffwn gefnogi'r cais ar gyfer ysgol newydd yn ardal Tredegar/Cwm Sirhywi.

Rwyf yn dod yn wreiddiol o'r Coed-Duon ac yn falch bod fy ngwreiddiau yng Nghwm Sirhywi.

Rwyf yn aelod o'r Orsedd ac mae 'Sirhywi' yn rhan o'm enw.

Bum yn ddisgybl yn Ysgol Gyfun Gwynllwyd cyn mynd i Brifysgol Aberystwyth i astudio gradd gyfun Cymraeg a Mathemateg. Bellach rwyf yn athro mewn ysgol cyfrwng Cymraeg ac mae gweld twf yn yr iaith yn y cwm yn codi calon.

Gobeithiaf yn fawr y bydd eich cynlluniau yn mynd ymlaen - os byddwn yn cyrraedd y nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg, bydd gan Flaenau Gwent rol flaenllaw yn y datblygiad hynny.

Yn gywir

Ymatab 2

I bwy y mae'n destun pryder, hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddweud mor anhygoel yw hyn i ehangu Addysg Cyfrwng Cymraeg ym Mwrdeistref Blaenau Gwent. Bu'n bryder dros flynyddoedd lawer mai Bro Helyg yw'r unig ysgol Cyfrwng Cymraeg yn y sir o'i gymharu ag awdurdodau lleol eraill sydd â chryn dipyn.

Cymeradwyaf benderfyniad yr awdurdod i gyflwyno hyn ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd a chyrff cymharol gan fod hwn yn gam mawr i'r ardal leol 2021 a thu hwnt.

Bydd y fenter hon nid yn unig yn ymateb i ddiddordeb aelodau o'r cyhoedd ar gyfer Ysgol Cyfrwng Cymraeg, ond gallai agor opsiynau pellach yn y dyfodol ar gyfer Ysgol Uwchradd Cyfrwng Cymraeg ynghyd â chael agwedd gadarnhaol o ran yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru yn yr ardal leol - Cofiwch fod Glynebwyl wedi cynnal yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2010.

Bydd yr ysgol newydd hon nid yn unig yn fenter gadarnhaol i bobl Tredegar ond bydd yn cael cefnogaeth anhygoel gan y Pennaeth a Staff Ysgol Gymraeg Bro Helyg.

Da iawn Blaenau Gwent - cam cadarnhaol ymlaen ac edrychaf ymlaen at glywed eich cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Chi

Ymatab 3

Helo 'na

Yr wyf yn hapus iawn o glywed bod cyngor Blaenau Gwent yn cynnig ysgol cyfrwng Cymraeg newydd yn Nhredegard.

Rwy'n dod o Dredegard, ond ar hyn o bryd yn byw yn Llundain ac yn gweithio fel Dylunydd Graffig Llawrydd a Dylunydd Marchnata. Mae fy rheulu'n byw o amgylch y gornel o'r safle a ffefrir yn Chartist Way.

Rwy'n gwybod nad yw'r prosiect wedi'i gymeradwyo eto ac mae ymhell i ffwrdd o'i gwblhau, ond hoffwn gynnig fy gwasanaethau dylunio.

Rwy'n dychmygu y bydd angen enw a logo ar yr ysgol. Hefyd, gwefan a dogfennau ar gyfer pob darpar iant a aelod o staff.

Byddwn yn falch iawn o weithio ar brosiect sy'n agos at fy nghalon ac ar gyfer fy nhref enedigol. Pan ddaw'r amser, meddyliwch amdanaf.

Kind Regards a'r gorau o lwc,

Ymatab 4

Fel clwstwr rydym yn cefnogi'r ysgol cyfrwng Cymraeg newydd arfaethedig yn ardal Tredegar. Rydym yn cydnabod yr angen i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ym Mlaenau Gwent ac rydym yn falch y bydd hyn yn rhoi cyfle i fwy o rieni gael mynediad i'r ddarpariaeth hon yn eu hardal leol.

Rydym yn pryderu am y posibilrwydd o ddadleoli disgyblion o ysgolion cyfrwng Saesneg lleol yn enwedig yn yr ardal yn agos at yr ysgol newydd arfaethedig a'r effaith hirdymor y gallai hyn ei chael ar niferoedd eu disgyblion ac felly cynaliadwyedd yr ysgolion hyn.

Rydym yn falch o glywed bod yr ALI yn gweithio gydag awdurdodau lleol cyfagos i fynd i'r afael â darpariaeth cyfrwng Cymraeg uwchradd. Teimlwn fod pellter presennol y ddarpariaeth uwchradd a sefyllfa bresennol yr ysgolion yn cael effaith negyddol ar ddisgyblion sy'n dechrau ac yn parhau ag addysg cyfrwng Cymraeg cynradd ym Mlaenau Gwent. Er mwyn i'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg newydd fod yn llwyddiannus iawn, mae angen mynd i'r afael â hyn fel bod gan rieni lwybr 3-16 addas ar gyfer addysg eu plant.

Carys Llewellyn ar ran Grŵp Penaethiaid Clwstwr Ebwy Fawr

Ymatab 5

Ymateb Estyn i'r cynnig gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent i ddatblygu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd â 210 lle yn Nhredegard / Cwm Sirhywi

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr a gwybodaeth ychwanegol arall fel data gan Lywodraeth Cymru a barn y Consortia Rhanbarthol sy'n cyflwyno gwasanaethau gwella ysgolion i'r ysgolion yn y cynnig.

Crynodeb/ Casgliad

Mae'r cynnig gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent i ddatblygu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd â 210 lle yn Nhredegard / Cwm Sirhywi.

Mae'r cynigiwr wedi'i gwneud yn glir fod angen ail ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ym Mlaenau Gwent. Ar hyn o bryd, un ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn unig sydd yn y sir (Ysgol Gymraeg Bro Helyg), ac mae hyd y daith o Dredegard / Cwm Sirhywi i'r ysgol bresennol yn cael effaith negyddol ar ddewis rhieni. Mae'r cynnig hefyd yn gydnaws â fframweithiau strategol Llywodraeth Cymru a'r Cyngor ar gyfer y Gymraeg.

Mae'r cynigiwr wedi ymgynghori'n eang, yn cynnwys gyda phlant a phobl ifanc, rhieni / gofalwyr, staff ysgol, ystod eang o gyfranogion ac aelodau o'r cyhoedd.

Mae Estyn o'r farn y bydd y cynnig presennol yn gwella hygyrchedd darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgblion yn yr ardal.

Disgrifiad a manteision

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent wedi amlinellu rhesymeg glir ar gyfer y cynnig ynglŷn â'r angen i ehangu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal. Hefyd, mae wedi esbonio'r 'egin fodel' yn fanwl, a sut mae'r model hwn yn gweithio wrth iddo dyfu o ysgol sydd â dim ond dosbarth meithrin a dosbarth derbyn i ysgol gynradd sydd â 210 lle.

Mae'r cynnig yn amlinellu'n deg fanteision ac anfanteision yr egin fodel, a'r manteision a'r anfanteision o gymharu â'r sefyllfa bresennol. Mae'r manteision yn cynnwys cyfle a dewis cyfartal i deuluoedd o ran manteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg, ac ystyried y dewis hwn, sy'n cyd-fynd â gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Bydd yr egin fodel yn sicrhau cyn lleied o darfu ag y bo modd ar ystâd bresennol yr ysgol, ac yn caniatâu digon o amser i'r ysgol dyfu. Mae anfanteision a nodwyd yn cynnwys y ffaith y bydd cyfleoedd trosglwyddo yn ystod blwyddyn yn cael eu cyfyngu hyd nes bydd yr ysgol wedi'i datblygu'n llawn.

Mae'r Cyngor yn ystyried 5 risg ac yn nodi ffactorau lliniaru ar gyfer pob un ohonynt. Mae'r risgiau'n cynnwys ansefydlogi ystâd bresennol yr ysgol, cyflwyno'r prosiect yn hwyr a/neu wario'n fwy na'r gyllideb a gwrthod cymeradwyo'r cynllunio fel nad yw safle'n cael ei sicrhau. Mae'r Cyngor wedi ystyried trefniadau amgen addas, yn cynnwys cydleoli'r egin ysgol mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a sefydlu'r ysgol dan ei lywodraethu ei hun neu fel ffederasiwn ag ysgol cyfrwng Cymraeg arall. Fe wnaethant ystyried yr holl opsiynau a dod i'r casgliad rhesymol mai'r model arfaethedig oedd y model ffafriedig o ran cynaliadwyedd, effaith ar ysgolion eraill ac effaith ariannol o safbwyt refeniw.

Mae'r Cyngor wedi ystyried trefniadau teithio i ddysgwyr trwy ddatgan y bydd cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol yn cael ei ddarparu ar gyfer yr holl ddisgyblion o oedran ysgol statudol sy'n mynchu eu hysgol ddynodedig ac sy'n cymhwys o dan eu cyfyngiadau pellter. Mae'n rhesymol tybio, gan fod y cynnig yn cynnwys cynyddu capaciti ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg, y bydd amseroedd teithiau a hygyrchedd yn gwella. Mae'r cynnig yn ystyried yr angen i ehangu yn y sector cyfrwng Cymraeg i fodloni'r galw ar hyn o bryd, ac yn y dyfodol. Yn y tymor byr i'r tymor canolig, dylai'r effaith fod yn gymharol fach ar y ddarpariaeth gynradd yn ardaloedd Tredegar / Cwm Sirhywi a Gogledd Ebwy Fawr. Gallai'r cynnig effeithio ar Ysgol Gyfun Tredegar os yw 24 o ddisgyblion yn dewis cael addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg gan eu bod wedi mynchu'r egin ysgol cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, mae cyfraddau genedigaethau, mudo i Flaenau Gwent, amcanestyniadau disgblion a datblygiadau tai yn debygol o gynyddu'r angen am leoedd mewn ysgolion sy'n bodoli eisoes.

Mae'r cynnig yn ystyried yn llawn y graddau y mae'n cefnogi'r targedau yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (2017-20) a'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg drafft am y tair blynedd nesaf. Mae'n cynnwys datblygu darpariaeth addysg a gofal plant cyfrwng Cymraeg ychwanegol; felly, mae'n rhesymol tybio y bydd yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg, mynediad at ddarpariaeth addysg a gofal plant cyfrwng Cymraeg, ynghyd â chyfleoedd i ymgysylltu â rhieni a'r gymuned.

Agweddu addysgol ar y cynnig

Mae'r Cyngor yn cynnig y bydd Ysgol Gymraeg Bro Helyg (yr ysgol cyfrwng Cymraeg arall ym Mlaenau Gwent), yn gyfrifol am lywodraethu ac arweinyddiaeth yr ysgol newydd.

Mae wedi esbonio'r modd y byddai'r cyfleuster gofal plant, y grwpiau blwyddyn meithrin a derbyn yn dod i rym o fis Medi 2023. Byddai'r ysgol yn tyfu wedyn flwyddyn ar ôl blwyddyn, ac erbyn 2029, byddai'r ysgol wedi'i sefydlu'n llawn. Mae'r cynnig yn esbonio y byddai strwythur

Ilywodraethu ac arweinyddiaeth yr ysgol yn estyniad o Ysgol Gymraeg Bro Helyg. Mae hyn yn golygu y byddai un Corff Llywodraethol a diwygiadau i'r strwythur staffio, h.y. creu Pennaeth Campws / Rôl Arwain, a fyddai'n sicrhau arweinyddiaeth hirdymor yr egin ysgol tra bydd yn tyfu.

Ymatab 6

Mewn ymateb i'ch cynnig ar gyfer ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd sydd wedi'i lleoli ar Chartist Way, hoffwn i chi ystyried rhoi'r pwyntiau canlynol.

Fy mhrif bryder yw'r effeithiau negyddol a gaiff ar yr ysgolion cynradd presennol yn ardal Tredegar. Mae'r ysgolion hyn ymhli y darparwyr addysg gynradd gorau yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf yn cael eu categoriiddio fel Gwyrdd ac nid oes yr un ohonynt mewn Mesurau Arbennig. Bydd disgylion yn cael eu colli i'r ysgol newydd ac felly bydd problemau o ran gostyngiad yn y cyllid ar gyfer yr ysgolion presennol. Bydd hyn, wrth gwrs, yn arbennig o berthnasol i ysgol gynradd Glanhowy lle bydd dalgylch yr ysgol newydd wedi'i leoli. Y sefyllfa waethaf fyddai colli ysgol gynradd yn Nhredegear. Ceir hefyd yr effaith ganlyniadol ar Ysgol Gyfun Tredegar fel yn y tymor hir byddai disgylion yn teithio i'r ysgol uwchradd Gymraeg agosaf sydd yn awdurdod Torfaen. Mae materion yn ymwneud â diswyddiadau hefyd yn cael eu gwneud ym mhob un o'r ysgolion yn Nhredegear wrth i gyfanswm nifer y disgylion ostwng.

Yr wyf yn ymwybodol bod ymgynghori wedi digwydd ac y gall yr ymatebion i ymarferion o'r fath fod yn gyfyngedig yn draddodiadol. Fodd bynnag, a gafodd ei gwneud yn glir yn yr ymgynghoriadau beth allai effaith lawn yr ysgol newydd ei chael ar ansawdd addysg yn Nhredegear.

Mae gan safleoedd eraill yn adran orllewinol y fwrdeistref fwy i'w gynnig hefyd. Mae digon o le ar y Campws Dysgu yng Nglynebw y ac mae gan y safle hwn eisoes y seilwaith trafnidiaeth angenrheidiol. Pam mae angen mynd â mannau gwyrdd i ffwrdd yn ardal Sirhyw? Mae'n ymddangos yn rhyfedd bod tri sefydliad addysgol wedi'u dymchwel y gellid bod wedi'u defnyddio. Os yw'r safleoedd wedi'u clustnodi ar gyfer datblygiadau eraill pam na ellir newid hyn?

Mae'r targed a osodwyd ar gyfer cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn wir i'w ganmol ond yn ôl eich cyfaddefiad eich hun yn rhy uchelgeisiol. Mae gennym eisoes ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn y fwrdeistref. Mae'n ymddangos yn rhyfedd bod gan Gasnewydd sydd â phoblogaeth o 145,000 ysgolion cynradd Cyfrwng Cymraeg tra bod angen dwy ar Flaenau Gwent sydd â phoblogaeth o 69,713. Mae gan Gasnewydd ysgol Gyfun Cyfrwng Cymraeg o fewn ei hawdurdod hefyd, ac nid ydym yn gwneud hynny.

Efallai fod mewnfudo'n digwydd mewn rhai rhannau o'r de-ddwyrain, waeth pa mor fawr yn ein hardal ni. Mae'n dal i fod yn bwysig yn y mannau mwy de fel Pont-y-pŵl, Trecelyn a Crosskeys. Felly, mae'r ddadl y bydd cynnydd mewn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg oherwydd mewnfudo oherwydd gollwng tollau ar y bont yn wan.

Ymatab 7

Cefndir RhAG

Hanfod RhAG yw cefnogi rhieni a gwarchodwyr wrth iddynt fynd ar y daith gyda'u plant drwy Addysg Gymraeg a thu hwnt. Mae'r cyfnod yn cychwyn cyn geni'r plentyn, gyda'r gwaith hyrwyddo o fewn y sector cyn geni a'r blynnyddoedd cynnar, ac fe gydweithiwn gyda rhanddeiliaid yn gadarnhaol ac yn rhagweithiol i sicrhau bod mynediad at Addysg Gymraeg ar gael i bawb sydd yn ei ddymuno.

Trwy'r gwaith hwn yr ydym hefyd am sicrhau bod mwy o ysgolion Cymraeg yn agor ar hyd a lled Cymru fel bod y galw'n codi a hynny'n sbarduno'r galw. Cydweithiwn yn agos gydag ystod eang o randdeiliaid - yn ysgolion, Awdurdodau Lleol, Menterau Laith, consortia addysg, Urdd Gobaith Cymru, Mudiad Meithrin, darpariaethau gofal preifat i enwi dim ond rhai. Rydym hefyd yn rhan o Fudiadau Dathlu'r Gymraeg.

Gweithiwn hefyd gyda rhieni'n uniongyrchol i'w cefnogi pan fo achosion penodol yn codi. Gwnawn hyn drwy gynghori a chynrychioli uniongyrchol.

Mae rhwydwaith o wirfoddolwyr ar draws Cymru, yn rhieni, yn ofalwyr ac yn gyfeillion i Addysg Gymraeg, yn cynrychioli'r mudiad drwy amrywiaeth o bwylgorau a fforymau ac yn bwydo yn ôl i bwylgor rheoli cenedlaethol.

Mae croeso i unrhyw un ymuno â ni fel mudiad ac rydym yn ddiolchgar i unrhyw wirfoddolwyr sydd yn fodlon ein cynorthwyo gydag achosion penodol mewn ardaloedd ar hyd a lled Cymru.

Ein hymateb

- Mae mudiad Rhieni Dros Addysg Gymraeg yn croesawu'r gwaith cyson a thrylwyr sydd sydd wedi mynd i gynllunio ar gyfer cyrraedd y cam arwyddocaol hwn ym Mlaenau Gwent.
- Rydym fel mudiad wedi profi cydweithio pwrpasol a chydlynus ar y Fforwm Addysg Gymraeg ac yn yr is-bwylgor hyrwyddo, sydd wedi arwain at gydweithio effeithiol rhwng holl rhanddeiliad Addysg Gymraeg y Sir.
- Mae heriau daearyddol y sir yn golygu bod trigolion y sir yn tueddu i deithio o'r de i'r gogledd yn y tri chwm, yn hytrach nag ar draws, sy'n cadarnhau canfyddiadau RhAG o'r holiadur yn 2013 i fesur y galw am ddarpariaeth Gymraeg yn ardal Tredegar a'r angen am leoliad ychwanegol i Orllewin y sir.
- Byddai sefydlu ail ddarpariaeth yn y Sir, yn ardal Tredegar, yn cynnig cydraddoldeb o ran dewis i rieni sy'n dymuno addysg Gymraeg gyflawn i'w plant a hynny o fewn pellter rhesymol i'r cartref.
- Byddai datblygiad o'r fath yn ymateb i ddymuniadau a dyheadau rhieni a hynny'n unol ag amcanion Strategaeth Addysg Cyfrwng Gymraeg Llywodraeth Cymru ac yn cyfrannu at strategaeth Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr.
- Byddai'n sicrhau trochi ieithyddol effeithiol gynnari gan mai'r ysgol yw'r unig amgylchedd trosglwyddo iaith sy'n medru cyflawni hynny'n ddigonol mewn ardaloedd lle mae canran dwysedd siaradwyr Cymraeg yn is a heb y Gymraeg yn y cartref.
- Byddai'n cynnig amodau teg i'r disgylion hynny o ardal Tredegar fydd yn trosglwyddo o'r sector meithrin i'r sector addysgol statudol.
- Bydd yn cryfhau ac yn cynyddu'r niferoedd a'r canrannau trosglwyddo meithrin – cynradd presennol ac yn cynyddu niferoedd trosglwyddo i'r uwchradd.
- Bydd yr ysgol newydd hon hefyd yn cynyddu mynediad at addysg statudol cyfrwng Cymraeg o fewn cymuned y plentyn
- Yn gymdeithasol bydd yn creu mwy o falchder a hyder yn y bobl ifanc a'u teuluoedd i arddel yr iaith mewn rhannau eraill o'r Sir ac yn rhoi cyfle i drigolion Tredegar a'r ardaloedd cyfagos ail-afael ac adfer yr iaith o fewn eu cymunedau.
- Bydd yr ysgol hefyd yn creu canolbwyt canolog o ran ffyniant y Gymraeg yn lleol yn ardal Tredegar.
- Mae'r galw am addysg Gymraeg erioed wedi bod yn fater dyrys i'w brofi, gan yn aml, heb ddarpariaeth i'w enghreifftio, neu brofiad uniongyrchol o'r Gymraeg neu addysg Gymraeg, nid oes modd datgan barn amdano gan nad yw'n perthyn i brofiad yr unigolyn ac felly nid yw'n ddewis i rieni. Ac felly, symudodd y Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg o'r angen i brofi'r galw i greu'r galw. Yn ein profiad ni, y mae galw cudd wedi bod mewn cymunedau ar draws Cymru, tan fod dealltwriaeth glir gymunedol o beth Addysg Gymraeg ar ddarpariaeth ar gael yn y gymuned. Dyma beth fydd yr ysgol hon yn cynorthwyo i'w wneud.
- Bydd gwaith hyrwyddo pwysig i'w wneud law yn llaw gyda'r gymuned yn yr ardal ac y mae RhAG yn barod i estyn llawn gyda'r gwaith pwysig hwn.
- Cefnogwn yn llawn y cynnig i sefydlu'r ysgol hon ac edrychwn ymlaen at gydweithio gyda'r sir i'w sefydlu'n llwyddiannus.

Diolch am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Byddwn yn fwy na hapus i ymhelaethu ar ein sylwadau.

Ymatab 8

Ymateb Mudiad Meithrin -Ysgol Newydd Tredegar a Chwm Sir Hywi

Ionawr 2021

Cefndir:

Pwy ydym ni:

Mudiad Meithrin yw'r prif ddarparwr gofal ac addysg cyfrwng Cymraeg yn y sector wirfoddol drwy rwydwaith genedlaethol o gylchoedd meithrin, cylchoedd Ti a Fi, gofal cofleidiol a meithrinfeydd dydd cyfrwng Cymraeg.

Sefydlwyd Mudiad Meithrin ym 1971. Ein prif nod yw rhoi cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru fanteisio ar wasanaethau a phrofiadau blynnyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. Credwn hefyd ei bod yn bwysig sicrhau cyfle i bob plentyn elwa o brofiadau a gweithgareddau blynnyddoedd cynnar yn ei gymuned leol.

Erbyn hyn, mae yna 501 o gylchoedd meithrin yn cynnig sesiynau gofal ac addysg ddyddiol ar gyfer plant 2 - 5 mlwydd oed a 49 meithrinfa dydd yn darparu gofal dydd llawn i blant ar draws Cymru. Mae 292 o gylchoedd Ti a Fi ledled Cymru sy'n cynnig cyfle gwych i blant o enedigaeth hyd at oed ysgol a'u rhieni gwrdd unwaith yr wythnos i gymdeithasu ac i rannu profiadau gyda'i gilydd mewn awyrgylch anffurfiol Gymreig. Mae'r gwasanaethau yn darparu profiadau blynnyddoedd cynnar i oddeutu 19,000 o blant bob wythnos.

O ganlyniad, rydym yn gweithio gyda phlant a theuluoedd o amryw o gefndiroedd cymdeithasol-economaidd. Rydym yn cydweithio gyda'r asiantaeth *Dechrau'n Deg* i ddarparu cyfleoedd yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, a gyda'r awdurdodau addysg leol i gynnig llefydd addysg rhan amser i blant 3 oed yn eu cymuned leol.

Yn ogystal, mae'r is-gwmni Cam wrth Gam, yn darparu hyfforddiant cyfrwng Cymraeg i ennill cymwysterau blynnyddoedd cynnar. Gwnaed hyn drwy gyd-weithio ag ysgolion uwchradd i ddarparu cyrsiau i ddisgyblion ysgol, a thrwy'r cynlluniau hyfforddi cenedlaethol. Darperir cyrsiau hyfforddi yn seiliedig ar ddysgu yn y gweithle gan rwydwaith o diwtoriaid, aseswyr a dilyswyr mewnol ledled Cymru.

O enau plant bychain yr ail-godir y Gymraeg

Pan sefydlwyd y Mudiad Meithrin yn 1971 roedd ffigurau'r Cyfrifiad y flwyddyn honno yn nodi mai 11.3% o blant 3-4 oed yng Nghymru oedd yn gallu siarad Cymraeg. Cafwyd cynnydd graddol yn y canran yma ym mhob degawd ers hynny a braf nodi yng Nghyfrifiad 2011 roedd y ffigwr wedi cynyddu'n sylweddol yn y degawd olaf i 23.3% o blant 3-4 oed yn gallu siarad Cymraeg.

Mae'r Mudiad Meithrin yn asiant pwysig yn y gwaith allweddol o greu siaradwyr Cymraeg newydd ym maes y Blynnyddoedd Cynnar, gofal plant a chwarae. Mae'r grwpiau Cymraeg i Blant, y Cylchoedd Ti a Fi, y Cylchoedd Meithrin oll yn gosod sylfaen sydd yn arwain at ddilyniant addysg Gymraeg. Gellir ystyried y grwpiau a'r Cylchoedd hefyd fel gyrrwyr defnydd y Gymraeg ar lawr gwlad sy'n arwain at angori'r iaith yn y gymuned. Maent hefyd yn fan cychwyn i annog defnydd o'r Gymraeg yn y cartref gan geisio cefnogi rhieni a theuluoedd i siarad Cymraeg gyda'u plant. Fel y noda strategaeth 'Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr':

"Dros y pedwar degawd diwethaf, y sector gwirfoddol, dan adain y Mudiad Meithrin, sydd wedi cynnal gofal meithrin cyfrwng Cymraeg, gan ddatblygu cyfleoedd i blant ledled Cymru

dderbyn gofal a gwasanaethau'r blynnyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg" (Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr, 2017 t.35).

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ac mae cyrifoldeb ar bob Awdurdod Lleol i chwarae rhan i gyflawni'r weledigaeth arloesol hon fel bod llawer mwy o blant yn cael cyfle i siarad a defnyddio'r Gymraeg. Rydym yn rhan greiddiol o'r nod o greu dinasyddion Cymraeg, dwyieithog ac amlieithog y dyfodol gan bartneri ag Awdurdodau Lleol, ysgolion, mudiadau a chymunedau. Rhaid cydnabod hefyd na ellir gwireddu'r weledigaeth heb fuddsoddiad o adnoddau i ddiwallu'r galw am addysg Gymraeg, ehangu Cylchoedd Meithrin (a grwpiau 'Cymraeg i Blant' a Chylchoedd Ti a Fi), llenwi'r bylchau daearyddol, a chyfrannu at y gofyn am addysg Gymraeg

Cymraeg i Blant

Rheolir prosiect Cymraeg i blant gan Mudiad Meithrin un o brif bartneriaid Strategaeth iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru #Cymraeg 2050 i hyrwyddo manteision cynnar gofal plant ac addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae taith ddwyieithog i rieni newydd yn dechrau gyda grwpiau cefnogi Cymraeg i blant, y Grwpiau Ti a Fi (grwpiau rhieni a phlant bach cyfrwng Cymraeg) a'r Cylchoedd Meithrin (cylchoedd chwarae cyfrwng Cymraeg) lle mae 80% o'r plant yn dod o gartref lle siaredir Saesneg fel y brif iaith. Y nod cyffredinol felly yw cynyddu nifer y plant 3-4 oed sy'n siarad Cymraeg a chynyddu nifer y plant 7 oed sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg.

Noddir ffolder nodiadau mamolaeth Cymru Gyfan, gall y baban gerdyn a noddir y Llyfr Cofnodion lechyd Plant gan Cymraeg i Blant ac mae swyddog lleol Blaenau Gwent yn gweithio'n agos gyda'r timau Bydwragedd ac ymwelwyr lechyd lleol i gyfeirio rhieni draw at ein grwpiau cymorth lleol yng Nglynebwyl, Aberbeeg a Thredegar.

Ers mis Mawrth 2019 rydym wedi symud ein grwpiau ar-lein ac wedi bod yn cefnogi rhieni yn ardal Tredegar gyda **sesiynau amser rhigwm Cymraeg wythnosol yn ogystal â sesiynau tylino babanod un i un**. Mae rhieni hefyd wedi gallu ymuno â'r grwpiau wythnosol canlynol:

Cuppa and Chat Cymraeg – cynyddu eu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u babi a chwrs 6 wythnos **Fi a fy mabi** ar gyfer mamau sy'n disgwl a'u partneriaid a mamau a thadau newydd – gan rannu sut mae babi'n dysgu ail iaith a sut i gael mynediad i ysgol cyfrwng Cymraeg, adnoddau dwyieithog a llawer mwy.

Yn ogystal â chynyddu hyder rhieni wrth ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u plentyn mae'r grwpiau hefyd yn lwyfan ar gyfer rhannu llyfrau Cymraeg a dwyieithog, gwybodaeth am sianel plant Cyw ar S4C, sut i gael mynediad i gyrsiau dysgu Cymraeg lleol drwy Ddysgu Cymraeg a digwyddiadau teuluol a drefnir gan Cymraeg i blant, Menter Iaith, yr Urdd a phartneriaid.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael am:

Facebook Cymraeg i blant local pages

@CymraegforKids

Meithrin.cymru

Ilyw.cymru/cymraeg

Cynllun Sefydlu a Symud

Yn sgil strategaeth iaith Llywodraeth Cymru, #Cymraeg 2050, sefydlwyd cynllun SAS (Sefydlu a Symud / Set up and Succeed) gan Mudiad Meithrin gyda'r bwriad o gynyddu'r niferoedd o ddarpariaethau blynnyddoedd cynnar dros y degawd gan 150 er mwyn galluogi dilyniant o'r darpariaethau gofal cyfrwng Cymraeg at addysg Gymraeg. Un o dargedau'r cynllun yw creu 40 o ddarpariaethau Cymraeg newydd erbyn 2021. Ar ôl trafodaeth gyda swyddogion Sir Blaenau Gwent a gyda llygad ar gydblethu cynlluniau CSGA'r Sir, rydym wrthi'n sefydlu Cylch Meithrin Newydd yn Nhredeggar. Oherwydd Covid 19, nid yw'r Cylch wedi agor ei ddrysau eto ond mae'r cylch wedi ei sefydlu fel Sefydliad Elusennol Cyfyngedig (SEC) ac wedi cofrestru gydag AGC.

Croesi'r Bont

Cynllun cenedlaethol i gyflwyno trochi'r Gymraeg o fewn Cylchoedd Meithrin a phontio ieithyddol rhwng y cylchoedd a'r ysgolion yw Croesi'r Bont. Gyda chanran uchel iawn o blant ein cylchoedd yn dod o gartrefi di-gymraeg, penderfynwyd creu cynllun iaith strwythur dig a fyddai'n berthnasol ar gyfer pob cylch meithrin

Mae Cylch Meithrin Brynithel a Chylch Meithrin Helyg Bychan wedi bod yn rhan o gynllun Croesi'r Bont ers Medi 2017. Buon nhw'n rhan o'r cynllun peilot gwreiddiol yn nhalaith y de ddwyrain.

Er bod mwyafrif y staff yn rhugl yn y ddua gylch, mae'r cynllun wedi sicrhau cysondeb a chywirdeb ieithyddol wrth i staff ddefnyddio patrymau iaith a chaneuon pwrrpasol yn nhreft ddyddiol y cylch ac yn yr ardaloedd chwarae. Mae'r cynllun wedi helpu staff sydd yn ddysgwyr ac o ganlyniad maent yn teimlo'n fwy hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg gyda'r plant a'u cydweithwyr. Yn sgil y cynllun, mae'r staff wedi datblygu defnydd da o ganeuon, adnoddau a llyfrau ddarllen yn ystod eu sesiynau ac maent yn modelu patrymau iaith yn llwyddiannus.

Rydym hefyd yn gyffrous iawn i gynnig cefnogaeth Croesi'r Bont i Feithrinfa Ddydd Buds to Blossoms sydd wedi datblygu sesiynau Cylch Meithrin ar gyfer eu plant. Mae'r gwaith gyda Buds to Blossoms yn arloesol ac yn gyfuniad o waith Croesi'r Bont a SAS.

Un o hanfodion gwaith Mudiad Meithrin yw sicrhau dilyniant. Yr hyn a olygir gan y term dilyniant yw nifer y plant sydd yn trosglwyddo ac yn mynd ymlaen - wrth adael y Cylch Meithrin i fynychu'r ysgol i dderbyn addysg statudol (yn dair, pedair neu bump oed) - i dderbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Erbyn heddiw yn 2020 mae dros 89% o blant yn gadael eu Cylch Meithrin i dderbyn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg sy'n cynrychioli cynnydd o 4% ers 2014 gyda tharged o gyrraedd 90% erbyn 2030. Mae'r cyfraddau'n amrywio'n fawr o ardal i ardal, o Awdurdod Lleol i Awdurdod Lleol yn ddibynnol ar ba mor agos yw cartref y plentyn i'r Ysgol Gymraeg lleol, i bolisi trafnidiaeth, i agweddu'r teulu a'r gymuned ehangach, i enw da'r Ysgol Gymraeg (i nodi rhai rhesymau'n unig).

Mae darpariaeth 30 awr trwy'r 'Cynnig Gofal Plant' yn gyfle ond hefyd yn risg os na gynllunir yn ofalus i fanteisio arno gan fod bylchau amlwg yn y ddarpariaeth ofal plant cyfrwng Cymraeg.

Pwyntiau / Cwestiynau i'w codi:

- Rydym yn croesawu datblygiad egin ysgol gyda gofal plant yn ardal Tredegar a Chwm Sir Hywi am nifer o resymau. Teimlir bydd y datblygiad yma yn galluogi rhieni i ddewis mynediad at ofal ac addysg Gymraeg o fewn pellter rhesymol o'u cartrefi. Bydd hefyd yn rhoi cyfle cyfartal i blant y sir i gael addysg cyfrwng Cymraeg yn eu cymuned leol. Mae lleoli'r egin ysgol yn Nhredeggar yn golygu lleihau sylweddol ar filltiroedd ac amseroedd teithio i blant. Heb os, bydd creu ysgol gyda gofal ynghlwm

yn creu cenhedlaeth newydd o siaradwyr Cymraeg o fewn y sir ac yn cyfrannu at darged #2050 Llywodraeth Cymru.

- Rydym yn croesawu bwriad y Cyngor i godi adeilad a fydd yn ymgorffori Gofal Plant oherwydd mae cynllunio lle ar safle'r ysgol i'r blynnyddoedd cynnar yn hwyluso dilyniant i addysg Gymraeg oed cynradd. Mae sicrhau dilyniant i addysg Gymraeg yn flaenoriaeth i'r Mudiad Meithrin a chanmolwn yr ystyriaeth a roddwyd i hyn gan gynllunwyr y Cyngor. Rydym wedi cyd weithio gyda'r sir trwy weithio ar agar Cylch Meithrin yn Nhredeggar er mwyn ymateb i'r galw am ofal cyfrwng Cymraeg yn yr ardal. Gobeithiwn bydd cyfle i'r Cylch Meithrin adleoli i'r safle newydd fel darparwr presennol yn yr ardal maes o law.
- Mae darpariaeth gofal plant cyfleus sy'n rhan o'r 'Cynnig Gofal Plant' 30 awr hefyd yn fantais i deuluoedd sy'n ystyried dewis addysg Gymraeg oherwydd bod hyn yn cynnig gwasanaeth gofal yn yr un modd a darpariaeth cyfrwng Saesneg.
- Nodwn bod gan y Mudiad Meithrin gynllun i rieni sydd eisiau dysgu'r Gymraeg sef 'Clwb Cwtsh' sy'n digwydd ar-lein ar hyn o bryd. Yn Strategaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Mudiad Meithrin, rydym yn blaenoriaethu'r angen i ymgysylltu a chymunedau Du a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME), a byddem yn annog y Cyngor i wneud yr un peth er mwyn tynnu muriau a chwalu rhagfarnau am bwy sy'n gallu cael mynediad i addysg Gymraeg. Nid yw cefndir, dosbarth, hil, creydd na gallu yn rwystr i siarad Cymraeg.
- Credwn fod gofal cofleidiol, gofal ar ôl ysgol ac yn ystod y gwyliau yn ymestyn ar gyfleoedd ddisgyblion i gael eu torchi yn y Gymraeg yn ogystal ag ehangu eu sgiliau cymdeithasol Cymraeg. Mae cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg tu hwnt i gyd-destun addysg yn hynod o bwysig i greu defnyddwyr gydol oes.
- O ystyried y galw cynyddol am addysg Gymraeg a ddaw o brofiadau rhieni mewn Cylchoedd Meithrin er enghraifft, byddai'n fuddiol i'r Cyngor i feddwl am ddyfodol y ddarpariaeth tu hwnt i gapasiti'r ysgol ar safle newydd.
- Anogwn y Cyngor i adeiladu'r ysgol newydd mewn ffordd mor amgylcheddol garedig a phosib a chreu adeilad gwyrdd o ran ynni, sy'n rhoi cyfle hefyd i ddisgyblion a'r gymuned ddysgu am gynaliadwyedd.

Dogfennau defnyddiol eraill:

[Llywodraeth Cymru \(2017\) Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr](#)

[Mudiad Meithrin \(2015\) Dewiniaith: gweledigaeth Mudiad Meithrin 2015-2025](#)

[Cymraeg i Blant](#)

[Clwb Cwtsh](#)


This page is intentionally left blank

Dadansoddiad o'r Arolwg Ar-lein

Crynodeb o'r cynnig i adeiladu ysgol gynradd Gymraeg newydd 210 lle gyda darpariaeth gofal plant ar yr un safle yn ardal Tredegar/Sirhywi.

Daeth yr ymgynghoriad ar y cynnig uchod i ben ddydd Gwener 29 Ionawr 2021 a derbyniwyd cyfanswm o **190** ymateb, **16** ohonynt yn Gymraeg a **174** yn Saesneg.

Ymatebion a Dderbyniwyd



Mae'r data islaw'n dangos faint o sylwadau a dderbyniwyd

	Sylwadau	Dim sylwadau	O'r sylwadau hynny
Ymatebion yn Gymraeg	10	6	<ul style="list-style-type: none">Pob un o'r 16 yn cefnogi'r cynnig yn llawn
Ymatebion Saesneg	88	86	<ul style="list-style-type: none">86 yn dewis peidio rhoi sylwadau (85 o blaid ac 1 yn erbyn)87 yn cefnogi'r cynnig yn llawn10 dim yn cefnogi'r cynnig2 yn cefnogi'r cynllun yn rhannol
	98	92	190

Sylwadau cadarnhaol a anfonwyd yn Saesneg yn cefnogi'r cynnig yn llawn

- Syniad gwych, angen mwy o ysgolion Cymraeg yn yr ardal.
- Byddai'n hyfryd cael mwy o blant yn dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf.
- Hen bryd i hyn ddigwydd, gyda llawer yn gorfol teithio i Blaenau i gael addysg Gymraeg a chyn hynny i Ffynmawr lle bûm i. Mae dwy neu fwy o ysgolion Cymraeg yn y rhan fwyaf o siroedd ac mae dweud nad oes angen un arall yn esgus pathetig gan y byddai'r rhan fwyaf o bobl yn ystyried anfon eu plentyn i ysgol Gymraeg pe byddai un yn agos at eu cartref.

- Newyddion gwych i Flaenau Gwent a'r Gymraeg!
- Mae fy mhlentyn yn teithio i'r ysgol yn Blaenau i gael addysg Gymraeg, er nad yw'n bell dylai ddal i gael y dewis i fynd i ysgol o fewn pellter cerdded fel sydd ar gael i blant sy'n dewis ysgolion Saesneg. Mae gennyd hefyd ferch fydd yn cychwyn o fewn y flwyddyn neu ddwy nesaf hefyd.
- Byddai'n wych gweld ysgol Gymraeg arall yn ardal Blaenau Gwent!
- Rwy'n cytuno y dylai fod ysgol gynradd Gymraeg arall yn yr ardal.
- Mae angen i Flaenau Gwent ehangu ei darpariaeth Gymraeg. Syniad rhagorol a hen bryd hynny.
- Rwy'n credu y byddai agor ysgol Gymraeg newydd yn Nhredegard yn ased i'r gymuned leol. Fel rhiant, rwy'n adnabod llawer o rieni eraill a fyddai'n hollol gefnogol i'r cynnig ac yn croesawu newid i'r ardal.
- Cyfle mor wych i'r Gymraeg ym Mlaenau Gwent.
- Rwyf wedi dysgu'r Gymraeg fel ail iaith ac ers hynny wedi dod yn athro Cymraeg mewn ysgol uwchradd, Blaenau Gwent yw'r ardal fwyaf amddifadus yng Nghymru o bell yng nghyswilt y Gymraeg. Fel siaradwr Cymraeg bydd yn rhaid i mi ystyried symud cyn gynted â bod fy mab yn ddigon hen i fynd i'r ysgol. Mae'n fy ngwneud yn drist iawn na fydd cenedlaethau'r dyfodol yn y sir hon yn gweld gwobrau a manteision dwyieithrwydd.
- Mae fy merch yn siarad Cymraeg ar ôl dysgu'r iaith mewn ysgol cyfrwng Saesneg. Mae'n awr yn athrawes Gymraeg mewn ysgol uwchradd yng Nghaerdydd. Roeddem wedi clywed am y diffyg mawr o athrawon Cymraeg yn y system addysgol yng Nghymru. Ym mis Medi 2020 dim ond 8 myfyriwr TAR drwy Gymru gyfan oedd yn astudio i ddod yn athrawon Cymraeg. Mae hyn yn dangos yn glir y diffyg darpariaeth yn ne Cymru ar gyfer dysgwyr Cymraeg. Os nad ydym yn dechrau wrth ein traed ac yn addysgu'r iaith i'n plant, bydd nifer athrawon y dyfodol yn parhau i ostwng.
- Angen mawr amdani!
- Mae angen ail ysgol gynradd Gymraeg ym Mlaenau Gwent, yn arbennig yn rhan uchaf Cwm Sirhywi.
- Mae angen mwy o ddarpariaeth Gymraeg yng ngorllewin Blaenau Gwent. Rydyn ni'n byw yn Nhredegard ac mae pob un o fy merched wedi mynd i Ysgol Gymraeg Brynmawr/Ysgol Gymraeg Bro Helyg ond rwy'n gwybod fod y teithio yn rhwystr i lawer o bobl.
- Mae fy nhri plentyn wedi cael budd mawr o addysg Gymraeg ac yn mwynhau defnyddio ail iaith. Rwy'n rhiant a llywodraethwr yn Ysgol Gymraeg Bro Helyg ac yn hapus iawn gyda'r ysgol hon a'r manteision mae fy mhlant eisoes yn eu cael o fod yn ddwyieithog o oedran cynnar a'r rhai y byddant yn eu cael yn y dyfodol. Bydd ail ysgol gynradd ym Mlaenau Gwent yn rhoi cyfle i fwy o blant i fanteisio o addysg Gymraeg, fel y gwnaeth fy mhlant i.
- Bydd hyn yn adnodd gwych i bobl ifanc i gael mynediad i addysg Gymraeg ym Mlaenau Gwent gan mai dim ond un ysgol gynradd sydd o fewn y fwrdeistref ar hyn o bryd. Mae'r ysgol yn boblogaidd iawn ac yn rhoi safon rhagorol o addysg a byddai ysgol Gymraeg newydd yn galluogi mwy o ddisgyblion i dderbyn addysg Gymraeg yma.
- Cefais i fy addysg yn Ysgol Gymraeg Rhymni a chafodd ein merched eu haddysg yn Ysgol Gymraeg Brynmawr ac Ysgol Gyfun Gwynllwyd. Rydyn ni wedi byw yn Nhredegard ar hyd ein bywydau a byddem yn croesawu ysgol gynradd Gymraeg yn ardal Tredegar i osgoi teithio ymhell i'r ysgol. Rydym yn ystyried fod addysg Gymraeg yn amhrisiadwy wrth roi cyfle i ddisgyblion siarad yr iaith a bod yn rhan o ddiwylliant eu hiaith eu hunain.
- Dylai pob ysgol yng Nghymru fod yn un cyfrwng Cymraeg. Dyma'r unig ffordd i gynhyrchu dinasyddion dwyieithog gyda'r holl fanteision y mae siarad nifer o ieithoedd yn eu rhoi.
- Rwy'n credu y bydd yr ysgol yn gyfle gwych i hyrwyddo'r Gymraeg yn ein hardal a phe byddai wedi bod ar gael pan oeddwn i yn yr ysgol, fe fyddwn i wedi bod wrth fy modd yn cael cyfle i ddysgu yn y Gymraeg yn fy ardal leol.

- Y Gymraeg oedd iaith y gymuned yn yr ardal am ganrifoedd mawr, llawer hirach nag y cafodd Saesneg ei siarad yma.
- Rwy'n llwyr gefnogi'r ysgol yma.
- Mae'n hollol iawn y dylem gael mwy o ysgolion Cymraeg yn ein hardal. Mae gan bobl ifanc Blaenau Gwent yn awr ddigon o gyfleoedd i dderbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Byddwn yn croesawu unrhyw ymgais i gadw ein hiaith yn fyw.
- Mae gan Dredegar hanes hir gyda'r Gymraeg a gwn o fy mhrofiad o weithio yn y dref fod gan y bobl lawer o ddiddordeb yn yr iaith.
- Hen bryd.
- Fe fyddwn i wrth fy modd i ysgol Gymraeg gael ei hadeiladu yn yr ardal. Rwy'n astudio'r Gymraeg ar lefel gradd ar hyn o bryd, gan obeithio cymhwys fel athro yn yr ychydig flynyddoedd nesaf ac mae'n wych gweld yr iaith yn datblygu.
- Mae angen dybryd am addysg Gymraeg – a galw – o fewn Blaenau Gwent. Byddai'n gamwedd pe na fyddai'r cynnig hwn yn cael ei dderbyn.
- Mae angen dybryd am ysgol gynradd Gymraeg arall ym Mlaenau Gwent. Ai ni yw'r unig fwrdeistref yng Nghymru heb ysgol gyfun Gymraeg? Ni fydd hyn byth yn digwydd nes fod gennym fwy o ysgolion cynradd. Mae'n hen bryd am hyn. Mae pobl yr ardal wedi cael ei hamddifadu o'u hawl i dyfu lan yn siarad eu hiaith eu hunain am ddigon hir. Mae'r ysgol yn Blaenau yn rhy bell ar gyfer pobl ar ochr arall y cwm. Mae angen yr ysgol yma a dim ond dechrau pethau ddylai hyn fod.
- Mae'n hen bryd ein bod ni fel cymuned yn gwneud ein pwt i achub iaith ein gwlad.
- Hen bryd.
- Mae plant Cymru yn haeddu bod yn ddwyieithog.
- Mae cynnig addysg Gymraeg yn borth i well cyfleoedd cyflogaeth gyda'r llywodraeth a'r cyfryngau. Mae'r ganran o siaradwyr Cymraeg ym Mlaenau Gwent yn embaras a gallai'r cynnig hwn ail-ymuno pobl Blaenau Gwent gyda'r rhwydwaith ehangach yng Nghymru.
- Mae fy merch yn ddwyieithog ac mae bob amser wedi dweud mai mynchy Sali Mali, meithrin Ysgol Gymraeg Brynmawr ac Ysgol Gymraeg Gwynllyw Pont-y-pŵl oedd yr addysg orau y gallai fod wedi ei chael neu ddymuno amdani. Mae bellach yn nyrs iechyd meddwl cymunedol.
- Mae gen i grwt bach 1 oed. Rwyf wedi dweud yr hoffwn iddo fynd i ysgol Gymraeg pan mae'n ddigon hen i ddechrau mynd i'r ysgol, gan fy mod yn caru diwylliant Cymru a'r Gymraeg. Yn anffodus nid wyf yn medru gyrru car ac rwy'n credu mai yn Blaenau mae'r ysgol agosaf, sy'n golygu y byddai'n hunllef mynd ag ef i'r ysgol a'i nôl oddi yno. Pe byddai argyfwng byddai'n cymryd llawer o amser a nifer o fysus i'w gyrraedd. Am y rheswm hwn, byddai'n anodd ei anfon. Rwy'n byw yn Sirhywi felly mae'r ysgol yn llythrennol ar garreg fy nrws, felly rwy'n cefnogi'r cynnig yn llawn.
- Fel rhiant sy'n siarad Cymraeg, rwy'n llwyr gefnogi'r cynnig i sicrhau y caiff plant y cyfle i dderbyn addysg Gymraeg yn lleol.
- Rwy'n credu y bydd hon yn ased fawr i Dredegar. Mae gennyf lawer o berthnasau yno ac rwy'n gwybod y byddent wedi anfon eu plant i ysgol Gymraeg os byddai'n nes. Gan eu bod yn gorfol gweithio ac felly angen amser penodol ar gyfer dechrau a gorffen ac ni fyddent yno pan mae'n dod oddi ar y bws a phethau. Mae'n sicr y byddent wedi anfon pob un o'u 4 plentyn i'r ysgol pe byddai hynny wedi bod ar gael iddynt.
- Rwy'n gweithio i'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar hyn o bryd ac mae llawer o blant wedi eu lleoli o fewn Blaenau Gwent. Yr adborth gan y teuluoedd rwy'n gweithio gyda nhw yw y byddai wedi bod yn well ganddynt anfon eu plant i ysgol Gymraeg, fodd bynnag roeddent wedi methu gwneud hynny oherwydd pethau ymarferol a chludiant. Roedd Blaenau yn rhy bell i bobl yn byw yng Nglynebwyl a Thredegard ac nid oedd taith bws uniongyrchol ar gyfer y rhai nad ydynt yn gyrru.
- Helpu i gefnogi twf y Gymraeg yn yr ardal yma. Syniad da iawn! Mwy o gyfleoedd i blant ifanc ym Mlaenau Gwent i ddysgu iaith eu gwlad.

- Mae'n hanfodol helpu i sefydlu darpariaeth Gymraeg yn ardal Sirhywi/Tredegar i sicrhau fod digon o ddarpariaeth iaith wrth i'r galw dyfu am addysg Gymraeg.
- Mae hwn yn gyfle gwych i dyfu'r iaith yn y sir a rhoi dyfodol dwyieithog i'n hieuenciad.
- Mae'r Gymraeg yn rhan bwysig o'n treftadaeth yma yng Nghymru a dylem fod yn gwneud mwy i hyrwyddo hynny. Pan fydd fy merch wedi cyrraedd oedran ysgol bydd yn mynd i ysgol Gymraeg a gorau po fwyaf o ddewis sydd.
- Rwy'n credu'n gryf y byddai ysgol Gymraeg yn fanteisiol iawn i'r ardal. Mae'n amlwg fod pobl yr ardal eisiau mwy o addysg Gymraeg felly bydd ysgol arall yn cefnogi hynny.
- Rwy'n teimlo y byddai'n rhoi'r dewis i bob rhiant i gael addysg Gymraeg i'w plant.
- Ac ystyried y mewnllif o ddisgyblion i ysgolion cynradd Cymraeg, nod Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a safon rhagorol addysg Gymraeg yn Ysgol Cwm Gwyddon sydd gerllaw, mae'r cynnig yn fater sym! I'r dyfodol!
- Mae datblygu'r Gymraeg drwy fwy o addysg Gymraeg hygrych mewn ail leoliad ym Mlaenau Gwent i'w groesawu'n fawr.
- Yn anffodus, nid oes digon yn siarad Cymraeg na'n gwybod am y Gymraeg felly byddai'n gyfle gwych i blant a'n gwlad ac yn rhoi mwy o ddewisiadau mewn bywyd i blant, felly rwy'n cefnogi hyn yn llwyr.
- Rhagorol, hen bryd!
- Mae darpariaeth ysgolion Cymraeg ym Mlaenau Gwent yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae Blaenau Gwent angen yr ysgol yma gan fod y Llywodraeth wedi gosod targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg.
- Byddai ysgol Gymraeg arall yn wych. Mae'r Gymraeg yn tyfu a byddai cael mwy o bobl a blant yn dysgu'r iaith yn ased fawr i Gymru a'r ardal.
- Aeth pob un o fy mhedwar plentyn i ysgolion cynradd ac uwchradd Cymraeg, ac aeth tri ohonynt ymlaen i gael graddau prifysgol mewn addysg, ffasiwn a dylunio graffeg.
- Bydd hyn yn ased i'r ardal ac i Gymru.
- Cafodd fy holl blant addysg Gymraeg ac maent wedi ffynnu. Bydd ysgol Gymraeg arall o fudd mawr i'r ardal, gan roi dechrau gwych mewn bywyd i blant.
- Nod Llywodraeth Cymru yw cael mwy o siaradwyr Cymraeg sy'n byw yng Nghymru. Ni fydd hyn yn digwydd heb dwf mewn addysg Gymraeg.
- Gan fod yn rhiant plant yn yr unig ysgol Gymraeg ym Mlaenau Gwent, rwy'n gwybod y bydd llawer o rieni yn cytuno y gall teithio mewn bws yr holl ffordd o Dredegar i Blaenau fod yn ddiwrnod hir iawn i'r plant.
- Mae cefnogaeth wedi bod i addysg Gymraeg yn Nhredegar ond dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf mae'r daith i'r ysgol agosaf wedi cynyddu, gan ei wneud yn anodd i ddisgyblion a rhieni.
- Mae fy nau blentyn mewn addysg Gymraeg ac rwy'n credu y bydd yn dda cael ysgol arall yn yr ardal.
- Mae plant Tredegar yn haeddu dewis mynd i'r ysgol i ddysgu iaith ein gwlad. Fe fyddwn wedi bod wrth fy modd pe byddai hyn wedi bod ar gael pan oeddwn i yn yr ysgol.
- Rydym angen ysgol Gymraeg arall yn yr ardal ac mae Sirhywi yn union yng nghanol yr holl drefi. Byddai hefyd yn gostwng faint o deithio mae plant yn gorvod ei wneud, ac mae'n fantais y byddant yn dal i fedru mynd i'r ysgol pan mae'r tywydd yn wael.
- Cyn gweithio fel Cymhorthyydd Addysgu yn Ysgol Gymraeg Bro Helyg, roeddwn yn cael fy nghyflgi gan y Mudiad Ysgolion Meithrin i redeg Cylchoedd Ti a Fi yn ardal Blaenau Gwent. Roeddwn yn rhedeg grŵp yn Nhredegar, Cwm, Parc Bryn Bach a Llanhiledd. Rhan o fy swydd oedd hyrwyddo addysg Gymraeg felly cefais lawer o sgyrsiau gyda rhieni am ba ysgol yr oeddent yn ei dewis ar gyfer eu plant. Lleoliad oedd y rhwystr mwyaf i rieni rhag dewis addysg Gymraeg. Roedd pawb eisiau anfon eu plant i ysgol 'leol' yn eu cymuned. Roeddent eisiau medru cerdded gyda'u plant i'r ysgol ac eisiau i ffrindiau eu plant i fod yn ffrindiau lleol. Roedd hyd yn oed rieni a gafodd addysg Gymraeg eu hunain yn dweud na fyddent yn anfon eu plant i'r ysgol Gymraeg gan ei bod yn rhy bell ac yn cofio nad oeddent yn hoffi nad oedd eu ffrindiau ysgol yn lleol. "Sa'i wedi

cadw mewn cysylltiad gyda fy ffrindiau o'r ysgol oherwydd maent i gyd yn byw mor bell". Yn fy holl amser yn rhedeg y grwpiau yma, mae'n drist gennyl ddweud mai dim ond un teulu y gwn amdano a aeth ymlaen i roi addysg Gymraeg i'w plant. Saesnes ydw i ac wedi dysgu siarad Cymraeg. Mor bell yn ôl â 2008 gallwn weld cyfle mor rhagorol oedd addysg Gymraeg, a phenderfynais anfon fy mhlentyn i ysgol Gymraeg. Nawr yn 16 oed mae fy merch yn gerddor ac mae ei gallu i siarad Cymraeg wedi agor llawer o ddrysau iddi. Fel teulu credwn fod y Gymraeg wedi cyfoethogi bywyd pob un ohonom. Fodd bynnag, fe wnes i hyd yn oed benderfynu peidio ei hanfon i ysgol uwchradd Gymraeg. Lleoliad oedd y rheswm. Byddai wedi gorfol teithio am awr i gyrraedd yr ysgol bob bore ac awr arall i ddod adre ac mae dwy awr allan o ddiwrnod person ifanc yn ei harddegau yn llawer. Gellid treulio'r ddwy awr hynny yn cymdeithasu gyda ffrindiau, yn ymarfer ei hofferynnau cerddorol, neu'n astudio. Rwy'n llwyr gefnogi sefydlu'r ysgol yma yn Nhredegar gan y byddwn yn trin mater lleoliad a rhoi ysgol Gymraeg yng nghalon y gymuned. Yn y cyfnod anodd hwn mae llawer ohonom wedi ail-ddysgu gwerth cymuned – bod yn gymdogion da ac aros yn lleol. Pa ffordd well i gynyddu nifer siaradwyr Cymraeg na galluogi pobl i gael mynediad i addysg Gymraeg yn eu hardal leol? Pob lwc!

- Rydym wedi gorfol aros mor hir am hyn, bu ei angen am lawer o flynyddoedd. Byddaf wrth fy modd yn gweld hyn yn digwydd. Bydd yn helpu twf y Gymraeg yng Nghymru ac yn galluogi preswylwyr Tredegar i gael cyfle cyfartal ar gyfer addysg eu plant a'u cyfleoedd bywyd a gyrrfa wedyn.
- Fel athro Cymraeg (cynradd) sy'n astudio ar hyn o bryd ar gyfer Diploma Ôl-radd yng Gymraeg, rwy'n croesawu adeiladu ysgol gynradd Gymraeg arall ym Mlaenau Gwent. Mae cynifer o fanteision i fod yn ddwyieithog yn ogystal â dysgu iaith arall. Mae galw cynyddol am addysg Gymraeg ac mae teuluoedd Blaenau Gwent yn haeddu cael hawl i gael mynediad i hyn.
- Mae gan bob plentyn yn Nhredegar hawl i gael addysg Gymraeg!
- Mae'n gywilydd nad oes un eisoes!
- Rwy'n bwriadu dechrau teulu cyn hir a byddwn wrth fy modd i fy mhlant fedru mynd i ysgol Gymraeg leol yn hytrach na gorfol teithio allan o'r fwrdeistref.
- 100% ei hangen yma. Rydw i'n ystyried dechrau teulu ac ni fyddwn yn medru fforddio anfon plentyn tu allan i'r dref i gael addysg Gymraeg.
- Rwy'n credu mai enw'r ysgol newydd ddylai fod "YSGOL MYFYR WYN" ar ôl un o feibion enwocaf Sirhywi, y gof a'r Myfyr Wyn (William Williams)
- Mae'n warthus nad oes yn barod.
- Mae plant Blaenau Gwent wedi bod angen ysgol gynradd Gymraeg arall ers nifer o flynyddoedd. Rwy'n canmol penderfyniad y cyngor i symud ymlaen.
- Mae Tredegar angen cyfleusterau addysg Gymraeg ansawdd da, mae galw cynyddol a dylai ateb hynny gyda chyfleuster addas.
- Mae gan blant Blaenau Gwent yr un hawl â phob plentyn arall ar draws Cymru i gael addysg Gymraeg yn eu cymuned ac mae'n hen bryd i'r hawl hwn gael ei wireddu. Ymgyrchais am dair blynedd am ysgol o'r fath yn Butetown ac rwyf wedi gweld pa mor llwyddiannus fu hyn gyda phlant o bob cefndir ac rwy'n sicr y bydd hyn yn wir am Dredegar hefyd. Bydd pobl ar draws Cymru yn edrych i weld os yw Cyngor Blaenau Gwent yn rhoi'r un cyfleoedd i'w plant â chyngorau eraill ar draws Cymru. Hoffwn adael yma eiriau Aneurin Bevan, mab enwocaf Tredegar: "Mae pobl o rannau eraill y wlad yn synnu pan ymwelant â Chymru i ganfod faint o bobl Cymru sy'n dal i siarad Cymraeg a pha mor gryf a hyd yn oed angerddol yw eu cariad pobl Cymru at eu gwlaid, eu diwylliant a'u sefydliadau unigryw. Nid oes dim byd i'w resynu am hyn. I'r gwrthwyneb, mae'n rhagorol y dylai diwylliannau, gwerthoedd a sefydliadau neilltuol ffynnu er mwyn gwrthweithio tueddiad arswydus yr oes tuag at safoni, gwastrodi a llwydni cyffredinol". (1947) "Er nad yw'r rhai ohonom a gafodd ein magu yn Sir Fynwy ac yn sir Forgannwg yn siarad Cymraeg nac yn ysgrifennu Cymraeg, serch hynny rydym i gyd yn ymwybodol o'r ffaith fod diwylliant yn bodoli yng Nghymru, ac yn arbennig yn yr ardaloedd gwledig ac yn

y gogledd, sydd yn unigryw yn y byd. Mae'n ansawdd meddwl arbennig, agwedd arbennig tuag at bethau meddyliol na welir unrhyw le arall yng Nghymru. Nid ydym yn barod i'w gweld yn marw." (1953)

- Mae'n hen hen bryd cael ysgol gynradd Gymraeg arall ym Mlaenau Gwent. Mae pob bwrdeistref arall yn ardal Gwent wedi symud ymlaen gydag addysg Gymraeg dros y flynyddoedd ond mae Blaenau Gwent wedi llusgo traed yn golygu fod nifer lai yn derbyn addysg Gymraeg. Agorodd Uned Gymraeg Brynmawr ddechrau'r 80au. Heblaw'r symud i ysgol gynradd lawn, ni fu unrhyw "hwb" arall ar addysg Gymraeg.
- Mae hyn yn newyddion gwych i'r ardal ac wrth gynyddu darpariaeth Gymraeg.
- Mae hyn yn wych ar gyfer addysg Blaenau Gwent a'r cyfle y bydd yn ei roi i blant yn y dyfodol. Cafodd fy nau blentyn addysg Gymraeg yn Nantyglo, a byddai'n wych cael hyn yma yn Nhredegar.
- Fe fyddwn wrth fy modd pe byddai wedi bod yma yn y 1980au pan oeddwn yn yr ysgol fel nad oedd yn rhaid i mi deithio i sir arall (canol Morgannwg) i gael addysg Gymraeg.
- Cafodd yr angen am ysgol gynradd Gymraeg yn Nhredegar ei gydnabod ar ôl llawer o flynyddoedd. Bydd pobl ifanc Tredegar yn cael mantais addysgol a diwylliannol ac mae eu teuluoedd yn croesawu'r cynnig yn gynnes iawn. Bydd manteision addysg gynradd Gymraeg yn meithrin talentau a sgiliau'r disgyblion ifanc fydd yn mynchu. Dymuniadau gorau i bawb sy'n ymwneud â'r prosiect gwerth chweil hwn.

Sylwadau cadarnhaol a anfonwyd yn Gymraeg yn cefnoqi'r cynnig yn llawn

- Mae'n hen bryd i'r sir gael ysgol Gymraeg arall. Ni yw'r unig sir yng Nghymru gydag un ysgol Gymraeg yn unig.
- Mae'r angen am ysgol gynradd Gymraeg arall yn yr ardal wedi bod yn amlwg ers nifer o flynyddoedd. Rwy'n falch iawn o glywed fod y dymuniad yn agosach at gael ei wireddu ac y bydd yn gam cadarnhaol tuag at gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Does dim amheuaeth am yr awydd a'r teimlad cryf o Gymreictod sy'n perthyn i'r ardal ers flynyddoedd.
- Mae'n hen bryd i ni gael ysgol Gymraeg arall yn yr ardal.
- Fel cyn ddisgybl o Ysgol Gymraeg Rhymni ac ar ol danfon fy mhlant i Ysgol Gymraeg Brynmawr ac Ysgol Gyfun Gwynllwyd byddwn yn hollol gefnogol i weld ysgol Gymraeg yn Nhredegar. Bu rhaid i blant deithio am 65 mlynedd er mwyn derbyn addysg drwy gyfrwng y Gyr hyn rhoi'r cyfle iddynt ddysgu'i hiaith ei hun yn ei milltir sgwar.
- Newyddion gwych. Hyfryd I weld yr iaith yn tyfu. Mwy o gyfleoedd I blant siarad Cymraeg.
- Credaf fod yn syniad da I roi fwy o gyfleoedd I bobl dysgu a siarad Cymraeg. Rhagor o ysgolion I rannu arfer da ac adnoddau gyda, ac I weithio ynghyd. Cyfle i hybu'r Gymraeg yn y gymuned yna!
- Ers 1991 dim ond un ysgol gynradd Gymraeg sydd yn bodoli ym Mwrdeisdref Blaenau Gwent. Blaenau Gwent yw'r unig sir yn y De Ddwyrain sydd ddim wedi symud ymlaen i sefydlu mwy nac un ysgol gynradd gyfrwng Gymraeg yn y Bwrdeistref. Mae'r twf yn y nifer o rhieni sydd yn i anfon eu plant i ysgolion cyfrwng Gymraeg dros y degawdau wedi mynd o nerth i nerth. Er mwyn sicrhau fod gan teuluoedd dewis i anfon eu plant i ysgol cyfrwng Cymraeg mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg o fewn cyrraedd rhesymol i'w cartrefi. Yn y pendraw mae angen sicrhau fod ysgol gynradd gyfrwng Gymraeg nid yn unig yn ardal Tredegar ond yn ardal Glyn Ebwy hefyd. Mae gan Cyngor Blaenau Gwent ddyletswydd i gefnogi ymgyrch Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Edrychaf ymlaen at weld yr egin Ysgol Gynradd yma yn agor ei drysau ym mis Medi 2023 ac mi fyddaf yn dilyn y datblygiadau a diddordeb mawr. Braf gweld Cylch Meithrin dan adain Mudiad Meithrin yn agor yn ardal Tredegar - bydd hyn o gymorth mawr wrth ledaenu'r gair am fanteision addysg cyfrwng Gymraeg ac dwi'n siwr bydd cydweithio agos rhwng y Cylch Meithrin a'r ysgol newydd.

- Mae'n dda clywed fod sefydlu Ysgol Gymraeg yn ardal Tredegar/Cwm Sirhywi yn newyddion arbennig. Mae Blaenau Gwent wedi bod yn gweithredu un Ysgol Gymraeg am flynyddoedd lawer, ac felly bydd agor ail ysgol yn y sir yn lledu addysg Cymraeg. Pob lwc, gan obeithio bydd y fenter yn llwyddiannus.
- Mae'r cynnig i ddatblygu Ysgol Gynradd Gymraeg newydd 210 lle yn Nhredegar/Cwm Sirhywi yn ddatblygiad pwysig iawn o ran ateb gofynion rhieni lleol ac yn sicr bydd hyn yn hwb sylweddol i dwf yr iaith yn yr ardal hon. Dros y blynnyddoedd diwethaf, mae'r Fenter wedi dod ar draws dwsinau o deuluoedd ym Mlaenau Gwent oedd am anfon eu plant i addysg Gymraeg wedi penderfynu i beidio gwneud hyn oherwydd y diffyg darpariaeth yn lleol. Mae cyfraddau trosglwyddiad iaith ardal Blaenau Gwent yn waeth nag ardaloedd cyfagos yn Ne-Ddwyrain Cymru oherwydd diffyg argaeledd addysg cyfrwng Cymraeg yn hanesyddol. Fe all yr ysgol newydd hon newid y sefyllfa yn sylweddol. Mae'r cynnig yma yn gam pwysig tuag at gydraddoldeb o ran dewis ac yn fuddiol i blant, rhieni y gymuned leol ac hefyd yn cryfhau'r Gymraeg ym Mlaenau Gwent.
- Rwyf yn croesawu'r cynnig fydd yn gam pwysig ymlaen ym Mlaenau Gwent ac yn eu galluogi i gyfrannu at weledigaeth y Llywodraeth o ran cynnydd yng nghanran y plant 7 oed sydd yn derbyn addysg Gymraeg. Mae sicrhau darpariaeth addysg Gymraeg yn ardal Tredegar/Sirhywi yn gwbl allweddol er mwyn sicrhau dewis gwirioneddol i rieni a disgyblion o ran addysg cyfrwng Gymraeg yn yr ardal hon. Rwyf yn croesawu'n fawr bod y Cyngor yn cynnig y cynllun beiddgar hwn, ac mae'r cynnig hwn nid yn unig yn diwallu'r galw sylweddol sydd eisoes yn bodoli, ond am greu galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal. Dyw addysg cyfrwng Cymraeg heb fod yn opsiwn gwirioneddol i lawer o deuluoedd yr ardal yn y gorffennol, ac mae'r cynnig hwn yn newid y sefyllfa hwn. Rwyf hefyd yn falch o weld bod y cynlluniau hyn wedi'u plethu gyda'r gwaith sydd wedi digwydd o ran cynyddu darpariaeth gofal plant, yn benodol o ran gwaith y Mudiad Meithrin. Bydd datblygu darpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg yn lleol yn debygol o gynyddu'r galw am ofal plant lleol drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd hyn yn ei dro wrth gwrs yn arwain at nifer cynyddol o blant lleol fydd yn dymuno symud o'r gofal plant cyfrwng Cymraeg i ddarpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg. Mae'n hollbwysig felly bod y datblygiadau hyn yn digwydd ar y cyd, ac yn cael eu cydlynu ar efel strategol. Credaf fod y cynnig hwn yn gam hynod arwyddocaol, ac am sicrhau bod mwy o blant Blaenau Gwent yn datblygu yn siaradwyr dwyieithog hyderus.

Sylwadau cadarnhaol a anfonwyd yn Saesneg yn rhoi cefnogaeth rannol i'r cynnig

- Ar gyfer rhieni sydd eisiau i'w plant fynychu ysgol Gymraeg, mae'n syniad da cael ysgol yn Nhredegar gan fy mod yn gwybod y gall cludiant achosi problem ar hyn o bryd. Rwy'n bryderus os byddai'n mynd â disgyblion i ffwrdd o'r ysgolion yn Nhredegar, Gwn y gall rhai disgyblion ddod o Lynebwy ond byddai 24 disgybl fesul cohort, pe byddai 16 o Dredegar, yn 3 yn llai o ddisgyblion ar gyfertaledd ym mhob ysgol gynradd ac erbyn iddo fod yn llwyr weithredol y byddai hynny yn 24 fesul ysgol (8 grŵp blwyddyn 3 3 disgybl), byddai hyn yn golygu colli incwm i'r ysgolion cynradd yma.
- Oes gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent gymaint â hynny o ddisgyblion sydd eisiau cael eu haddysg yn Gymreg? Fe fyddwn wedi credu y byddai'r un n y Blaenau yn ddigon.

Sylwadau a anfonwyd yn Saesneg ddim yn cefnogi y cynnig


- Yn lle gwario'r arian ar ysgol newydd, rwy'n credu y byddai'n well iddo fynd i'r ysgolion sydd wedi sefydlu yn yr ardal. Mwy o hyfforddiant staff, adnoddau ar gyfer addysgu Cymraeg.
- Mwy o hyfforddiant staff, adnoddau ar gyfer addysgu Cymraeg. Mae digon o ysgolion yn Nhredeggar. Byddai hyn yn cael effaith niweidiol ar niferoedd disgyblion ac felly eu cyllidebau. Ychydig iawn o Gymraeg sy'n cael ei siarad yn yr ardal yma beth bynnag.
- Gwastraff arian, digon o ysgolion yn barod.
- Nid oes neb yn siarad Cymraeg yma.
- Nid wyf yn credu y byddai hyn yn gweithio nac yn ymarferol, mae ysgol Gymraeg yn Blaenau yn barod.
- Mae golygfeydd gwych dros Dredegar o'r tir y bwriedir adeiladu'r ysgol gynradd arno, ond bydd adeilad concrit arall eto yn cymryd y gofod gwyrdd hyfryd hwn. Mae'r tagfeydd traffig ar waelod Heol Beaufort yn ofnadwy yn barod ar adegau ysgol, bydd yr ysgol newydd yma o fewn tafliad carreg o Ysgol Gynradd Glanhywi ac felly caiff y traffig ei ddyblu.
- Rwy'n llywodraethwr mewn ysgol uwchradd gyfagos. Rwy'n bryderus am y goblygiadau y byddai ysgol Gymraeg yn eu cael ar ysgolion presennol yng nghyswilt nifer disgyblion/cyllid. Rwy'n credu y byddai'n well gwario'r cyllid ar ein hysgolion presennol yn yr ardal a byddwn hyd yn oed yn cefnogi gwario mwy o arian ar wella addysg Gymraeg yn yr ysgolion presennol. Gan mai awdurdod lleol bach yw Blaenau Gwent, nid wyf yn gweld y broblem mewn teuluoedd yn cymryd y daith fer i'r Blaenau i fynychu'r ysgol Gymraeg bresennol. Ar lefel bersonol, gwnes benderfyniad bwriadol i beidio anfon fy mhlant fy hun i Ysgol Bro Helyg. Rwy'n teimlo y byddai fy mhlant yn manteisio o gael eu haddysg yn Saesneg, gan ei bod yn iaith a ddefnyddir yn eang ac rwy'n rhagweld y byddai'n fwy defnyddiol iddynt yn yr hirdymor, er enghraifft wrth wneud cais am brifysgolion a/neu swyddi y tu allan i Gymru. Fodd bynnag, rwyf yn cefnogi fy mhlant i ddatblygu eu sgiliau yn y Gymraeg ac rwy'n hapus ei bod yn rhan o'r cwricwlwm.
- Mae llawer o weithfeydd heb eu cofnodi dan y safle a gynigir. Fe wnaeth safle St. James lawr y ffordd yn Thomas Ellis Way ddal y Cyngor mas drwy fod angen gwerth £31m o waith daear ychwanegol i gynnal y safle a'i wneud yn ddiogel ar ôl canfod siafftau gweithfeydd tebyg heb eu nodi. Dywedodd y Cyngor bryd hynny na fyddai byth yn cael ei ddal mas felly eto nac i wario arian tebyg i ddim ond cynnal tir anniogel yn ddiangen i adeiladu arno eto, eto dyma ni eto, yn hytrach na dewis safleoedd diogel (e.e. y nifer fawr o erwau gwag o dir gwastraff yn hen waith dur Glynebwyr a safle gwag Coleg Gwent), i enwi ond dau safle y gwyddys eu bod 100% yn ddiogel. Pam felly ystyried Chartist Way gyda'r NCB wedi dweud yn y Dystysgrif Amgylcheddol yn dilyn eu hadroddiad ar brynu fy eiddo ym mis Mai 2010 ar ôl "cerdded o amgylch", na fedrir byth adeiladu ar y safle yma (y padog yn Chartist Way). Yn eu rhuthr gwylt i'r Cyngor gam-wario £6m arall o arian cyhoeddus (arian yn dilyn Covid, o ddifrif) i gael ysgol Gymraeg, yn od mewn ardal lle nad oes bron neb yn siarad Cymraeg nac yn malio am hynny) ac ar gyfer dim ond 210 o ddisgyblion, yn ddim llai na chywilyddus.
- Nid yw Ysgol Bro Helyg yn llawn. Gallai hyn fynd â disgyblion o ysgolion eraill ac nid yw'n ymddangos fod galw am yr ysgol. A yw'n ariannol hyfwy cael adeilad ysgol llawn gyda dim ond ddau ddosbarth?
- Unwaith eto, bydd y parcio yn yr ardal yma'n broblem. Mae llawer o ddamweiniau bob mis ar yr ffordd yn mynd i ardal Heol Beaufort, ni fydd hyn ond ychwanegu at y problemau y mae'r preswylwyr yn gorfol eu dioddef ddydd ar ôl dydd.

Dadansoddiad cyffredinol o ymatebwyr

Gofynnodd yr arolwg i'r ymatebwyr ym mha ddosbarth cyffredinol yr oeddent, tebyg i breswylwyr lleol, rhieni, staff heb fod yn addysgu neu lywodraethwyr.

Cafodd yr ymatebin eu casglu islaw i ddangos cynrychiolaeth y rhai oedd â diddordeb.

Yn erbyn y cynnig




Cefnogi'r cynnig yn rhannol



Fel y gellir gweld o'r siartiau tafell uchod, mae'r nifer yn erbyn y cynnig yn fath, sef 11. Mae 6 ohonynt yn breswylwyr lleol a 5 yn rhieni. Yn yr un modd, o'r rhai oedd yn cefnogi'r cynnig yn rhannol, rodd 1 yn breswylydd ac 1 yn rhiant. Ma'r siart tafell islaw'n dangos yr ymatebion cadarnhaol gan breswylwyr lleol (ychydig dros 40%), rhieni (18%) ac athrawon (22%).

O blaid y cynnig



This page is intentionally left blank

Sylwadau heb fod yn cefnogi'r Cynnig

Adborth Negyddol	Answers
Yn lle gwario'r arian ar ysgol newydd, rwy'n credu y byddai'n well iddo fynd i'r ysgolion sydd wedi sefydlu yn yr ardal. Mwy o hyfforddiant staff, adnoddau ar gyfer addysgu Cymraeg.	Mae'r cyllid ar gyfer y cynnig yn dod o'r grant cyfalaf cyfrwng Cymraeg i gynyddu addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r grant wedi ei neilltuo ar gyfer twf y Gymraeg ac ni fedrid ei wario ar hyfforddiant staff ac adnoddau ar gyfer ysgolion presennol fyddai'n wariant refeniw ac nid cyfalaf.
Mae digon o ysgolion yn Nhredegar. Byddai hyn yn cael effaith niweidiol ar niferoedd disgyblion ac felly eu cyllidebau. Ychydig iawn o Gymraeg sy'n cael ei siarad yn yr ardal yma beth bynnag.	Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r effaith ar y stad ysgolion. Bydd y cynnig hwn yn fodel twf graddol gan gyrraedd capaciti llawn mewn 10 mlynedd. Blaenau Gwent yw'r unig awdurdod lleol i fod â dim ond un ysgol Gymraeg. Nid oes gan y Cyngor gynlluniau ar gyfer mwy o ad-drefnu ysgolion ar gyfer Tredegar, ond cydweithio i ddarparu cyfleoedd addysg drwy gyfrwng y Saesneg a hefyd drwy gyfrwng y Gymraeg/
Nid wyf yn credu y byddai hyn yn gweithio nac yn ymarferol, mae ysgol Gymraeg yn Blaenau yn barod. .	Mae rhieni wedi dweud drwy'r arolygon galw a sesiynau ymgysylltu a gynhalwyd bod y ffaith bod Ysgol Bro Helyg mor bell i ffwrdd yn rhwystri wrth ystyried anfon eu plentyn i ysgol Gymraeg. Mae galw am ddarpariaeth yn ardaloedd Tredegar a gogledd Ebwy Fawr.
Mae ysgol gynradd yn gwasanaethu ardal Sirhywi yn barod. Mae golygfeydd gwych dros Dredegar o'r tir y bwriedir adeiladu'r ysgol gynradd arno, ond bydd adeilad concrit arall eto yn cymryd y gofod gwyrdd hyfryd hwn. Mae'r tagfeydd traffig ar waelod Heol Beaufort yn ofnadwy yn barod ar adegau ysgol, bydd yr ysgol newydd yma o fewn tafliad carreg o Ysgol Gynradd Glanhywi ac felly caiff y traffig ei ddyblu..	Bydd cynllun yr ysgol newydd yn gydnaws â'i hamgylchedd. Mae ysgolion cynradd yn gwasanaethu ardal Sirhywi ond maent yn rhai cyfrwng Saesneg a seiliedig ar ffydd, ac nid cyfrwng Cymraeg. Os symudir ymlaen â'r cynnig, bydd ymgynghoriad cyn cynllunio a phroses cais cynllunio fydd yn trafod y pryderon am y trafodaethau am draffig a phrifffydd.
Rwy'n llywodraethwr mewn ysgol uwchradd gyfagos. Rwy'n bryderus am y goblygiadau y byddai ysgol Gymraeg yn ei gael ar ysgolion presennol yng nghyswilt nifer disgyblion/cyllid. Rwy'n credu y byddai'n well gwario'r cyllid ar ein hysgolion presennol yn yr ardal a byddwn hyd yn oed yn cefnogi gwario mwy o arian ar wella addysg Gymraeg yn yr ysgolion presennol. Gan mai awdurdod lleol bach yw Blaenau Gwent, nid wyf yn gweld y broblem mewn teuluoedd yn cymryd y daith fer i'r Blaenau i fynychu'r ysgol Gymraeg bresennol. Ar lefel bersonol, gwnes benderfyniad bwriadol i beidio anfon fy mhlant fy hun i Ysgol Bro Helyg. Rwy'n teimlo y byddai fy mhlant yn manteisio o gael eu haddysg yn Saesneg, gan ei bod yn iaith a ddefnyddir yn eang	Byddai'r costau refeniw yn gysylltiedig gyda phob disgybl tua £2,500 yr un. Bu'r goblygiadau refeniw yn rhan o'r ymarferiad modelu ariannol fel rhan o Strategaeth Tymor Canol y Cyngor. Byddai hyn wedi ei sicrhau drwy'r Gyllideb Ysgolion Unigol cyn i'r cynnig ymgynghori ddod i ben. Ni all y Cyngor achub y blaen ar y cynnig; os bydd hyn yn mynd rhagddo, bydd tua £350k pan fydd yr ysgol wedi sefydlu'n llawn a tua £200k yn y flwyddyn gyntaf i'w ddilyn gan £150k yn yr ail flwyddyn. Mae'r cyllid ar gyfer y cynnig yn dod o'r grant cyfalaf cyfrwng Cymraeg i gynyddu addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r grant wedi ei neilltuo ar gyfer twf y Gymraeg ac ni fedrid ei wario ar gyfer ysgolion presennol.

<p>ac rwy'n rhagweld y byddai'n fwy defnyddiol iddynt yn yr hirdymor, er enghraift wrth wneud cais am brifysgolion a/neu swyddi y tu allan i Gymru. Fodd bynnag, rwyf yn cefnogi fy mhlant yn datblygu eu sgiliau yn y Gymraeg ac rwy'n hapus ei bod yn rhan o'r cwrwglwm.</p>	<p>Mae teuluoedd yn ardal Tredegar/Sirhywi yn teimlo fod yr amser teithio i Ysgol Gymraeg Bro Helyg yn rhwystr iddynt anfon eu plant i gael addysg cyfrwng Cymraeg.</p>
<p>Mae llawer o weithfeydd heb eu cofnodi dan y safle a gynigir. Fe wnaeth safle St. James lawr y ffordd yn Thomas Ellis Way ddal y Cyngor mas drwy fod angen gwerth £31m o waith daear ychwanegol i gynnal y safle a'i wneud yn ddiogel ar ôl canfod siafftau gweithfeydd tebyg heb eu nodi. Dywedodd y Cyngor bryd hynny na fyddai byth yn cael ei ddal mas felly eto nac i wario arian tebyg i ddim ond cynnal tir anniofel yn ddiangen i adeiladu arno eto, eto dyma ni eto, yn hytrach na dewis safleoedd diogel (e.e. y nifer fawr o erwau gwag o dir gwastraff yn hen waith dur Glynebw y safle gwag Coleg Gwent), i enwi ond dau safle y gwyddys eu bod 100% yn ddiogel. Pam felly ystyried Chartist Way gyda'r NCB wedi dweud yn y Dystysgrif Amgylcheddol yn dilyn eu hadroddiad ar brynu fy eiddo ym mis Mai 2010 ar ôl "cerdded o amgylch", na fedrir byth adeiladu ar y safle yma (y padog yn Chartist Way). Yn eu rhuthr gwylt i'r Cyngor gam-wario £6m arall o arian cyhoeddus (arian yn dilyn Covid, o ddifrif) i gael ysgol Gymraeg, yn od mewn ardal lle nad oes bron neb yn siarad Cymraeg nac yn malio am hynny) ac ar gyfer dim ond 210 o ddisgyblion, yn ddim llai na chywilyddus.</p>	<p>Mae safle Chartist Way mewn lleoliad da o ran gwasanaethu Tredegar a rhannau o Lynebw. Fodd bynnag, gellid dadlau fod gan y safle nifer o gyfyngiadau megis halogiad tir, risg mwyn gloddio, archaeoleg ac effeithiau posibl ar Henebion Rhestredig ond nid oes dim yn yr arolwg o'r topograffeg wedi dweud na ellir goresgyn hynny.</p> <p>Mae'r cyllid yn grant cyfalaf 100% gan Lywodraeth Cymru er mwyn cynyddu cyfleoedd ar gyfer addysg Gymraeg.</p> <p>Mae arolygon galw dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf yn awgrymu bod rhieni o ardaloedd Tredegar/Sirhywi a gogledd Ebwy Fawr yn teimlo fod yr amser teithio i Ysgol Gymraeg Bro Helyg (yr unig ysgol gynradd Gymraeg yn y Fwrdeistref Sirol) yn ormod ond byddent yn ystyried anfon eu plant i ysgol gynradd Gymraeg pe byddai'n nes.</p> <p>Mae'r Cyngor yn dymuno hyrwyddo cyfleoedd mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg er mwyn cael cydraddoldeb ar draws y stad ysgolion.</p>
<p>Nid yw Ysgol Bro Helyg yn llawn. Gallai hyn fynd â disgyblion o ysgolion eraill ac nid yw'n ymddangos fod galw am yr ysgol. A yw'n ariannol hyfyw cael adeilad ysgol llawn gyda dim ond ddua ddosbarth?</p>	<p>Mae'r Cyngor yn sylweddoli y bydd y cynnig yn adleoli rhai disgyblion yn Nhredegar dros gyfnod, a chaiff hyn ei liniaru gan y model egin/twf. Mae'r opsiwn hwn yn golygu gweithrediad araf a chyson. Nid oes gan y cyngor unrhyw gynlluniau i gynnal unrhyw gynigion ad-drefnu ysgolion.</p> <p>Bu'r goblygiadau refeniw yn rhan o'r ymarferiad modelu ariannol fel rhan o Strategaeth Tymor Canol y Cyngor. Byddai hyn wedi ei sicrhau drwy'r Gyllideb Ysgolion Unigol cyn i'r cynnig ymgynghori ddod i ben. Byddai'r costau refeniw yn gysylltiedig gyda phob disgybl tua £2,500 yr un.</p>
<p>Unwaith eto, bydd y parcio yn yr ardal yma'n broblem. Mae llawer o ddamweiniau bob mis ar yr ffordd yn mynd i ardal Heol Beaufort, ni fydd hyn ond ychwanegu at y</p>	<p>Bydd cynllun yr ysgol newydd yn gydnaws â'i hamgylchedd. Os bydd y cynnig hwn yn mynd rhagddo, bydd ymgynghoriad cyn-cynllunio a phroses cais cynllunio fydd yn trafod y problemau</p>

<p>problemau y mae'r preswylwyr yn gorfod eu dioddef ddydd ar ôl dydd.</p>	<p>Os symudir ymlaen â'r cynnig, bydd ymgynghoriad cyn cynllunio a phroses cais cynllunio fydd yn trafod y pryderon am y trafodaethau am draffig a phriffyrrd.</p>
<p>Mewn ymateb i'ch cynnig am ysgol gynradd Gymraeg newydd ar Chartist Way, hoffwn i chi ystyried y pwyntiau dilynol.</p> <p>Fy mhrif bryder yw yr effeithiau negyddol y bydd yn ei gael ar yr ysgolion cynradd presennol yn ardal Tredegar. Mae'r ysgolion hyn ymisiad darparwyr gorau addysg gynradd yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf yn y categori Gwyrdd ac nid oes yr un ohonynt mewn Mesurau Arbennig.</p> <p>Byddant yn colli disgyblion i'r ysgol newydd ac felly bydd problemau gostyngiad cyllid ar gyfer yr ysgolion presennol.</p> <p>Bydd hyn wrth gwrs yn neilltuol o berthnasol i ysgol gynradd Glanhywi gan y bydd safle'r ysgol newydd yn ei dalgylch. Y sefyllfa waethaf fyddai colli ysgol gynradd yn Nhredegard. Mae hefyd sgil-effaith ar gyfer Ysgol Gyfun Tredegar gan y byddai disgyblion yn yr hirdymor yn teithio i'r ysgol uwchradd Gymraeg agosaf, sydd yn awdurdod Torfaen. Mae hefyd broblemau dileu swyddi yn yr holl ysgolion yn Nhredegard wrth i gyfanswm nifer y disgyblion ostwng.</p> <p>Rwy'n ymwybodol y cynhaliwyd ymgynghoriad ac yn draddodiadol y gall yr ymatebion i ymarferion o'r fath fod yn gyfyngedig. Fodd bynnag, fel y cafodd ei gwneud yn glir yn yr ymgynghoriadau beth fyddai effaith lawn bosibl yr ysgol newydd ar ansawdd addysg yn Nhredegard?</p> <p>Mae gan safleoedd arall yn rhan orllewinol y fwrdeistref hefyd fwy i'w gynnig. Mae digon o le yn y Campws Dysgu yng Nglynebwyl ac mae'r seilwaith trafenidiaeth angenrheidiol eisoes yn y safle. Pam fod angen mynd â gofod gwyrdd bant o ardal Sirhywi? Mae'n ymddangos yn od y cafodd tri sefydliad addysgol eu dymchwel y gellid bod wedi eu defnyddio. Os yw'r safleoedd wedi eu clustnodi ar gyfer datblygiadau eraill, pam na fedrid newid hyn?</p> <p>Mae'r targed i gynyddu siaradwyr Cymraeg yn wir i'w ganmol ond drwy'ch cyfaddefiad eich hun yn rhy uchelgeisiol. Mae gennym eisoes ysgol gynradd Gymraeg yn y fwrdeistref. Mae'n ymddangos yn od fod tair ysgol gynradd Gymraeg yng Nghasnewydd gyda phoblogaeth o 145,000 tra bod Blaenau Gwent gyda phoblogaeth o 69,713 angen</p>	<p>Mae'r Cyngor yn sylweddoli y bydd y cynnig yn adleoli rhai disgyblion yn Nhredegard dros gyfnod, a chaiff hyn ei liniaru gan y model egin/twf. Mae'r opsiwn hwn yn golygu gweithrediad araf a chyson. Nid oes gan y cyngor unrhyw gynlluniau i gynnal unrhyw gynigion ad-drefnu ysgolion.</p> <p>Byddai'r costau refeniw yn gysylltiedig gyda phob disgybl tua £2,500 yr un.</p> <p>Nid oes gan y Cyngor unrhyw gynnig i ad-drefnu ysgolion yn Nhredegard, ond cydweithio i ddarparu cyfleoedd addysg cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg.</p> <p>Mae arolygon galw dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf yn awgrymu bod rhieni yn ardaloedd Tredegar/Sirhywi a gogledd Ebwy Fawr yn teimlo fod y pellter teithio i Ysgol Gymraeg Bro Helyg (yr unig ysgol gynradd Gymraeg yn ardal y Cyngor Bwrdeistref Sirol) yn rhy fawr ond byddent yn ystyried anfon eu plant i ysgol gynradd Gymraeg pe byddai'n nes.</p> <p>Caiff y tir yn Chartist Way ei ddynodi fel cyfleoedd preswyl yng Nghynllun Datblygu Lleol y Cyngor. Mae hefyd ddarn bach o dir y cyfeirir ato ar gyfer dibenion hamdden. Ni chaiff unrhyw elfen o'r safle arfaethedig ei ddynodi fel gofod gwyrdd.</p> <p>Mae Casnewydd hefyd yn ystyried ychwanegu at eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae hyn er mwyn cefnogi'r ddarpariaeth Gymraeg a datblygu ei ddarpariaeth uwchradd sy'n cynyddu ynghyd â'r ddarpariaeth gynradd.</p>

dwy. Mae ysgol gyfun Gymraeg yng Nghasnewydd hefyd o fewn ei awdurdod, rhywbeth nad oes gennym ni. Gall mewnfudo fod yn digwydd mewn rhai rhannau o dde ddwyrain Cymru, foddy bynnag ychydig iawn sydd yn ein hardal ni. Mae'n parhau i fod yn bwysig yn yr ardaloedd mwy deheuol fel Pont-y-pŵl, Trecelyn a Crosskeys. Mae'r ddadl y bydd cynnydd yn y galw am addysg Gymraeg oherwydd ymfudo yn dilyn dileu tollau ar y bont yn wan.

Roedd y 2 sylw isod yn fwy o ddatganiad:

- Gwastraff arian, digon o ysgolion yn barod.
- Neb yn siarad Cymraeg yma.